

Diwygiedig 2018-2033 Cynllun Datblygu Lleol

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 2^{il} Adroddiad Adendwm

Zil Gynllun Adneuo
Chwefror 2024

Cynnwys

1	Cyflwyniad	2
1.1	Gwaith a wnaed i baratoi i'w gyflwyno	3
2.	Cam Sgrinio	5
2.1	Dyraniadau'r CDLI Diwygiedig.....	5
2.2	Cynigion Eraill y CDLI diwygiedig.....	11
2.3	Effeithiau Cyfunol.....	13
2.4	Crynodeb Sgrinio.....	13
3.	Asesiad Priodol	15
3.1	Ymgorffori Mesurau Lliniaru	16
3.2	Prawf Cyfanwydd.....	20
4.	Casgliad	22
5.	Y Camau Nesaf	23
	Atodiadau	24
	Atodiad A. Rhestr o Newidiadau Ffocws i Adendwm ARC	24
	Atodiad B. Sylwebaeth Sgrinio	28
	Dyraniadau'r CDLI diwygiedig	28
	Cynigion Eraill y CDLI diwygiedig.....	53
	Atodiad C. Asesiad Ffosffadau	61

Talfyriadau

CDLI	Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig
diwygiedig	
AR(h)C	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
ACA	Ardal(oedd) Cadwraeth Arbennig
CCNS	Corff Cadwraeth Natur Statudol
AGA	Ardal(oedd) Gwarchodaeth Arbennig
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol

1 Cyflwyniad

- 1.0.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) diwygiedig. Mae'r CDLI diwygiedig yn gynllun defnydd tir sy'n amlinellu lleoliad a nifer y datblygiadau yn Sir Gaerfyrddin am gyfnod o 15 mlynedd rhwng 2018 a 2033, a bydd yn disodli'r CDLI mabwysiedig presennol. Trwy gydol cyfnod paratoi'r CDLI diwygiedig, y mae sawl fersiwn ohono wedi bod, mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC) cysylltiedig wedi'i gynnal mewn modd ailadroddol ac integredig fel rhan o'r broses o lunio'r cynllun ers 2018.
- 1.0.2 Cwmpas yr ARC presennol yw sicrhau bod yr holl ddyraniadau y bwriedir eu datblygu, a gynhwysir yn yr Ail CDLI diwygiedig¹ wedi cael eu hystyried yn briodol o ran eu heffaith bosibl ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Mae'r *Ail Adendwm ARC* (Hydref 2023) yn ymhelaethu ar ganfyddiadau ac argymhellion *Adendwm ARC*² (Chwefror 2023), *Adroddiad ARC*³ (Rhagfyr 2020) ac *Adroddiad Sgrinio ARC*⁴ anffurfiol cynharach o'r Strategaeth a Ffefrir (Rhagfyr 2018), sy'n ofynnol o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (fel y'u diwygiwyd) 2017 (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y Rheoliadau)⁵.
- 1.0.3 Lle bo'n briodol, mae'r ddogfen bresennol yn cynnwys rhannau o'r asesiadau uchod a chroesgyfeiriadau atynt. Mae ymdrech wedi'i gwneud i osgoi ailadrodd testun atodol nad yw'n hanfodol i'r rhesymeg a'r casgliadau a wneir yma. Mae hyn er mwyn rhoi cofnod hygyrch a thryloyw o'r asesiad o'r CDLI diwygiedig drwy gydol ei baratoi, o dan y Rheoliadau. Serch hynny, ni ddylid ystyried y ddogfen bresennol ar ei phen ei hun ac mae cyfeiriadau at ymdrechion ARC cynharach wedi'u darparu yn unol â hynny.
- 1.0.4 Mae'r canllawiau newydd sydd wedi'u cyhoeddi, yn ogystal â sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, wedi arwain at newid ymdrechion ARC blaenorol (a nodir ymhellach yn y testun fel y'i disodlir).

Ymateb Ymgynghoriad

- 1.0.5 Ymgynghorwyd â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), fel y Corff Cadwraeth Natur Statudol (CCNS), a ddarparodd sylwadau ar y CDLI diwygiedig a'r ARC⁶. Yn ei ymateb dyddiedig 14 Ebrill 2023, dywedodd CNC y byddai angen eglurhad ychwanegol i gyfiawnhau casgliad yr *Adendwm ARC* (Chwefror 2023) (h.y. gyda phendrantrwydd priodol a thu hwnt i amheuaeth resymol) na fyddai'r CDLI diwygiedig yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd ACAu afonol.

¹ [Cyngor Sir Caerfyrddin - Ail CDLI Adneuo \(oc2.uk\)](#)

² [Adendwm ARhC Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo. Chwefror 2020.](#) Fel y'i diwygiwyd, Atodiad A.

³ [Adroddiad ARhC y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig. Ionawr 2020.](#) Fel y'i diwygiwyd gan yr Adendwm ARhC, Atodiad A.

⁴ Adroddiad Sgrinio ARhC CDLI diwygiedig y Strategaeth a Ffefrir. Rhagfyr 2018.

⁵ [Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 \(legislation.gov.uk\)](#)

⁶ Dewch o hyd i'r holl ymatebion yn Adroddiad yr Ymgynghoriad. Hydref 2018.

1.1 Gwaith a wnaed i baratoi i'w gyflwyno

- 1.1.1 Yng ngoleuni sylwadau CNC a natur y canllawiau cysylltiedig a'r gwaith parhaus, darperir isod grynodedb o'r datblygiadau tystiolaethol a wnaed ers cyhoeddi'r *Adendwm ARC*. Yn ogystal, mae Atodiad A yn rhestru Newidiadau Ffocws arfaethedig a wnaed i *Adendwm ARC*.
- 1.1.1 Mae Datganiad Tir Cyffredin⁷ rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos, CNC, a Dŵr Cymru wedi cael ei baratoi i fynd i'r afael ag ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chydweithio ar draws dalgylchoedd. O ran lleoliad datblygiadau'r dyfodol, cymerir mesurau lliniaru hefyd i sicrhau nad oes unrhyw niwed pellach, boed ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad, yn deillio o ddatblygiadau'r dyfodol. Yn ogystal, bydd Bwrdd Rheoli Maetholion pob dalgylch ACA priodol yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch cyflawni mesurau lliniaru trawsffiniol (a mantais rhannu'r rheiny). Cytunwyd ar gylch gwaith y Byrddau Rheoli Maetholion ym mis Tachwedd 2023. Bydd y rhain yn hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yr effeithir arnynt ac yn darparu ymagwedd gytunedig at eu proses ganiatâd briodol. Yn y pen draw, mae hyn yn sicrhau nad yw datblygiad pellach yn cyfrannu at gynnydd net mewn llygredd ffosforws drwy bob dalgylch ACA yr effeithir arno.
- 1.1.2 Fel y manylwyd yn fersiwn 3.1 o'r cyngor gan CNC⁸, mae adolygiad parhaus o hawlenni gwaith trin dŵr gwastraff presennol⁹ wedi bod o fewn dalgylchoedd ACA ledled Cymru. Gellir dod o hyd i grynhoad o'r gwaith trin dŵr gwastraff â hawlenn ddiwygiedig yn y Papur Pwnc¹⁰. Yn ogystal, efallai y bydd yn bosibl yn awr amodi amseriad datblygiadau drwy Amodau Grampian i gyd-fynd â chyflawni gwelliannau i waith trin dŵr gwastraff gan Dŵr Cymru, fel y trefnwyd o dan eu Cynllun Rheoli Asedau priodol¹¹. Fodd bynnag, yng ngoleuni natur ofodol leol y ffactorau hyn, bydd y rhain yn cael eu hystyried fesul achos ar lefel y prosiect, a rhagwelir y bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyflwyno yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).
- 1.1.3 Paratowyd *Papur Pwnc* penodol ar Ffosforws i gefnogi sylfaen dystiolaeth y CDLI diwygiedig. Mae'n crynhoi'r gwaith a wnaed gan Gyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu mesurau i liniaru'r effeithiau andwyol sy'n gysylltiedig â datblygu mewn dalgylchoedd ACA sy'n sensitif i Ffosforws. Yn ogystal, mae'n trafod goblygiadau newidiadau tystiolaethol sydd wedi'u cyhoeddi ers yr *Adendwm ARC* (e.e. yr adroddiad dosrannu ffynonellau diweddar¹² gan CNC a Dŵr Cymru sy'n dangos bod 83% o'r llygredd ffosforws o fewn ACA Afon Tywi yn deillio o'r sector defnydd tir gwledig).
- 1.1.4 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro wedi cydweithio i lunio *Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion Gorllewin Cymru* sydd wedi cael ei

⁷ Cefnogi Datblygu Cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin drwy Ddiogelu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol sy'n Sensitif i Ffosforws (gwanwyn 2024). Datganiad Tir Cyffredin.

⁸ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosforws.](#)

⁹ gyda llif tywydd sych, gollyngiad elifant terfynol o =>20m3/diwrnod.

¹⁰ Papur Pwnc: Ffosforws (Hydref 2023).

¹¹ Gweler

¹² [Afonydd ACA: Adroddiadau Dosrannu Ffynonellau | Dŵr Cymru Welsh Water \(cymru.com\)](#)

mabwysiadu ar draws y rhanbarth ers hynny¹³. Yn seiliedig ar lenyddiaeth a adolygir gan gymheiriaid, mae'r offeryn hwn yn ystyried y mesurau lliniaru hynny a allai fod â'r gallu i gael gwared ar yr holl amheuaeth wyddonol resymol, am byth, ynghylch effeithiau dyraniadau'r CDLI diwygiedig ar yr ACAau afonol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r *Ddewislen Mesurau Lliniaru*¹⁴ sy'n cydnabod effeithiolrwydd a dibynadwyedd ystod eang o fesurau sydd â'r potensial i leihau mewnbwn maetholion i amgylcheddau dŵr croyw. Fe'i lluniwyd, yn rhannol, ar adolygiad technegol o opsiynau lliniaru maetholion a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin, sydd, yn ei dro, wedi'i adolygu ar ôl cyhoeddi'r *Adendwm ARC*¹⁵.

- 1.1.5 Mae'r gwaith o ddatblygu'r *Cynllun Gweithredu*¹⁶ yn parhau i sicrhau cysondeb â'r dystiolaeth a'r arweiniad gwyddonol gorau sydd ar gael. Er mwyn egluro paragraff 4.2.16 a 4.3.19 o'r *Adendwm ARC*, bydd y ddogfen fyw hon yn adeiladu i bob pwrpas ar y Cynllun Gweithredu Dros Dro ac yn cael ei chwblhau yn ystod yr archwiliad o'r CDLI diwygiedig. Yn atodol i'r cwmpas a amlinellwyd yn flaenorol, bydd y ddogfen hon yn rhoi mwy o hyder mewn perthynas â datblygu fesul cam yn unol â chyflawni lliniaru; sefyllfa lliniaru er mwyn atal cynnydd net mewn llygredd ffosfforws sy'n gysylltiedig â'r datblygiad; meintioli'r rôl y gallai ymyriadau eraill yn y dalgylch ei chael yn ychwanegol at wlyptiroedd adeiledig; gweithrediad hirdymor ymyriadau o'r fath (yn unol ag oes y datblygiad) a rheoli ffosfforws a gipiwyd; ac unrhyw addasiadau annisgwyl i'r CDLI diwygiedig a argymhellwyd gan adroddiad yr arolygydd.
- 1.1.6 Cyfeirir at y *Strategaeth Rheoli Maetholion*¹⁷, a luniwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin, sy'n nodi'r fframwaith i'r Awdurdod Lleol a'i randdeiliaid gydweithio i adfer a/neu gynnal Statws Cadwraeth ACAau Afonol ar yr un pryd â galluogi twf cynaliadwy.
- 1.1.7 Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r CDLI diwygiedig o ganlyniad i'r gwaith hwn.

¹³ [Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion Gorllewin Cymru](#) DS: Mae hyn yn disodli nodiant blaenorol Cyfrifiannell Sir Gaerfyrddin.

¹⁴ Dewislen Mesur Lliniaru Fersiwn Allanol 2. Cyfoeth Naturiol Cymru. [Cynllun gweithredu uwchgynhadledd llygredd afonydd | LLYW. CYMRU](#)

¹⁵ [Ricardo \(comisiynwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin\). Adolygiad Technegol Opsiynau Lliniaru Maetholion: Arweiniad ar opsiynau lliniaru ffosfforws i'w defnyddio yn Sir Gaerfyrddin. Mesurau Lliniaru Ffosfforws](#)

¹⁶ Cyfeiriwyd ato yn flaenorol fel '*Strategaeth Lleihau Ffosfforws Afon Tywi ac Afon Teifi*' o fewn yr Adendwm ARhC a'r CDLI diwygiedig.

¹⁷ Strategaeth Rheoli Maetholion Sir Gaerfyrddin. Gwanwyn 2024.

2. Cam Sgrinio

- 2.0.1 Paratowyd y Bennod hon yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a amlinellir yn *Adroddiad ARC* yn Adrannau 1.2, 1.3 ac 1.4 (tudalennau 1 i 4) yn ychwanegol at y fethodoleg a nodir ym Mhennod 2 (tudalennau 6 a 7), fel y'i diwygiwyd gan yr *Adendwm ARC*. Mewn egwyddor, mae'n sicrhau bod holl Dyraniadau'r CDLI diwygiedig¹⁸ a Chynigion Eraill y CDLI diwygiedig yn cael eu harfarnu'n ddigonol, a bod y CDLI diwygiedig yn cydymffurfio'n weithdrefnol yn unol â'r Rheoliadau. Unwaith eto, er mwyn eglurder, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r *Ail CDLI Diwygiedig Adneuo* ers ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym mis Chwefror 2023.
- 2.0.2 Yn ôl Cyfeirlyfr Dynodiadau Safleoedd a Warchodir y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, nid ychwanegwyd unrhyw ddynodiadau pellach (nac ymgeiswyr am hynny) at y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol o fewn radiws 15km i Sir Gaerfyrddin ers adeg ysgrifennu. Yn ogystal, nid oes cyhoeddiadau pellach wedi bod yn ymwneud â nodweddu safleoedd dynodedig, statws cadwraeth, na newidiadau i gyflwr eu Nodweddion Cymhwysol ers yr *Adendwm ARC*.
- 2.0.3 Mae'r llwybrau effaith sgrinio a welir yng Nhasg 2 yr *Adroddiad ARC* (a ddiwygiwyd wedyn ym mharagraff 3.2.1 o'r *Adendwm ARC*), wedi cael eu hadolygu a chanfuwyd eu bod yn dal yn briodol.

2.1 Dyraniadau'r CDLI Diwygiedig

- 2.1.1 Mae'r canlyniad sgrinio ar gyfer pob un o'r dyraniadau yn erbyn y mecanweithiau effaith posibl yn cael eu crynhoi isod yn Nhabl 1, fel a ategir gan sylwebaeth safle-benodol yn Atodiad B. Mae'r dyraniadau hynny sydd o fewn dalgylch ACA sy'n sensitif i ffosfforws hefyd wedi cael eu sgrinio yn Atodiad C.

¹⁸Mae Dyraniadau'r CDLI diwygiedig o hyn ymlaen yn cyfeirio at y safleoedd datblygu arfaethedig hynny a restrir ym Mholisiâu SG1: *Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg*, SG2: *Safleoedd Wrth Gefn*, HOM1: *Dyraniadau Tai*, EME3: *Cynigion Cyflogaeth*, a SP10: *Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr*.

Tabl 1. Crynodeb o sgrinio ARC o ddyraniadau'r *Ail CDLI diwygiedig Adneuo* nad ydynt i'w gweld yn yr *Adroddiad ARC (2020)* neu'r *Adendwm ARC (Chwefror 2023)*. I gael sylwebaeth safle-benodol, a Safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yr effeithir arnynt o bosibl yn benodol, cyfeiriwch at Atodiad B. Y = Ydy, nodir bod y dyraniad yn debygol o gael effaith arwyddocaol o dan y llwybr effaith hwn (a amlygir mewn llwyd); N = NID yw'r dyraniad yn debygol o achosi effeithiau o dan y llwybr effaith hwn.

Cyfeirnod y safle	Enw	Dyfrol	Morol	Arfordir	Rhywogaet hau Svudol	Hamdden	Echdynnu	Dŵr Gwastraff	Ffosfadau	Llygredd aer	Aflonyddu	Casgliad Sgrinio
PrC1/MU3	Safle Adfywio a Defnydd Cymysg Nant-y-caws	N	N	N	N	N	N	N	N	N	N	Allan
PrC2/GT1	Tir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli	N	N	N	Y	N	N	Y	N	N	Y	Mewn
PrC2/GT2	Pen-y-bryn (estyniad), Bynea, Llanelli	Y	Y	N	Y	N	N	Y	N	N	N	Mewn
PrC2/h20	Harddfan	N	N	N	N	N	N	Y	N	N	N	Mewn
PrC2/MU1	Cyn Safle Gwaith yr Hen Gastell, Llanelli	Y	Y	N	Y	N	N	Y	N	N	N	Mewn
SeC20/MU1	Parc Gwyliau Talacharn	Y	Y	N	N	N	N	N	N	N	Y	Mewn
SeC3/h3	Llys Felin	Y	Y	N	Y	N	N	N	N	N	Y	Mewn
SeC4/MU1	Glannau Porth Tywyn	Y	Y	N	Y	N	N	Y	N	N	Y	Mewn
SeC6/h2	Tir rhwng Heol Clayton a Dwyrain Heol Bronallt	N	N	N	N	N	N	N	N	N	N	Allan
SuV1/h1	Gerllaw Fron Heulog	N	N	N	N	N	N	N	N	N	N	Allan
SuV16/h1	Heol Llwynddewi	Y	N	N	Y	N	N	N	Y	N	Y	Mewn
SG2/1	Hen Lofa Morlais, Llangennech	Y	Y	N	Y	N	N	N	N	N	Y	Mewn
SG2/2	Tir ger Teras Arian, Porth Tywyn	Y	Y	N	Y	N	N	N	N	N	Y	Mewn
SG2/3	Parth Cyflogaeth Cross Hands	Y	Y	N	Y	N	N	N	N	N	Y	Mewn
SG2/4	Hen Safle Ennis Caravans, Cross Hands	Y	Y	N	Y	N	N	N	N	N	Y	Mewn

Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llwyth Ffosfforws

2.1.2 Rhaid ystyried yr is-adran hon ar y cyd â pharagraffau 3.2.3 i 3.2.13 o'r *Adendwm ARC*. Yng ngoleuni sgrinio safle ychwanegol i mewn ar gyfer ffosffadau (SuV16/h1), darparwyd crynhoed diwygiedig o holl Ddyraniadau'r CDLI diwygiedig (Tabl 2).

Tabl 2. Crynodeb o holl ddyraniadau preswyl y CDLI diwygiedig sydd wedi'u sgrinio i mewn ar gyfer effeithiau arwyddocaol tebygol ar ACA Afon Teifi neu ACA Afon Tywi o achos ffosffadau. Mae'r tabl hwn yn disodli pob cydgrynhoed blaenorol (gan gynnwys Tabl 7 a welir yn yr *Adendwm ARC*). * = mae'r safle hefyd wedi'i ymrwymo'n rhannol; nid yw'r rhif yn cynnwys unedau sydd â chaniatâd mewn grym.

Dalgylch Sensitif i Ffosffad	Cyfeirnod Dyranid y CDLI diwygiedig	Enw	Unedau
ACA Afon Teifi	SuV38/h1	Maes y Bryn	6
	SuV37/h3	Tir ger Lleinau	10
	SuV37/h2	Tir i'r de o Cae Coedmor	20
	SuV39/h1	Gerllaw Yr Hendre	7
	SuV33/h1	Tir gyferbyn â Brogeler	5
	SuV36/h2	Tir ym Mryndulais	16
	SuV36/h1	Cae Pensarn Helen	6
	SeC13/h1	Ger Y Neuadd	10
	SuV43/h1*	Blossom Inn	5*
	SeC12/h1	Trem y Ddôl	17
	SeC12/h3	Tir tu cefn i Dolcoed	20
	SeC14/h2	Tir ger Maescader	24
	SeC14/h1	Garej Blossom	20
	SuV35/h1	Tir ger Arwynfa	6
ACA Afon Tywi	SuV16/h1*	Heol Llwynddewi	2*
	SuV17/h1	Cefn yr Hen Waith Saer, Heol yr Orsaf	35
	SuV51/h1	Tir gyferbyn â Neuadd y Pentref	8
	SeC16/h1	Chwarter Gogleddol Llandeilo	27
	SeC15/h2	Tir ger Bryndeilog, Rhodfa Tywi	8
	SeC17/h1	Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog	16
	SeC17/h2	Tir oddi ar Heol Pendref	8

- 2.1.3 Mae yna hefyd un dyraniad defnydd cymysg a chyflogaeth wedi'i leoli yn nalgylch sensitif i ffosforws ACA Tywi (SeC16/MU1 a SeC16/E1). Fodd bynnag, mae'r safleoedd hyn wedi'u sgrinio allan o dan y llwybr effaith hwn yn unol â chyngor CNC¹⁹. Yn ogystal, mae'r CDLI diwygiedig yn cynnwys datblygiad ymroddedig o fewn y dalgylchoedd ACA sensitif i ffosforws (y mae llawer ohono wrthi'n cael ei adeiladu neu eisoes wedi'i adeiladu). Gellir gweld manylion llawn am sgrinio o dan y llwybr effaith hwn yn Atodiad C, ac mae cyd-destun pellach wedi'i gynnwys yn yr *Adendwm ARC* a'r *Papur Pwnc*²⁰.
- 2.1.4 Cyfeirir at baragraff 1.4.3 o'r *Adroddiad ARC* sy'n amlinellu nad oes gofyniad i ailasesu ymrwymadau'n effeithiol o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau, yn enwedig pan ganfuwyd yn flaenorol eu bod yn dderbyniol gan yr awdurdod cymwys ac mewn ymgynghoriad â'r CCNS. Mae'r dull hwn yn gyson â'r Llawlyfr Asesu Rheoliadau Cynefinoedd²¹, yn ogystal â chyngor a gyhoeddwyd gan CNC yn ymwneud yn benodol â'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn dalgylchoedd ACA sy'n sensitif i ffosforws²².

Effeithiau sy'n gysylltiedig â datblygu: Dŵr Gwastraff (wedi'i ddiweddarau)

- 2.1.5 Rhaid ystyried yr is-adran hon ar y cyd â pharagraffau 3.2.70 i 3.2.75 a 3.2.77 i 3.2.79 o'r *Adroddiad ARC* (fel y'i diwygiwyd gan Gyfeirnod 27 a 28 o'r *Adendwm ARC*). Mae paragraffau 3.2.76 a 3.2.80 o'r *Adroddiad ARC* yn cael eu disodli yng ngoleuni'r isod.
- 2.1.6 Dylid cydnabod bod capasiti gwaith trin dŵr gwastraff yn gallu newid ac, felly, rhaid adlewyrchu'r rhesymeg a roddwyd yn wreiddiol yn yr *Adroddiad ARC* ar gyfer sgrinio Dyraniadau unigol y CDLI diwygiedig yn fanwl yn unol â hynny. Mae Dŵr Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin wedi parhau i gydweithio i nodi unrhyw bryderon yn ymwneud â chapasiti sy'n gysylltiedig â'r twf a gynigiwyd gan yr *Ail CDLI diwygiedig Adneuo*.
- 2.1.7 Mae ymgynghoriad diweddar â Dŵr Cymru wedi cadarnhau y gellir darparu ar gyfer y rhan fwyaf o Dyraniadau'r CDLI diwygiedig drwy ganiatadau presennol ac nad oes ganddynt bryderon sylweddol ynghylch cyflawni'r CDLI diwygiedig.²³ Fodd bynnag, efallai na fydd gan rai dalgylchoedd gweithfeydd trin dŵr gwastraff y gallu i ymdopi â maint y twf a gynigir yn y CDLI diwygiedig. Mae Dŵr Cymru hefyd wedi cynnal asesiad Llif Tywydd Sych atodol i gael gwybod a allai Dyraniadau'r CDLI diwygiedig arwain at orlifo anfoddhaol drwy fynd y tu hwnt i hawlenni cysylltiedig. Mae hyn wedi arwain at nodi gweithfeydd trin dŵr gwastraff eraill lle gallai Dyraniadau penodol y CDLI diwygiedig arwain at fynd y tu hwnt i'r capasiti a ganiateir, gan olygu y byddai'n debygol y byddai angen hawlen newydd neu hawlen wedi'i haddasu i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y galw. Gan nad yw'r cyflenwad dŵr wrth gefn gweithredol posibl (neu

¹⁹ Fersiwn 3.1, a gyhoeddwyd yn Awst 2023. Mae'r safleoedd yn cynnwys defnydd cyflogaeth, masnachol ac adwerthu (h.y., amhreswyl ac, felly, maent yn annhebygol o gynyddu nifer yr arosiadau dros nos yn y dalgylch). [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosforws](#)

²⁰ Papur Pwnc: Ffosforws (Hydref 2023).

²¹ Part C.12. Tyldesley, D., and Chapman, C., (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook, April 2021 Edition. UK: DTA Publications Limited.

²² Mae [Cyngor ar gyfer adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol](#) yn dweud yn benodol "Dylid asesu dyraniadau" (h.y. nid ymrwymadau) "ar gyfer datblygiadau y bwriedir eu cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff prif gyflenwad, ac sydd â'r potensial i gynyddu'r llwyth ffosforws..."

²³ Cyfeirir at yr Adroddiad Ymgynghori sy'n cynnwys cyfeiriad at eu hymateb llawn.

ddiffyg hynny) sy'n gysylltiedig â phob hawlen amgylcheddol yn hysbys, yn dilyn dull rhagofalus, tybir y gallai mynd y tu hwnt i'r capasiti a ganiateir arwain at effeithiau andwyol ar Safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol sydd â chysylltiad hydrolegol.

2.1.8 Mae pryderon ynghylch y rhwydwaith sy'n gysylltiedig â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli hefyd wedi'u nodi. Mae'r rhain wedi'u nodi ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cilfach Tywyn, ac yn ymwneud â natur gyfun y rhwydwaith carthffosiaeth o fewn dalgylch y gwasanaeth cysylltiedig. Mae Dŵr Cymru wedi dweud y gallai cyflwyno llif ychwanegol o ddŵr budr arwain at orlwytho'r gwaith trin dŵr gwastraff yn hydrologig, yn ogystal â chynnydd posibl yn amllder y gollyngiadau o orlifoedd carthffosiaeth gyfun, yn enwedig yn ystod glaw sylweddol. Er na thybir y byddai dirywiad pellach i statws²⁴ y corff dŵr priodol yn gyfystyr ag effeithiau andwyol ar gyfanrwydd Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, yn dilyn dull rhagofalus mae'r Dyraniadau CDLI diwygiedig hynny sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli hefyd wedi cael eu sgrinio o dan y llwybr effaith hwn.

2.1.9 Felly, ar sail ragofalus, y casgliad yw y gallai'r Dyraniadau CDLI diwygiedig hynny sy'n gysylltiedig â'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff dynodedig sy'n peri pryder gael effaith andwyol ar Safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol sydd â chysylltiad hydrolegol, fel y'i crynhoir yn Nhabl 3.

Tabl 3. Gweithfeydd trin dŵr gwastraff a allai fynd y tu hwnt i'r capasiti a ganiateir o ganlyniad i'r twf a gynigiwyd yn yr *Ail CDLI diwygiedig Adneuo*, ochr yn ochr â'r safleoedd dynodedig canlyniadol ag effaith arwyddocaol debygol. Mae'r tabl hwn yn disodli Tabl 10 a welir yn yr *Adroddiad ARC*, ynghyd â'r holl grynodedbau a sylwebaeth sgrinio benodol a roddir ar gyfer Dyraniadau'r CDLI diwygiedig sydd wedi'u nodi. 1 = Nodwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad gan Dŵr Cymru. 2 = Pennwyd drwy asesiad Llif Tywydd Sych. 3 = Cadarnhawyd gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cilfach Tywyn.

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	Cyfeirnod Dyraniad y CDLI diwygiedig	Enw	Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yr effeithir arno o bosibl
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llangennech	PrC2/h20	Harddfafn, y Bryn	AGA Cilfach Tywyn ac ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ¹
	SeC7/h3	Golwg yr Afon	
	SeC7/h4	Gyferbyn â Pharc Morlais	
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Sanclêr	SeC18/h3	Tir gerllaw i Cefn Maes	ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ¹
	SeC18/h4	Tir yn Heol Llaindelyn	
	SeC18/h5	Tir gerllaw Gwynfa	
	SeC18/h6	Tir y tu cefn i	
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Hendy-gwyn ar Daf	SeC19/h1	Tir yn Park View	
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talacharn	SeC20/h3	Tir oddi ar Clifton Street	ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ^{1,2}
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Ffair-fach	SeC16/h1	Gogledd Chwarter Llandeilo	ACA Afon Tywi, ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ¹
	SeC16/MU1	Beechwood	

²⁴ Dirywiad o dan *Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003*. Gellir gweld statws corff dŵr ym Mharagraff 3.2 o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (bellach wedi'i ddiwygio gan [Gylch 3](#)).

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	Cyfeirnod Dyraniad y CDLI diwygiedig	Enw	Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yr effeithir arno o bosibl
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Alltwalis	SuV11/h1	Tir ar Ysgol Alltwalis	ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ¹
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Parc y Sblot	PrC1/MU2	Pibwr-lwyd	ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ²
	PrC1/h4	Tir gerllaw Parc y Delyn	
	PrC1/h5	Dwyrain o Rhodfa	
	PrC1/h8	Heol Llansteffan	
	PrC1/h10	Brynhyfryd	
	PrC1/h12	Heol Castell Pigyn	
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pencader	SeC14/h2	Tir gerllaw Maescader	Afon Teifi, Safle Morol Bae Ceredigion ²
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pentywyn	SuV61/h1	Tir yn Fferm Nieuport	ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ²
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli	PrC2/GT1	Tir ym Mhenyfan, Trostre	AGA Cilfach Tywyn ac ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd(elfennau Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd) ³
	PrC/GT2	Pen-y-bryn (estyniad), Bynea	
	PrC2/h1	Beech Grove, y Pwll	
	PrC2/h10	Tir ger The Dell, Ffwrnes	
	PrC2/MU1	Cyn Safle Gwaith yr Hen Gastell, Llanelli	
	PrC2/MU2	Porth Trostre, Llanelli	
	SeC4/MU1	Glannau Porth Tywyn	

2.1.10 Mae'r nodiant sy'n ymwneud â'r arfarniad unigol o Ddyraniadau'r CDLI diwygiedig yn erbyn yr 'Effeithiau sy'n Gysylltiedig â Datblygu: Dŵr Gwastraff' yn yr Adroddiad ARC yn cael ei ddisodli gan Dabl 3 (h.y., Atodiad 8 o'r Adroddiad ARC ac Atodiad G yr Adendwm ARC). Yn ogystal, mae'r crynodeb o sgrinio ar lefel generig o dan y llwybr effaith cysylltiedig hwn (a nodir yn Nhabl 14 yn yr Adroddiad ARC) yn cael ei ddiwygio ymhellach i adlewyrchu'r ymdrech a gyflwynir yma.

2.2 Cynigion Eraill y CDLI diwygiedig

2.2.1 Mewn ymateb i'r rhesymeg a roddwyd gan y CCNS yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol, fel mesur rhagofalus mae'r cynigion canlynol a nodwyd ym mholisiau'r CDLI diwygiedig wedi cael eu sgrinio:

- Ardaloedd Chwilio Lleol (a gynigiwyd o dan *CCH1: Ynni Adnewyddadwy o fewn Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol*);
- Ardal Chwilio Tywod a Graean (a gynigiwyd o dan *SP18: Adnoddau Mwynau*); ac
- Estyniad Rheilffordd Gwili (a gynigiwyd o dan *TRA3: Rheilffordd Gwili*).

2.2.2 Mae'r polisiau sy'n cynnwys y cynigion hyn eisoes wedi cael eu sgrinio²⁵, ond mae'r ymarfer canlynol yn canolbwyntio'n benodol ar eu cydran(nau) gofodol cysylltiedig fel y cynigiwyd ar *Fap Cynigion a Mapiau Mewnosod yr Ail CDLI diwygiedig*²⁶. Mae gan gynigion eraill sydd wedi'u mapio, megis Canolfan Iechyd a Llesiant Cross Hands (a gynigiwyd o dan *PSD6: Cyfleusterau Cymunedol*), Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands (a gynigiwyd o dan *TRA1: Gwelliannau i'r Seilwaith Trafnidiaeth a Phrifyrdd*) a Gorsaf Reilffordd Gwili, ganiatâd eisoes ac, felly, maent yn cael eu hystyried yn ymrwymadau yn unol â pharagraff 2.1.4.

2.2.3 Mae'r casgliadau sgrinio ar gyfer pob un o'r cynigion hyn yn erbyn y mecanweithiau effaith posibl yn cael eu crynhoi isod yn Nhabl 4, fel a ategir gan sylwebaeth yn Atodiad B.

²⁵Cyfeiriwch at yr Adroddiad ARhC a'r Adendwm ARhC.

²⁶[Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo \(llyw.cymru\)](#)

Tabl 4. Crynodeb o sgrinio ARC o *gynigion eraill yr Ail CDLI Adneuo diwygiedig*. I gael sylwebaeth cynnig-benodol, cyfeiriwch at Atodiad B. Y = Ydy, nodir bod y cynnig yn debygol o gael effaith arwyddocaol o dan y llwybr effaith hwn (a amlygir mewn llwyd); N = NID yw'r cynnig yn debygol o achosi effeithiau o dan y llwybr effaith hwn.

Cyfeirnod y safle	Enw	Dyrol	Morol	Arfordir	Rhywogaet hau Svudol	Hamdden	Echdynnu	Dŵr Gwastraff	Ffosffadau	Llygredd aer	Aflonyddu	Casgliad Sgrinio
A	I'r gogledd-ddwyrain o Farmers (Ardal Chwilio Leol)	N	N	N	Y	N	N	N	N	N	N	Mewn
B	Mynydd Pencarreg (Ardal Chwilio Leol)	N	N	N	Y	N	N	N	N	N	N	Mewn
C	I'r gorllewin o Dalylychau (Ardal Chwilio Leol)	N	N	N	Y	N	N	N	N	N	N	Mewn
Tywod a Graean	Clarbeston Road i Lanfallteg (Ardal Chwilio)	Y	Y	N	Y	N	N	N	N	N	N	Mewn
TRA3	Estyniad Rheilffordd Gwili	Y	N	N	Y	N	N	N	N	N	N	Mewn

2.3 Effeithiau Cyfunol

2.3.1 Fel y manylwyd yn yr *Adroddiad ARC* (gweler tudalen 45), o dan Erthygl 6(3) y Gyfarwydddeb Cynefinoedd mae'n ofynnol bod potensial gan gynlluniau i gael effaith arwyddocaol naill ai'n unigol neu'n gyfunol â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill. Mae'r Adran hon yn ategu Tasg 3 yn yr *Adroddiad ARC* ac yn yr *Adendwm ARC*.

2.3.2 Mae holl ddyraniadau'r CDLI diwygiedig a Chynigion Eraill y CDLI a gafodd eu sgrinio trwy hyn naill ai wedi eu dynodi i gategori sy'n eu galluogi i gael eu sgrinio allan gan na allant danseilio amcanion safleoedd cadwraeth (naill ai'n unigol neu'n gyfunol), neu ystyrir bod effaith arwyddocaol debygol ganddynt ar eu pen eu hunain (categori I). Felly, nid oes angen ystyried effeithiau 'cyfunol' ymhellach.

DS: Ystyrir effeithiau cyfunol ymhellach yn Atodiad C mewn perthynas â'r dyraniadau CDLI diwygiedig hynny sydd wedi'u lleoli yn nalgylch ACA Afon Teifi sy'n sensitif i ffosfforws.

2.4 Crynodeb Sgrinio

2.4.1 Mae dyraniadau ychwanegol y CDLI diwygiedig wedi'u sgrinio yn unol â gofynion y Rheoliadau. I grynhoi, ...

- **Mae tri o ddyraniadau'r CDLI diwygiedig wedi cael eu sgrinio allan o ran yr angen am asesiad pellach. Y rhain yw SuV1/h1, SeC6/h2, a PrC1/MU3;**
- **Penderfynir bod 12 o ddyraniadau'r CDLI diwygiedig yn cael effaith arwyddocaol debygol ar gyfanrwydd safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (fel y dangosir yn Nhabl 1). Cyfeiriwch at Atodiad B sy'n nodi'r safleoedd yr effeithir arnynt a'r llwybrau effaith cysylltiedig ar gyfer pob dyraniad yn y CDLI diwygiedig; ac**
- Yng nghyd-destun Dyraniadau'r CDLI diwygiedig, dim ond un llwybr effaith ychwanegol ac AGA yr effeithir arni yn atodol i'r rhai y penderfynwyd arnynt mewn ymdrechion ARC blaenorol sydd wedi'i nodi. Hwn yw'r **aflonyddwch i gynefin gorffwyso/bridio i adar ag effaith arwyddocaol debygol ar Gynodiadau Adar AGA Cilfach Tywyn trwy ddatblygu a gynigiwyd gan PrC2/GT1, PrC2/GT2, PrC2/MU1, SeC4/MU1, a SG2/2.**

2.4.2 Mae pob un o Ddyraniadau'r CDLI diwygiedig sydd wedi'u cynnwys yn yr *Ail CDLI diwygiedig Adneuo* wedi'u hailsginio yn erbyn effeithiau sy'n gysylltiedig â gollwng dŵr gwastraff yn unol â'r newidiadau tystiolaethol a lywiwyd gan Dŵr Cymru. **Cyfeiriwch at Dabl 3 sy'n nodi'r dyraniadau CDLI diwygiedig hynny a'r safleoedd yr effeithir arnynt y penderfynir bod ganddynt effaith arwyddocaol debygol o dan y llwybr effaith hwn.**

2.4.3 Mewn perthynas â Chynigion Eraill y CDLI diwygiedig, ar sail ragofalus, mae'r canlynol hefyd wedi cael eu sgrinio i mewn ar gyfer Asesiad Priodol:

- **Ardaloedd Chwilio Lleol Solar ag effaith arwyddocaol debygol ar dir porthiant sy'n gysylltiedig â Chrynodiadau Adar AGA Elenydd-Mallaen²⁷;**
- **Yr effaith ar safleoedd clwydo ac ardal borthiant yr ystlum pedol mwyaf a'r ystlum pedol lleiaf²⁸ oherwydd gweithrediadau mwynau wedi'u lleoli yn yr Ardal Chwilio, gydag effaith arwyddocaol debygol ar ACA Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton;**
- **Halogi dŵr wyneb o ganlyniad i'r Ardal Chwilio ac Estyniad Rheilffordd Gwili gydag effaith arwyddocaol debygol ar Safle Morol Ewropeidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ac ACA Afon Tywi, yn y drefn honno; ac**
- **Aflonyddwch i nodweddion dyfrgwn²⁹ o ganlyniad i Estyniad Rheilffordd Gwili gydag effaith arwyddocaol debygol ar Safle Morol Ewropeidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, ACA Afon Tywi ac ACA Afon Teifi.**

2.4.4 Deur i'r casgliad sgrinio uchod ochr yn ochr â'r rhai yn yr Adroddiad Sgrinio ARC, yr Adroddiad ARC (fel y'u diwygiwyd gan Atodiad A yr Adendwm ARC) a'r Adendwm ARC.

²⁷ *Falco columbarius* (cudyll bach), *Milvus milvus* (barcud coch), a *Falco peregrinus* (hebog tramor).

²⁸ *Rhinolophus ferrumequinum* a *Rhinolophus hipposideros*, yn y drefn honno.

²⁹ *Lutra lutra*.

3. Asesiad Priodol

- 3.0.1 Dylid darllen y Bennod hon ar y cyd â'r asesiad priodol sydd wedi'i gynnwys yn yr *Adroddiad ARC* (gan gynnwys newidiadau Cyfeirnod 41 i 43) a nodir yn yr *Adendwm ARC*), yr *Adendwm ARC* (fel y'i diwygiwyd gan Atodiad A), ac Atodiad C.
- 3.0.2 Ac eithrio aflonyddwch i gynefin gorffwyso/bridio i adar ag effaith arwyddocaol debygol ar AGA Cilfach Tywyn, cynigir bod y mesurau lliniaru a'r prawf cyfanrwydd a gyflwynwyd yn wreiddiol yn yr *Adroddiad ARC*³⁰ a'r *Adendwm ARC* yn parhau'n berthnasol (fel y'i diwygiwyd yn Atodiad A drwy ymgynghori â'r CCNS) i bob effaith arwyddocaol debygol arall sy'n deillio o Ddyraniadau'r CDLI diwygiedig. Mae hyn yn cael ei ategu gan yr ystyriaethau canlynol:
- i. Ymhelaethir ar yr asesiad priodol ar gyfer gwaredu dŵr gwastraff (a gynigiwyd yn Nhabl 18 yr *Adroddiad ARC*) yn Nhabl 4 a'i ddiwygio i adlewyrchu'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff hynny a safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yr effeithir arnynt a nodwyd yn Nhabl 3. Ystyrir bod mesurau lliniaru wedi'u sefydlu ymhellach o fewn yr *Ail CDLI diwygiedig Adneuo* trwy *CCH4: Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr*, *INF4: Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli - Gwaredu Dŵr Wyneb y Dalgylch*³¹, a *SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol*. Gyda'i gilydd, gellir dibynnu ar y rhain i osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol am y rhesymau canlynol:
 - Er gwaethaf yr ansicrwydd ynghylch a fydd datblygwyr yn cyllido'r gwaith eu hunain (drwy gyfraniadau cynllunio) neu'n dibynnu ar Gynllun Rheoli Asedau *Dŵr Cymru* i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, pe na bai cyllid yn cael ei sicrhau, byddai oedi cyn cyflawni'r datblygiad neu byddai'n cael ei gyflwyno'n raddol nes bod y gwelliannau'n cael eu cyflawni, neu fod capasiti pellach ar gael i ddarparu ar gyfer y cynnig; a
 - Gan gyfeirio at Baragraff 4.3.3 o'r *Adendwm ARC*, mae'n llwybr a ganiateir i ddatblygiad a gynigir gan yr *Ail CDLI diwygiedig Adneuo* gael ei gymeradwyo'n amodol ar gyflawni'r seilwaith cysylltiedig.
 - ii. O ran yr effeithiau andwyol posibl a nodwyd ar ACAau Afon Tywi, Afon Teifi, Afonydd Cleddau, ac Afon Gwy trwy lwytho ffosfforws cynyddol, mae'r crynodeb yn Adran 1.1 yn darparu eglurder sylweddol ychwanegol i'r mesurau lliniaru a amlinellir yn yr *Adendwm ARC*. Fel yr ategir gan Atodiad C, gellir dod i'r casgliad y gellid dibynnu ar y mesurau lliniaru arfaethedig i osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd yr ACAau afonol hyn.
- 3.0.5 Gwelir bod halogi dŵr wyneb o ganlyniad i'r Ardal Chwilio ac Estyniad Rheilffordd Gwili gydag effaith arwyddocaol debygol ar Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ac ACA Afon Tywi, ac aflonyddwch i nodweddion dyfrgwn o ganlyniad i Estyniad Rheilffordd Gwili gydag effaith arwyddocaol debygol ar Safle Morol

³⁰ Fel y'i diwygiwyd gan yr *Adendwm ARhC*.

³¹ Wedi'i lunio'n benodol ar gyfer y dyraniadau CDLI diwygiedig hynny yn ardal wasanaethu Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli. Mae'r polisi hwn yn cynnwys CCA pwrpasol sy'n nodi mecanwaith gwelliant i atal dŵr budr ychwanegol rhag mynd i mewn i'r system carthffosiaeth gyfun.

Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, ACA Afon Tywi ac ACA Afon Teifi, yn cyd-fynd â'r mesurau lliniaru a'r prawf cyfanrwydd a gyflwynwyd yn wreiddiol yn yr *Adroddiad ARC* (gweler Tabl 18 a pharagraffau 4.3.6 i 4.3.18, yn y drefn honno). Felly, ac yn sgil cynnal adolygiad, gellir dibynnu ar y rhain i osgoi effeithiau andwyol ar Safleoedd cysylltiedig y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.

3.1 Ymgorffori Mesurau Lliniaru

- 3.1.1 Yn ychwanegol at yr uchod, adolygir isod yr effeithiau arwyddocaol tebygol hynny sy'n weddill a nodwyd yn Adran 2.2 ar gyfer Cynigion Eraill y CDLI diwygiedig, yn ogystal ag aflonyddwch i gynefin gorffwyso/bridio i adar ag effaith arwyddocaol debygol ar Grynodiadau Adar AGA Cilfach Tywyn a grëwyd gan Ddyraniadau'r CDLI diwygiedig ac effeithiau sy'n gysylltiedig â gwaredu dŵr gwastraff.
- 3.1.2 Cyfeirir at baragraff 4.2.1 a 4.2.2 o'r *Adroddiad ARC*. Caiff mesurau lliniaru y gellid dibynnu arnynt i osgoi effeithiau andwyol eu hystyried isod (Tabl 5).

Tabl 5. Crynodeb o fesurau lliniaru posibl ar gyfer yr effeithiau arwyddocaol tebygol sy'n weddill a nodwyd yn yr ARC presennol. Ar gyfer y casgliad cyfan o fesurau lliniaru y dibynnir arnynt i osgoi effeithiau andwyol a nodwyd gan yr Ail CDLI diwygiedig Adneuo, cyfeirir at Dabl 18 o'r *Adroddiad ARC* (fel y'i diwygiwyd gan Gyfeirnod 42 o'r *Adendwm ARC*) a Phennod 4.2 o'r *Adendwm ARCh*.

Effeithiau	Mesurau Lliniaru
<p>Gwaredu dŵr gwastraff (ymhelaethwyd)</p> <p>(gweler Tabl 3 am Safleoedd y Rhwydwaith Safle Cenedlaethol yr effeithir arnynt o bosib)</p>	<p>Mae'r mesurau canlynol hyn yn ymhelaethu ar y rhai a gyflwynwyd, o dan y llwybr effaith penodol hwn, o fewn yr Adroddiad ARC (fel y'i diwygiwyd gan Gyfeirnod 42 yn yr Adendwm ARC).</p> <p>Ar lefel y prosiect, efallai y bydd angen i ddatblygwyr ariannu Asesiad o Effaith Datblygwr i nodi gwaith atgyfnerthu gofynnol, yn enwedig pan fydd capasiti cyfyngedig/dim capasiti yn y gwaith trin dŵr gwastraff³² sy'n gwasanaethu'r ardal. Os bernir bod gwelliannau yn angenrheidiol ac nad oes cynlluniau ar waith ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith yn rhaglen fuddsoddi'r Cynllun Rheoli Asedau sydd ar ddod, gall datblygwyr dalu am y seilwaith angenrheidiol eu hunain drwy ddarpariaethau meddiant gorfodol Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu drwy Gytundebau Rhwymedigaethau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Dylid nodi mai dim ond ar gyfer gwaith atgyfnerthu rhwydwaith carthffosiaeth y mae darpariaeth meddiant gorfodol Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn berthnasol, nid ar gyfer cynlluniau gwaith trin dŵr gwastraff. Gellir darparu cyllid i gyflawni gwaith atgyfnerthu mewn gwaith trin dŵr gwastraff drwy Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Cyfeirir at y broses safonol hon yn nhestun ategol <i>CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr</i> (paragraff 11.510). Yn ogystal, gellir amodi'r broses hon ochr yn ochr ag amseriad y datblygiad i gyd-fynd â chyflawni gwelliannau i'r gwaith trin dŵr gwastraff trwy Amodau Grampian.</p> <p>Ar lefel y prosiect, gellid cynnal asesiadau hydrolegol i benderfynu orau ar y potensial ar gyfer cysylltiadau hydrolegol rhwng y datblygiad arfaethedig a'r safleoedd dynodedig. Gwneir hyn i sicrhau bod llwybrau effaith posibl yn cael eu deall yn dda a sicrhau y gellir gosod mesurau lliniaru priodol yn y man iawn lle caiff y potensial ar gyfer effeithiau andwyol ei gadarnhau'n ddiweddarach.</p>

³² Fel arfer, penderfynir ar hyn drwy ymgynghori â Dŵr Cymru yn ystod y broses cyn ymgeisio a/neu'r broses o wneud cais cynllunio.

Effeithiau	Mesurau Lliniaru
	<p>Gallai mesurau eilaidd i atal llwyth ychwanegol³³ ar rwydweithiau carthffosydd budr gynnwys ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy ac atebion draenio dŵr wyneb eraill sy'n seiliedig ar natur mewn dyluniadau ar gyfer cynlluniau; yn ogystal ag ymgorffori mesurau diogelu ansawdd dŵr eraill y gellir eu sicrhau drwy Gynllun Rheoli'r Amgylchedd - Adeiladu.</p>
<p>Ardaloedd Chwilio Lleol Solar ag effaith arwyddocaol debygol ar dir porthiant sy'n gysylltiedig â Chrynodeiadau Adar AGA Elenydd-Mallaen</p>	<p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel i ddiwallu ein hanghenion ynni yn y dyfodol. Nid yw'r Ail CDLI diwygiedig Adneuo yn dyrannu prosiectau ynni solar (nac yn cynnwys manylion penodol sy'n gysylltiedig â nhw). Fodd bynnag, mae'n nodi Ardaloedd Chwilio Lleol sydd, mewn egwyddor, yn cynrychioli ardaloedd lle byddai'r math hwn o gais yn cael ei ganiatáu (yn amodol ar y meini prawf a nodir yn CCH1: <i>Ynni Adnewyddadwy o fewn Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol</i>).</p> <p>Fel yr adolygwyd gan Natural England³⁴, canfu Birdlife Europe³⁵ y gallai araeau ffotofoltäig solar beri risgiau arbennig o uchel i rywogaethau adar cynefin agored gyda'r potensial i aflonyddu gan arwain at lai o gyfleoedd i gael porthiant, yn ogystal â bridio a chlwydo. Amlygir y potensial ar gyfer effeithiau cronol nifer o ddatblygiadau solar mewn ardal benodol, a allai gael effaith negyddol ar rywogaethau ar lefel y boblogaeth. Mae tystiolaeth achlysurol yn awgrymu bod y perygl o wrthdrawiad a grëir gan baneli solar i adar yn isel (ond nid yn amhosibl). Yn ogystal, mae'n debygol bod y seilwaith cysylltiedig (e.e., llinellau pŵer) yn peri mwy o berygl o wrthdrawiad i adar na'r araeau paneli solar eu hunain.</p> <p>Er bod manylion penodol cynigion solar arfaethedig (a'r gwaith o gyflawni hynny) yn parhau i fod yn anhysbys, bydd angen i unrhyw gynnydd a gyflwynwyd yn yr Ardaloedd Chwilio Lleol ystyried osgoi aflonyddwch a/neu gadw nodweddion sy'n gysylltiedig yn weithredol â'r tir porthiant petai eu pwysigrwydd i Grynodiadau Adar yr AGA yn cael ei gadarnhau'n ddiweddarach. Gallai mesurau gynnwys lleihau ôl troed y cynigion er mwyn osgoi ardaloedd sydd â thir porthiant hysbys a/neu gysylltiadau ecolegol y bernir eu bod yn bwysig i hynny. Yn ogystal, dylid ystyried unrhyw gyfnodau porthiant hysbys ar gyfer adar a llwybrau lliniaru posibl. Efallai y bydd angen monitro ar y safle o ran aflonyddwch gweithredol ynghyd â monitro ymddygiad y nodweddion cymhwysol.</p> <p>Cynigir y byddai cynnwys y polisiau lliniaru³⁶ canlynol ar hyn o bryd yn ddigon i ddarparu'r hyder angenrheidiol na fydd dynodi Ardal Chwilio Leol yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd AGA Elenydd-Mallaen a'i hamcanion cadwraeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol; a</i> • <i>NE2: Bioamrywiaeth.</i> <p>Er nad yw'n amodol ar y casgliad hwn, argymhellir bod cyfeiriad penodol yn cael ei roi at <i>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</i> a <i>NE2: Bioamrywiaeth</i> o fewn y CCA yn y dyfodol a gynigir ar gyfer <i>CCH1: Ynni Adnewyddadwy o fewn</i></p>

³³ boed yn halogyddion cyfeintioli a/neu lygredig.

³⁴ [Evidence review of the impact of solar farms on birds, bats and general ecology 2016 - NEER012 \(naturalengland.org.uk\)](http://naturalengland.org.uk), 1st Edition, March 2017.

³⁵ [BirdLife Europe \(2011\). Meeting Europe's Renewable Energy Targets in Harmony with Nature. Adroddiad gan BirdLife International. Adroddiad ar gyfer y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar \(RSPB\).](http://www.birdlife.org)

³⁶ Cyfystyr â mesurau lliniaru sefydledig.

Effeithiau	Mesurau Lliniaru
	<p><i>Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol.</i> Yn ogystal, efallai y bydd y CCA hyn yn dymuno cynnwys atebion lliniaru technegol a allai, er na ddibynnir arnynt i osgoi effeithiau andwyol, fod o gymorth wrth integreiddio'r ystriaeth benodol hon yn y cam dylunio cysyniadol yn y broses gynllunio.</p> <p>Serch hynny, mae'n debygol y byddai angen ARC ar lefel prosiect i asesu'r cynnig penodol a graddfa unrhyw gais sy'n dod i law yn y dyfodol. Felly, ni fyddai caniatâd yn cael ei roi oni bai ei fod yn cyd-fynd â <i>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</i>. Os na all yr ARC lefel y prosiect ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd rhaid tynnu'r prosiect yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymidiadau a nodir o dan Erthygl 6(4) o'r Rheoliadau (h.y. dim atebion amgen, am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig) a sicrhau mesurau digolledu.</p>
<p>Yr effaith ar safleoedd clwydo ac ardal borthiant yr ystum pedol mwyaf a'r ystum pedol lleiaf oherwydd gweithrediadau mwynau wedi'u lleoli yn yr Ardal Chwilio, gydag effaith arwyddocaol debygol ar ACA Safleoedd Ystumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton</p>	<p>Mae'r <i>Ail CDLI diwygiedig Adneuo</i> yn ceisio darparu mewn modd cadarnhaol i waith adnoddau mwynau ddiwallu anghenion lleol a diogelu adnoddau rhag sterileiddio hefyd.</p> <p>Nid yw'n dyrannu prosiectau echdynnu arfaethedig (nac yn cynnwys manylion penodol sy'n gysylltiedig â nhw). Fodd bynnag, mae'n nodi un Ardal Chwilio ar gyfer tywod a graean sydd, mewn egwyddor, yn cynrychioli lle byddai'r math hwn o gais yn cael ei gefnogi i fodloni gofynion is-ranbarthol ehangach (yn amodol ar y meini prawf a nodir yn <i>SP18: Adnoddau Mwynau</i>).</p> <p>Er ei bod y tu allan i 'synnwyr y fawd' o 10km a osodwyd gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol³⁷, mae'r Ardal Chwilio ymhell y tu hwnt i'r 'parth cynhaliadaeth craidd' a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystumod³⁸ (3km ar gyfer <i>R. ferrumequinum</i>, a 2km ar gyfer <i>R. hipposideros</i>). Canfu ymchwil ar effeithiau cloddio brig ar weithgaredd ystumod y gallai colli'r cynefin posibl hwnnw o fewn ffin safle'r mwynglawdd leihau symudiad ystumod oherwydd effeithiau rhwystr. Yn ystod y cam prosiect, dylid cynnal asesiadau i nodi'r potensial ar gyfer unrhyw aflonyddwch o ganlyniad i beiriannau, a dirgryniad yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu (e.e. sŵn, golau). Byddai angen cynnal arolwg ecolegol i asesu tebygolrwydd y rhain, a nodi a oes safleoedd clwydo a/neu ardal borthiant addas yno (ynghyd ag asesiad ynghylch a yw'r rhain yn cefnogi metablogaethau ACA). Gellir defnyddio mesurau fel trefn oleuo a chlustogfeydd ecolegol yn ôl yr angen.</p> <p>Cynigir y byddai cynnwys y polisïau lliniaru canlynol ar hyn o bryd yn ddigon i ddarparu'r hyder angenrheidiol na fydd dynodi'r Ardal Chwilio yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Safleoedd Ystumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton a'i hamcanion cadwraeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol;</i> • <i>NE2: Bioamrywiaeth;</i> • <i>MR1: Cynigion Mwynau; a</i> • <i>PSD12: Llygredd Golau ac Aer.</i> <p>Serch hynny, mae'n debygol y byddai angen ARC ar lefel prosiect i asesu'r cynnig penodol a graddfa unrhyw gais sy'n dod i law yn y dyfodol. Felly, ni fyddai</p>

³⁷ [FFDC Llywodraeth Cymru. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Ein Tybiaethau a Ffordd o Weithio. Awst 2017](#)

³⁸ [Core Sustainance Zones Explained 04.02.16.pdf \(bats.org.uk\)](#)

Effeithiau	Mesurau Lliniaru
	caniatâd yn cael ei roi oni bai ei fod yn cyd-fynd â <i>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol a MR1: Cynigion Mwynau</i> ³⁹ .
<p>Aflonyddwch i gynefin gorffwyso/bridio gydag effaith arwyddocaol debygol ar Grynodiadau Adar AGA Cilfach Tywyn.</p>	<p>Er bod manylion penodol cynigion datblygu arfaethedig (a'r gwaith o gyflawni hynny) yn parhau i fod yn anhysbys, bydd angen i unrhyw gynig a gyflwynir o ran Dyraniadau'r CDLI diwygiedig a nodwyd ystyried osgoi aflonyddwch a/neu gadw nodweddion sy'n gysylltiedig yn weithredol â'r cynefin gorffwyso/bridio petai eu pwysigrwydd i Grynodiadau Adar yr AGA yn cael ei gadarnhau'n ddiweddarach.</p> <p>Pan fydd effeithiau aflonyddwch/dadleoli posibl wedi eu nodi, gellid cynnwys mesurau megis clustogfeydd, amseru gwaith i osgoi cyfnodau sensitif (megis y tymor bridio), lliniaru sŵn, sgrinio gweledol (naturiol ac artiffisial), addasiadau i ddyluniad goleuadau i leihau gorlifiad golau a lleihau mynediad at gynefinoedd sensitif mewn dyluniadau ar gyfer cynlluniau i osgoi effeithiau o'r fath. Dylai cynllun monitro ar y safle ystyried aflonyddwch posibl o ran sŵn, golau ac ati, ynghyd â monitro ymddygiad y nodwedd gymhwysol.</p> <p>Dylid cynnwys cysylltiadau cynefinoedd a phlannu cyflenwol, yn ogystal ag integreiddio â'r Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol, ymhellach mewn dyluniadau ar gyfer cynlluniau i liniaru effeithiau andwyol posibl.</p> <p>Mae'n debygol y byddai angen ARC ar lefel prosiect ar gyfer y dyraniadau a nodwyd i asesu'r cynnig penodol a graddfa unrhyw gais sy'n dod i law yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu bod modd nodi'r effeithiau yn fwy manwl, ac yn sicrhau na chaniateir unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain at effeithiau andwyol.</p> <p>Cynigir y byddai cynnwys y polisïau lliniaru canlynol ar hyn o bryd yn ddigon i ddarparu'r hyder angenrheidiol na fydd y dyraniadau a nodwyd yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd AGA Cilfach Tywyn a'i hamcanion cadwraeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol;</i> • <i>NE2: Bioamrywiaeth; a</i> • <i>PSD12: Llygredd Golau ac Aer.</i>

³⁹Amod f - "Nid oes unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol ar safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur a nodweddion ecolegol..."

3.2 Prawf Cyfanrwydd

3.2.1 Mae'r adran hon yn ymwneud yn benodol â'r effeithiau arwyddocaol tebygol a'r mesurau hynny yn Nhabl 5, yn ychwanegol at yr asesiad priodol ar gyfer gwaredu dŵr gwastraff (a gynigiwyd yn Nhabl 18 yr Adroddiad ARC ac a ategir yma gan baragraff 3.0.2 a Thabl 5). Ar gyfer yr effeithiau arwyddocaol tebygol hynny a gafodd sylw yn yr ymdrech ARC flaenorol, cyfeiriwch at Adran 4.3 yr *Adroddiad ARC* a'r *Adendwm ARC*, yn y drefn honno.

Ardaloedd Chwilio Lleol Solar: Crynodiadau Adar AGA Elenydd-Mallaen

3.2.2 Byddai cynigion solar mewn Ardaloedd Chwilio Lleol a allai arwain at golli tir porthiant ar gyfer crynodiadau adar yr AGA angen ARC ar lefel prosiect er mwyn bodloni'r mesurau lliniaru sefydledig yn y CDLI diwygiedig. Gellid rhoi nifer o fesurau lliniaru ar waith ar lefel y prosiect pan ellir nodi'r effeithiau'n fwy manwl. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyflawni hynny, gellir dibynnu ar *SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol* i osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd AGA Cilfach Tywyn o dan y llwybr effaith hwn.

Ardal Chwilio: ACA Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton

3.2.3 Credir bod ymgorffori polisïau diogelu yn y CDLI diwygiedig yn ddigonol i roi'r sicrwydd angenrheidiol na fydd dynodi'r Ardal Chwilio yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton. Bydd angen cynigion mwynau yn y dyfodol o dan *MR1: Cynigion Mwynau* i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur.

Dyraniadau'r CDLI diwygiedig: Crynodiadau Adar AGA Cilfach Tywyn

3.2.4 Byddai pob un o ddyraniadau'r CDLI diwygiedig a allai arwain at golli cynefin ar gyfer crynodiadau adar yr AGA angen ARC ar lefel prosiect er mwyn bodloni'r mesurau lliniaru sefydledig yn y CDLI diwygiedig. Nodwyd nifer o fesurau lliniaru sydd ar gael y gellid eu rhoi ar waith ar lefel y prosiect pan ellir nodi'r effeithiau'n fwy manwl. Yn ogystal, cydnabyddir bod gan y rhain yr hyblygrwydd angenrheidiol i alluogi osgoi effeithiau andwyol. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyflawni hynny, gellir dibynnu ar *SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol* i osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd AGA Elenydd-Mallaen o dan y llwybr effaith hwn.

Dyraniadau'r CDLI diwygiedig: Gwaredu Dŵr Gwastraff

3.2.5 Dylid darllen yr is-adran hon ar y cyd â pharagraff 4.3.1, 4.3.2, a 4.3.3 o'r *Adroddiad ARC*.

3.2.6 Deellir y bydd pob un o ddyraniadau'r CDLI diwygiedig yn debygol o fod angen systemau draenio cynaliadwy ar gyfer dŵr wyneb. Er na ellir dibynnu ar systemau draenio cynaliadwy, sy'n ofynnol yn benodol o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, i osgoi effeithiau andwyol, dylid nodi y gallai'r ymyriadau hyn leddfu'r risg sy'n gysylltiedig â chynnydd yn y dŵr sy'n mynd i mewn i systemau carthffosiaeth gyfun.

Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd aer	G	Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd.	Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau	I	Gallai agoswydd y safle at gwrs dŵr beri risgiau i ddyfrgwn a allai fod yn yr ardal.	Sgriniwyd i Mewn

Cynigion Eraill y CDLI diwygiedig

Cyf. y Cynnig		LSA/A	Enw	I'r gogledd-ddwyrain o Farmers (Ardal Chwilio Leol)	Ardal	3.31 km ²
Sylwadau		Lleolir yr Ardal Chwilio Leol arfaethedig tua 1.2km o ffin agosaf AGA Elenydd-Mallean. Capasiti gosodedig posibl 72.9 (MW).				
Sgrinio Cyffredinol	Categori	Gallai'r cynnig gael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol				
	Deiliant	Sgrinio i Mewn				
Canlyniadau Sgrinio Manwl						
Effaith Bosibl		Categori Sgrinio	Cyfiawnhad a Chasgliad			Deiliant Sgrinio
Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar yr amgylchedd morol		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar yr arfordir		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar rywogaethau symudol		I	Mae'r cynnig o fewn 5km i AGA Elenydd-Mallean ac, felly, gallai beri risg i'r cudyll bach, y barcud coch a'r hebog tramor.			Sgriniwyd i Mewn
Effeithiau hamdden		H	Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosforws		G	Mae'r cynnig o fewn Dalgylch ACA Afon Tywi sy'n Sensitif i Ffosforws, ond nid yw'n cael unrhyw effaith ddirnadwy.			Sgriniwyd Allan

Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd aer	G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.	Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau	G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.	Sgriniwyd Allan

Cyf. y Cynnig		LSA/B	Enw	Mynydd Pencarreg (Ardal Chwilio Leol)	Ardal	0.9 km ²
Sylwadau		Lleolir yr Ardal Chwilio Leol arfaethedig tua 11.5km o ffin agosaf AGA Elenydd-Mallean. Capasiti gosodedig posibl 23.8 (MW).				
Sgrinio Cyffredinol	Categori	Gallai'r cynnig gael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol				
	Deiliant	Sgrinio i Mewn				
Canlyniadau Sgrinio Manwl						
Effaith Bosibl		Categori Sgrinio	Cyfiawnhad a Chasgliad			Deiliant Sgrinio
Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar yr amgylchedd morol		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar yr arfordir		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar rywogaethau symudol		I	Mae'r cynnig o fewn 18km i AGA Elenydd-Mallean ac, felly, gallai beri risg i'r hebog tramor.			Sgriniwyd i Mewn
Effeithiau hamdden		H	Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffeirir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosforws		G	Mae'r cynnig yn pontio Dalgylch ACA Afon Teifi ac Afon Tywi sy'n Sensitif i Ffosforws, ond nid yw'n cael unrhyw effaith ddirnadwy.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd aer		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan

Cyf. y Cynnig		LSA/C	Enw	I'r gorllewin o Dalylychau (Ardal Chwilio Leol)	Ardal	0.99 km ²
Sylwadau		Lleolir yr Ardal Chwilio Leol arfaethedig tua 12.5km o ffin agosaf AGA Elenydd-Malleen. Ardal Chwilio Leol. Capasiti gosodedig posibl 30.3 (MW).				
Sgrinio Cyffredinol	Categori	Gallai'r cynnig gael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol				
	Deiliant	Sgrinio i Mewn				
Canlyniadau Sgrinio Manwl						
Effaith Bosibl		Categori Sgrinio	Cyfiawnhad a Chasgliad			Deiliant Sgrinio
Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar yr amgylchedd morol		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar yr arfordir		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar rywogaethau symudol		I	Mae'r cynnig o fewn 18km i AGA Elenydd-Malleen ac, felly, gallai beri risg i'r hebog tramor. Gallai agosrwydd y cynnig at gwrs dŵr beri risgiau i ddyfrgwn a allai fod yn yr ardal (wedi'i ategu gan gofnodion cyfagos o strwythurau a safleoedd bridio cysylltiedig).			Sgriniwyd i Mewn
Effeithiau hamdden		H	Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosforws		G	Mae'r cynnig o fewn Dalgylch ACA Afon Tywi sy'n Sensitif i Ffosforws, ond nid yw'n cael unrhyw effaith ddirnadwy.			Sgriniwyd Allan

Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd aer	G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.	Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau	G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.	Sgriniwyd Allan

Cyf. y Cynnig	Ardal Chwilio – Tywod a Graean	Enw	Heol Clarbston i Lanfalteg	Ardal	803.75 ha
Sylwadau	Lleolir y cynnig tua 12km o ffin agosaf ACA Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton. Yn agos iawn at Afon Rhydybennau, Afon Daulan ac Afon Taf, sydd wedi'u cysylltu ag ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.				
Sgrinio Cyffredinol	Categori	Gallai'r cynnig gael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol			
	Deiliant	Sgrinio i Mewn			
Canlyniadau Sgrinio Manwl					
Effaith Bosibl		Categori Sgrinio	Cyfiawnhad a Chasgliad		Deiliant Sgrinio
Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol		I	Mae'r safle yn agos at gwrs dŵr a allai arwain at effeithiau posibl ar ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd o ganlyniad i ddŵr ffo llygredig, yn enwedig yn ystod y cyfod adeiladu. Serch hynny, credir bod y rhain yn annhebygol o ystyried y sefyllfa a graddfa'r safle.		Sgriniwyd i Mewn
Effeithiau ar yr amgylchedd morol		I	Fel yr uchod.		Sgriniwyd i Mewn
Effeithiau ar yr arfordir		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.		Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar rywogaethau symudol		I	Mae'r cynnig o fewn 16km i ACA Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton.		Sgriniwyd i Mewn
Effeithiau hamdden		H	Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb.		Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.		Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.		Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosforws		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.		Sgriniwyd Allan

Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd aer	G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.	Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau	G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.	Sgriniwyd Allan

Cyf. y Cynnig		TRA3a	Enw	Estyniad Rheilffordd Gwili (tua'r gogledd i Lanpumsaint)	Hyd	6.43km (tua 4 milltir)
Sylwadau		Mae'r cynnig tua 30m i ffwrdd o gofnod hanesyddol o strwythur bridio i ddyfrgwn a allai gefnogi poblogaethau ACA Afon Tywi. Er eglurder, mae gorsaf newydd yng Nglangwili (TRA3/B) eisoes wedi'i hadeiladu (gweler W/19935). Hyd yw'r ffigwr cyfunol ar gyfer y cynigion unigol – 5.29km a 1.14km.				
Sgrinio Cyffredinol	Categori	Gallai'r cynnig gael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol				
	Deiliant	Sgrinio i Mewn				
Canlyniadau Sgrinio Manwl						
Effaith Bosibl		Categori Sgrinio	Cyfiawnhad a Chasgliad			Deiliant Sgrinio
Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol		I	Mae'r safle yn agos at gwrs dŵr a allai arwain at effeithiau posibl ar Afon Gwili (is-afon ACA Afon Tywi) o ganlyniad i ddŵr ffo llygredig, yn enwedig yn ystod y cyfod adeiladu. Serch hynny, credir bod y rhain yn annhebygol o ystyried y sefyllfa a graddfa'r safle.			Sgriniwyd i Mewn
Effeithiau ar yr amgylchedd morol		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar yr arfordir		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau ar rywogaethau symudol		I	Mae'r safle yn agos at gynefin addas i ddyfrgwn ac felly gallai datblygiad gael effeithiau posibl ar ddyfrgwn yn sgil golau, sŵn ac aflonyddwch. Mae hyn wedi'i ategu gan gofnodion cyfagos o strwythurau a safleoedd bridio cysylltiedig.			Sgriniwyd i Mewn
Effeithiau hamdden		H	Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosforws		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd aer		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan
Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau		G	Cynnig na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle.			Sgriniwyd Allan

Atodiad C. Aseiad Ffosffadau

DS: Mae'r Atodiad canlynol yn disodli'r fersiwn ddrafft flaenorol yn yr *Adendwm ARC*.

Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd i lywio'r aseiad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin

Atodiad Asesu Ffosffadau i Adendwm Aseiad Rheoliadau
Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

IONAWR 2024

Cysylltiadau

MARTINA GIRVAN
Uwch-gyfarwyddwr Technegol

e martina.girvan@arcadis.com

Arcadis
80 Fenchurch Street
Llundain
EC3M 4BY

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i lywio'r asesiad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin

Atodiad Asesu Ffosffadau i Adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Awduron Charlotte Golding; Elliot Blount-Powell

Gwiriwr Jon Lloyd

Adolygydd Renuka Gunasekara

Cymeradwywr Martina Girvan

Dyddiad IONAWR 2024

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Gwiriwr	Adolygydd	Cymeradwywr	Newidiadau
F1	22/01/2024	CG; EBP	JL	RG	MG	Ddim yn berthnasol

Mae'r adroddiad hwn, dyddiedig 22 Ionawr 2024, wedi ei baratoi ar gyfer Cyngor Sir Gaerfyrddin (y "Cleient") yn unol â'r telerau ac amodau penodi dyddiedig 19 Mai 2022 (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac ("Arcadis") at y dibenion a bennir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff unrhyw berson(au) arall ddefnyddio na dibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd o'r fath neu ddibyniaeth arno gan unrhyw drydydd parti arall.

Cynnwys

1	Rhagarweiniad	1
1.1	Cefndir	1
1.2	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Blaenorol y CDLI.....	1
1.3	Ymarfer Cydymffurfiaeth Ffosfforws CNC	6
1.4	Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.....	6
1.5	Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion Interim a Therfynol.....	7
2	Dull yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	8
2.1	Rhagarweiniad	8
2.2	Y Camau mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	8
2.2.1	Camau yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	8
2.2.2	Effeithiau Cyfunol	9
2.2.3	Diffiniad o Effeithiau Arwyddocaol	10
2.2.4	Agwedd at Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.....	11
2.3	Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol	11
2.3.1	Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol.....	11
2.3.2	Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol ar gyfer Polisi	12
2.3.3	Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol ar gyfer Dyrannu Safleoedd.....	12
3	Ansawdd Dŵr o ran Ffosfforws.....	13
3.1	Methu â Chydymffurfio â Thargedau Ffosffad Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	13
3.2	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Allai Gael eu Heffeithio	14
3.2.1	Afon Teifi	14
3.2.2	Afon Tywi.....	15
3.3	Ymgynghori	16
3.3.1	Cyngor CNC ar gyfer yr Adolygiad o CDLIau ¹³	16
3.3.2	Cyngor Penodol CNC ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Ffosfforws	16
3.3.3	Gofynion CNC ar gyfer terfyn wrth gefn ar Ffosffad	17
3.3.4	Dŵr Cymru - Caniatáu Ffosffad	17
3.3.5	Ymgynghoriad CNC ar y dull Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer ACA Tywi nad yw'n methu 19	
4	Sgrinio Ffosffadau ar gyfer Ansawdd Dŵr	20
4.1	Sgrinio Polisiau.....	20
4.2	Sgrinio Dyraniadau Safle	20
4.2.1	Cyllidebu Maetholion.....	20
4.2.2	Cam 1 - Canlyniadau Sgrinio Dyraniadau Safle y CDLI diwygiedig	21
4.2.3	Cam 2 - Canlyniadau Sgrinio Dyraniadau Safle y CDLI diwygiedig	24

4.2.4	Cyfrifiadau cyllideb faetholion CDLI diwygiedig Sir Gaerfyrddin.....	26
4.3	Sgrinio effeithiau cyfunol.....	27
4.3.1	Ffynonellau ffosfforws	27
4.3.2	Dyraniadau Safle a Statws CDLlau cyfagos.....	29
4.3.3	Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion	30
4.3.4	Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro	30
4.3.5	Cyllideb Faetholion gyfunol.....	31
4.4	Casgliad Cam Sgrinio 1 yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	32
4.4.1	Casgliad Sgrinio ar gyfer y CDLI diwygiedig	32
4.4.2	Casgliad Sgrinio ar gyfer Effeithiau Cyfunol	32
5	Asesiad Priodol.....	33
5.1	Dull mesurau osgoi y CDLI diwygiedig	33
5.1.1	Trosolwg	33
5.1.2	Cyfraith Achosion	33
5.1.3	Newidiadau polisi a mesurau lliniaru posibl.....	35
5.2	Adolygu Polisi CCH3 i CCH4	35
5.3	Mesurau Lliniaru ar ffurf Osgoi ar gyfer y CDLI diwygiedig.....	36
5.3.1	Dull y mesurau lliniaru ar ffurf osgoi	36
5.3.2	Cefnogaeth CNC ar gyfer Mesurau Lliniaru ar ffurf Osgoi	36
5.3.3	Cefnogaeth Dŵr Cymru ar gyfer Mesurau Lliniaru ar ffurf Osgoi.....	37
5.3.4	Mesurau Lliniaru Llywodraeth Cymru	37
5.4	Lliniaru ar ffurf Osgoi – Mesurau Categori 1	38
5.4.1	Mesurau Categori 1 Afon Teifi.....	38
5.4.2	Datblygu Afon Teifi yn raddol.....	40
5.4.3	Mesurau Categori 1 Afon Tywi	40
5.5	Lliniaru ar ffurf Osgoi ar gyfer CDLlau eraill – Effeithiau Cyfunol.....	43
5.5.1	Statws CDLI Ceredigion a Sir Benfro	43
5.5.2	Ceredigion a Sir Benfro - Datblygu Mesurau Lliniaru ar ffurf Osgoi	43
5.5.3	Datganiad o Dir Cyffredin	48
5.6	Mesurau Lliniaru ar ffurf Osgoi ar gyfer Ffosffadau o Ffynonellau Eraill – Mesurau Categori 2 48	
5.6.1	Mesurau Lliniaru ar ffurf Osgoi – Mesurau Categori 2	48
5.6.2	Strategaeth Rheoli Maetholion Sir Gaerfyrddin.....	52
6	Gweithredu a Chyflawni	53
6.1	Rôl Byrddau Rheoli Maetholion a Chynlluniau Rheoli Maetholion	53
6.2	Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr	54
6.2.1	Beth yw Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr?	54

6.2.2	Rolau a Chyfrifoldebau'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr	55
6.2.3	Sbardunau Polisi'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr	55
6.2.4	Rhwymedigaethau Cynllunio Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr	56
6.2.5	Monitro'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr a'i Gyflwyno'n Raddol	56
6.1	Amodau Grampian.....	57
6.2	Ffynonellau Ariannu Ychwanegol.....	57
6.2.1	Llywodraeth Cymru	57
6.2.2	Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.....	57
6.2.3	Dŵr Cymru.....	58
6.2.4	Ofwat PR24	58
6.3	Rheoli a Monitro.....	59
6.4	Llwybr i gyrraedd targedau.....	59
7	Casgliad Cyffredinol.....	61
	Atodiad A.....	65
	Trosolwg o gyfleoedd ACA Afon Teifi ac ACA Afon Tywi	65
	Atodiad B.....	64
	Matrics Ymyriadau	64

Tablau

Tabl 1 - Cyfiawnhad sgrinio ACA gwreiddiol y CDLI	3
Tabl 2 - Amserlen ddangosol ar gyfer cyfnodau allweddol y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig	7
Tabl 3 - Crynodeb o Gynllun Lleihau Ffosforws Dŵr Cymru gan Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff ar gyfer CDLI diwygiedig Sir Gaerfyrddin.....	18
Tabl – Dyraniadau Safle4 Cam 1 y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sydd wedi eu tynnu / eu hychwanegu ar gyfer ACA Afon Teifi, fel y darperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.....	23
Tabl 5- Dyraniadau Safle Cam 1 y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sydd wedi eu dileu / eu hychwanegu ar gyfer ACA Afon Tywi, fel y darperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin	24
Tabl 6 - Safleoedd sydd wedi'u sgrinio i mewn ar gyfer y Dyraniadau Safle terfynol fel y'u darperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin	26
Tabl 7 - Crynodeb o'r gostyngiad mewn unedau a chyllidebau maetholion yn seiliedig ar y rhestr ddiwygiedig o Ddyraniadau Safle ar gyfer terfyn wrth gefn ar gyfanswm ffosffadau (TP) o 5mg/l	27
Tabl 8 - Crynodeb o'r gyllideb faetholion gronrus	31
Tabl 9 - Polisiâu wedi'u sgrinio i mewn i'w hystyried ymhellach.....	35
Tabl 10 - Dŵr Cymru Cydweithrediad ar Gynlluniau Lleihau Ffosforws (prif esboniwr)	37
Tabl 11 - gofynion lliniaru'r CDLI diwygiedig ar gyfer mesurau Categori 1 ar gyfer Afon Teifi	39
Tabl 12 - cyfleoedd gwlyptir a adeiladwyd yn nalgylch Afon Tywi.....	40
Tabl 13 - Amserlen yr unedau tai rhagamcanol o'r CDLI diwygiedig i'w hadeiladu'n flynyddol ar Afon Teifi	42
<i>Tabl 14 - Cyllidebau Maetholion Cyfunol vs. Lliniaru Arfaethedig o fewn dalgylch.....</i>	<i>46</i>
Tabl 15 - Cerrig Milltir Dangosol	59
Tabl 16 - Crynodeb o Fesurau Categori 1 i gefnogi CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin	63
Tabl 17 - Crynodeb o fesurau Categori 2 sydd ar gael i gefnogi CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin	63
Tabl B 18 - Matrics Mesurau Ymyrryd	65

Delweddau

Delwedd 1- Map o gydymffurfiaeth ffosforws ar gyfer ACA Afon Teifi.	13
Delwedd 2 - Map o gydymffurfiaeth ffosforws ar gyfer ACA Afon Tywi.....	14
Delwedd 3 - Diagram yn dangos yr hafaliad cyffredinol a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r gyllideb faetholion	21
Delwedd 4 - Dosraniad ffosforws yn ôl ffynhonnell ar gyfer Afon Teifi ²⁶	28

1 Rhagarweiniad

1.1 Cefndir

Mae'r Atodiad Asesu Ffosffadau hwn i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i baratoi gan Arcadis Consulting (UK) Limited (Arcadis) ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) fel rhan o'i adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2018–2033 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y 'CDLI diwygiedig'). Mae'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn gynllun defnydd tir sy'n amlinellu lleoliad a nifer y datblygiadau yn Sir Gaerfyrddin am gyfnod o 15 mlynedd rhwng 2018 a 2033, a bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol. Mae'n ofynnol i'r Atodiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn, ochr yn ochr ag Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033 fynd i'r afael â pholisïau newydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o ran safonau ffosfforws a chyngor cynllunio cysylltiedig. Mae materion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr o ran lleihau ffosffadau wedi cael sylw ar wahân i Gyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol eraill oherwydd eu harwyddocâd posibl. Rhoddir sylw i agweddau y tu hwnt i leihau ffosffadau yn Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033.

Ym mis Ionawr 2021, yn dilyn adolygiad o safonau ansawdd dŵr llymach a osodwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur¹, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) dystiolaeth a² ddangosodd fod dros 60% o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yn methu yn erbyn y safonau ffosfforws diwygiedig. Gall ffosfforws gormodol achosi mwy o dwf o algâu a phlanhigion dyfrol mawr, a all arwain at lefelau is o ocsigen toddedig, sef proses o'r enw ewtroffeiddio. Gall lefelau uchel o ffosfforws hefyd arwain at ordyfiant algâu sy'n cynhyrchu tocsinau algaid a all fod yn niweidiol i iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae'r broses hon hefyd yn arwain at ostyngiad cyffredinol mewn bioamrywiaeth. O ganlyniad ³ i'r methiannau hyn, cyhoeddodd CNC gyngor cynllunio i osgoi dirywiad pellach. Felly, mae angen dangos capasiti amgylcheddol lle gall datblygiadau newydd effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol sy'n sensitif i ffosfforws yn unol â Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'u diwygiwyd (Rheoliadau Cynefinoedd). Felly, mae'r 'cyngor' hwn gan CNC yn ymwneud â phob ACA afonol y mae ei dalgylch draenio yn ymestyn i Sir Gaerfyrddin, sef Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Cleddau, Afon Gwy ac Afon Wysg.

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ystyried y cyngor hwn a roddir gan CNC wrth wneud penderfyniadau cynllunio ar ddatblygiadau unigol a Chynlluniau Datblygu Lleol. O ganlyniad, mae'r cyngor newydd hwn gan CNC mewn perthynas â ffosfforws o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol Cymru i bob pwrpas wedi atal datblygiad Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin (CDLI diwygiedig) i'r cam mabwysiadu.

O ganlyniad, mae'r Atodiad hwn yn ailsgrinio'r CDLI diwygiedig o ran y potensial i'w Ddyraniadau Safle effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac yn nodi'r mesurau lliniaru arfaethedig ar ffurf osgoi i atal unrhyw fewnbwn ychwanegol i'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae hyn hefyd yn ystyried effeithiau cyfunol posibl CDLlau siroedd cyfagos.

1.2 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Blaenorol y CDLI

¹ Joint Nature Conservation Committee (2016) [Common Standards Monitoring Guidance for Rivers Version September 2016 Updated from \(January 2014\)](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

² Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) [Targedau ffosffadau llymach yn newid ein barn am gyflwr afonydd Cymru](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

³ Cyfoeth Naturiol Cymru (2023) [Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws.](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

Ar gyfer Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd gwreiddiol y CDLI a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2019,⁴ cwmpaswyd saith ACA i ddechrau er mwyn sgrinio ansawdd dŵr ymhellach, a gyflwynwyd yn Tabl 1.

⁴ Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLI) (2019) [Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDLI Adneuo](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

Tabl 1 - Cyfiawnhad sgrinio ACA gwreiddiol y CDLI

ACA	Cyfiawnhad	Ffynhonnell
Afon Teifi	<p>Mae fflora a ffawna amrywiol mewn perygl oherwydd llwythi ffosffad uchel, fel yr eog: “Ymhlith llygryddion gwenwynig, mae dip defaid ac elifiant silwair yn fygythiad arbennig i anifeiliaid dyfrol yn yr ardal hon, sy’n wledig yn bennaf. Mae halogiad gan ddipiau defaid pyrethroid synthetig, sy’n hynod wenwynig i infertebratau dyfrol, yn cael effaith ddinistriol ar boblogaethau infertebratau a gall amddifadu poblogaethau pysgod o fwyd dros ddarnau mawr o afonydd. Gall yr effeithiau hyn godi os caniateir i ddefaid sydd wedi’u dipio’n ddiweddar fynd i mewn i nant neu ardal llawr caled sy’n draenio i gwrs dŵr. Gall llygredd o ddipiau defaid organoffosffad ac elifiant silwair fod yn niweidiol iawn yn lleol. Gall llygredd o slyri a chemegion amaethyddol a diwydiannol eraill, gan gynnwys tanwyddau, ladd pob math o fywyd dyfrol.”</p> <p>“Mae gwaith monitro ansawdd dŵr CNC (data 2004, a ddyfynnir yn Burgess ac eraill) wedi dynodi lefelau ffosffad uchel yn Llyn Teifi a Llyn Egnant, ond dim ond cynnydd ymylol yn Llyn Hir. Gall lefelau ffosffad uchel iawn gael effaith negyddol ar y nodwedd <i>Littorelletea</i>, a chyfrannu at absenoldeb rhai rhywogaethau macroffyt, yn enwedig y rhai sy’n sensitif i orfaethu; er enghraifft, efallai bod hyn wedi cyfrannu at absenoldeb bidoglys y dŵr o Lyn Egnant (Burgess ac eraill). Mae’r rhesymau posibl am y lefelau uchel hyn o faethynnau yn cynnwys gorfaethu o dail da byw (defaid) a gwaddod o erydiad pridd, wedi’i gyfryngu gan stoc, sy’n cael ei waethygu gan ddefaid yn sathru ar y glannau.”</p>	Cynllun Rheoli Craidd, gan gynnwys amcanion cadwraeth, ar gyfer ACA Afon Teifi ⁵
Afon Tywi	<p>“Mae gollyngiadau yn rhoi pwysau ar ansawdd dŵr yn ystod sychder gan fod llif afon is na’r arfer yn golygu bod llai o ddŵr ar gael i wanedu gollyngiadau fel elifiant terfynol o weithfeydd trin dŵr gwastraff. Gallai opsiwn sychder waethygu’r llifoedd isel hyn a chyfrannu at leihad yn ansawdd y dŵr, gydag effeithiau andwyol posibl ar nodweddion sensitif yn y rhan yr effeithir arni. Mae gollyngiadau sy’n effeithio ar y cydbwysedd ocsigen a chrynodiad amonia (i gynnal pysgod a macroinfertebratau, lle mae’r rhain yn cael eu nodi fel nodweddion sensitif) a chrynodiad ffosfforws adweithiol hydawdd (i gynnal macroffyttau ac algâu, lle nodir y rhain fel nodweddion sensitif) yn yr afon wedi cael eu hadolygu.”</p>	Asesiad Amgylcheddol Dŵr Cymru o Orchymyn Sychder Afon Tywi (8201-3) ⁶
Afonydd Cleddau	<p>“Ymhlith llygryddion gwenwynig, mae dip defaid ac elifiant silwair yn fygythiad arbennig i anifeiliaid dyfrol yn yr ardal hon, sy’n wledig yn bennaf, yn enwedig ym mhrif ddyfroedd Afon Cleddau Ddu. Mae halogiad gan ddipiau defaid pyrethroid synthetig, sy’n hynod wenwynig i infertebratau dyfrol, yn cael effaith ddinistriol ar boblogaethau cimychiaid yr afon a gall amddifadu poblogaethau pysgod o fwyd</p>	Cynllun Rheoli Craidd, gan gynnwys amcanion cadwraeth, ar gyfer ACA

⁵ CNC (2022) [Cynllun Rheoli Craidd, gan gynnwys amcanion cadwraeth, ar gyfer ACA Afon Teifi](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

⁶Dŵr Cymru (2019) [Asesiad Amgylcheddol o Orchymyn Sychder Afon Tywi \(8201-3\) Terfynol](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

ACA	Cyfiawnhad	Ffynhonnell
	<p>dros ddarnau mawr o afonydd. Gall yr effeithiau hyn godi os caniateir i ddefaid sydd wedi'u dipio'n ddiweddar fynd i mewn i nant neu ardal llawr caled sy'n draenio i gwrs dŵr. Gall llygredd o ddipiau defaid organoffosffad ac elifiant silwair fod yn niweidiol iawn yn lleol.”</p> <p>“Gall llygredd o slyri a chemegion amaethyddol a diwydiannol eraill, gan gynnwys tanwyddau, ladd pob math o fywyd dyfrol. Dylid lleoli pob man storio dip defaid a silwair, tanwydd a chemegion i ffwrdd o gyrsiau dŵr neu eu gosod mewn bwnd i atal gollyngiadau.”</p> <p>“Gall ffynonellau amaethyddol fod yn un ffynhonnell ar gyfer lefelau uwch o nitradau a ffosffadau o fewn yr afonydd, a gallant hefyd gynyddu lefelau gwaddod o fewn y system afonydd. Gall plaladdwyr a chwynladdwyr sy'n trwytholchi i'r afon achosi problemau llygredd hefyd.”</p>	Afonydd Cleddau (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) ⁷
Bae Ceredigion	<p>“Mae'r gwaith monitro morol cyfyngedig a wnaed ym Mae Ceredigion wedi canfod bod ansawdd y dŵr yn dda ond mae dadansoddiad gwaddod wedi canfod lefelau sylweddol o halogion mewn sawl lleoliad yn y bae.”</p> <p>“Mae'r rhan fwyaf o'r gollyngiadau a ganiatawyd i'r ACA yn elifion carthion domestig gydag ychydig yn dod o ffynhonnell ddiwydiannol. Fodd bynnag, mae dŵr ffo ac elifiant gwasgaredig o dir amaethyddol ac effaith barhaus gweithgarwch mwynloddio hanesyddol (metelau) yn darparu'r prif fewnbynau tua'r tir yng nghanol Bae Ceredigion. Nid yw graddfa ac arwyddocâd mewnbwn halogion o'r tu allan i'r safle, trwy symudiad dyfroedd morol a gwaddodion neu symudiad organebau morol (e.e. ysglyfaethau dolffiniaid), yn hysbys.”</p>	Safle Morol Ewropeaidd Bae Ceredigion: Cyngor a ddarparwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyflawni Rheoliad 33 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 1994 ⁸
Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd	<p>“Mae'r lefelau nitrogen a ffosforws sydd ar gael yn fwy na'r maen prawf sy'n dynodi gorfaethiad yn yr aber uchaf, sydd wedi'i gysylltu â niferoedd uchel o gelloedd algaid a chryndodiadau cloroffyl a. Yn ogystal, bu mewnbynau metelau trwm o ddiwydiant a phyllau glo segur yn yr aberoedd. Mae mewnbynau gwaddodion mân o afonydd i bob un o'r aberoedd yn fach o'u cymharu â ffynonellau eraill o ddeunydd (mewnfudiad o'r môr). Adlewyrchir hyn yng nghymeriad yr aberoedd a'r cynefinoedd oddi mewn iddynt.”</p>	Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin: Cyngor a ddarparwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyflawni Rheoliad 33 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 1994 ⁹

⁷Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2012) ACA Afonydd Cleddau (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) [Cyrchwyd 19/01/2024]

⁸Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2009) [Safle Morol Ewropeaidd Bae Ceredigion: Cyngor a ddarparwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyflawni Rheoliad 33 o Reoliadau Cadwraeth \(Cynefinoedd Naturiol, &c.\) 1994](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

⁹ Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2009) [Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd: Cyngor a ddarparwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyflawni Rheoliad 33 o Reoliadau Cadwraeth \(Cynefinoedd Naturiol, &c.\) 1994](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

ACA	Cyfiawnhad	Ffynhonnell
Cernydd Carmel	<p>Ar gyfer fflora, ffawna ac ardaloedd o gors amrywiol, amlygwyd y gallai'r llwyth maethynnau gael effaith negyddol: "Mae ansawdd dŵr da yn hanfodol i gyfanrwydd ecolegol y tirllyn. Gallai lefelau uwch o faethynnau yn arbennig fod yn niweidiol i fflora a ffawna nodweddiadol y tirllyn."</p> <p>Yn yr un modd ar gyfer rhywogaethau mewn cyforgorsydd: "Mae rhywogaethau allweddol (yn enwedig Sphagna sy'n ffurfio mawn) yn agored iawn i gynnydd mewn lefelau maethynnau, naill ai o ddŵr ffo o'r tir amaethyddol cyfagos neu drwy ddyddodiad atmosfferig."</p>	Cynllun Rheoli Craidd, gan gynnwys amcanion cadwraeth, ar gyfer ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) Cernydd Carmel ¹⁰
Sir Benfro Forol	<p>Yng Nghynllun Gweithredu Sir Benfro Forol, er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau cynnal a chadw yn ystyried effeithiau nodweddion ACA, a'u lleihau, mae un o'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys: "Lle mae angen cyfryngau glanhau, ystyriwch ddefnyddio cynhyrchion nad ydynt wedi'u clorineiddio a heb ffosffad yn unig." Mae hyn yn ychwanegol at nodi sut y gall pwysigrwydd newidiadau i bori effeithio ar y llwyth maethynnau, gan gynnwys organoffosffad.</p>	Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol ¹¹

¹⁰Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2011) [Cynllun Rheoli Craidd, gan gynnwys Amcanion Cadwraeth, ar gyfer ACA \(Ardal Cadwraeth Arbennig\) Cernydd Carmel](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

¹¹ Burton, S. (2008) [Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

Fodd bynnag, roedd yr asesiadau gwreiddiol hyn, o ran ansawdd dŵr, yn aros am ragor o wybodaeth gan CNC. O dan Reoliad 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd, mae CNC yn gyfrifol am sicrhau bod effeithiau posibl dŵr gwastraff wedi'i drin ar safleoedd Ewropeaidd dynodedig yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad o'r holl ganiatadau presennol (RoC). O dan y RoC, mae'n ofynnol bod caniatadau gollwng a thrwyddedau tynnu dŵr wedi'u hystyried er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw effeithiau andwyol ar fuddiannau cadwraeth safleoedd dynodedig o ganlyniad i'r caniatadau hyn.

Yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gwreiddiol, penderfynwyd fel a ganlyn: *“Bydd angen i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd terfynol y Cynllun Datblygu Lleol adneuo ofyn am eglurhad gan CNC a Dŵr Cymru ynghylch y capasiti posibl o fewn y terfynau caniatâd gollwng ôl-RoC presennol ar gyfer twf pellach. Ble gellir cynnwys dyraniadau o fewn y terfynau cydsyniad gollwng ôl-RoC, gellir ystyried na fydd yna unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd Dynodedig Ewropeaidd. Pe gallai'r datblygiad a neilltuwyd fod yn fwy na'r capasiti a ganiateir, yna mae'n debygol y bydd angen trwydded newydd neu ddiwygiedig yn y gwaith trin dŵr gwastraff dan sylw i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y galw, ac y byddai angen i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ystyried p'un a fyddai'n ymarferol darparu capasiti ychwanegol heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanwydd unrhyw safleoedd Ewropeaidd.”*

1.3 Ymarfer Cydymffurfiaeth Ffosfforws CNC

Yn dilyn hynny, roedd y ddibyniaeth ar y dull uchod yn anymarferol am ddau reswm. Yn gyntaf, nid oedd pob caniatâd yn cynnwys terfynau cyfanswm ffosfforws. Yn ail, ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd CNC dystiolaeth yn dilyn adolygiad o safonau ansawdd dŵr llymach a osodwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur)¹. Cynhaliodd CNC ymarfer cydymffurfio â ffosfforws ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)¹². Tynnwyd data crynodiad ffosfforws o gronfa ddata ansawdd dŵr CNC am gyfnod o dair blynedd rhwng Ionawr 2017 a Rhagfyr 2019 ar gyfer pob pwynt samplu o fewn cyrff dŵr yn y naw ACA a ddynodwyd ar gyfer un neu fwy o nodweddion afon. Y rhain oedd fel a ganlyn:

- Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd
- Afon Gwyrffai a Llyn Cwellyn
- Afon Teifi
- Afon Tywi
- Afonydd Cleddau
- Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion (Afon Glaslyn)
- Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid
- Afon Wysg
- Afon Gwy

Dangosodd y data monitro a gyhoeddwyd yn 2021 bod dros 60% o gyrff dŵr ACA afonol yng Nghymru yn methu yn erbyn safonau ffosfforws diwygiedig. Oherwydd y methiannau hyn, mae CNC wedi cyhoeddi cyngor cynllunio¹³ i atal dirywiad pellach mewn capasiti amgylcheddol lle gall datblygiadau newydd effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol o ran ffosfforws a thrwy hynny ddangos cydymffurfedd â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 fel y'u diwygiwyd (a elwir yn y Rheoliadau Cynefinoedd).

Roedd y cyngor cynllunio hwn yn cynnwys ailsgrinio pob datblygiad a Chynllun Datblygu Lleol o ran ansawdd dŵr a ffosffadau.

1.4 Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Mae'r CDLI diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu yn gynllun defnydd tir sy'n nodi'r gofynion cynllunio ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin dros y cyfnod rhwng 2018 a 2033. Mae'r cynllun yn nodi faint

¹² Hatton-Ellis, T.W., Jones, T.G. (2021) [Asesiad Cydymffurfiaeth o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

¹³ CNC (2023) [Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

o ddatblygiadau newydd fydd yn digwydd, a ble, yn ogystal â pha ardaloedd sydd angen eu gwarchod oherwydd eu nodweddion amgylcheddol.

Mae CDLI diwygiedig Sir Gaerfyrddin (2018–2033) yn cael ei archwilio ar hyn o bryd, oherwydd y mater sy'n weddill o lefelau ffosforws yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd y CDLI diwygiedig ei ddatblygu fesul cam yng ngoleuni Cynllun Gweithredu Interim Niwtraliaeth Maetholion Sir Gaerfyrddin¹⁴, a ddatblygodd yn Gynllun Gweithredu terfynol¹⁵ sy'n nodi'n fanwl yr asesiadau maeth sydd wedi llywio'r asesiad hwn.

Mae Arcadis wedi bod yn ymwneud â chyflwyno'r Cynllun Gweithredu a'r adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i ategu Cam Allweddol 4 – Ail CDLI Diwygiedig Adneuo ar gyfer CDLI Cyngor Sir Caerfyrddin (2018-2033), a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn ei gylch ar 17 Chwefror 2023 hyd 14 Ebrill 2023¹⁶. Caiff y llinell amser ddangosol gyfredol ar gyfer cynnydd y CDLI diwygiedig ei chyflwyno yn Tabl 2.

1.5 Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion Interim a Therfynol

Lluniwyd Cynllun Gweithredu Interim fel rhan o'r asesiad parhaus o'r gyllideb faetholion bosibl ar gyfer dyraniadau safle'r CDLI diwygiedig a'r mesurau lliniaru yn dilyn hynny. Roedd y Cynllun Gweithredu Interim hwn yn manylu ar y cyllidebu maetholion cychwynnol sy'n ofynnol i wrthbwysu'r cyfanswm ffosffadau a gyfrifwyd gyda'r rhestr gyntaf o Ddyraniadau Safle a chyn i Dŵr Cymru gadarnhau'r terfynau wrth gefn ar gyfanswm ffosffadau ar gyfer y gweithfeydd trin dŵr gwastraff (h.y. y crynodiadau uchaf o ffosffad a gaiff eu gollwng o'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff). Trafodwyd y camau lliniaru posibl sydd i'w gweithredu yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer dyraniadau safle'r CDLI diwygiedig yn yr adroddiad hwn hefyd, a gyflwynodd y defnydd o atebion seiliedig ar natur (NbS) fel mesurau lliniaru ffosforws. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio gwlyptiroedd adeiledig i gael gwared â ffosforws a'r cyfrifiadau rhagarweiniol o faint o'r cyfanswm ffosffadau y gellid ei wrthbwysu ar gyfer y lleoliadau gwlyptir adeiledig a nodwyd ar y pryd.

Mae'r ddogfen hon wedi datblygu ymhellach i fod yn Gynllun Gweithredu terfynol yn unol â'r rhestr Dyraniadau Safle wedi'i diweddarau a'r terfyn wrth gefn terfynol ar gyfanswm ffosffadau o 5mg/l (oni nodir yn wahanol gan Dŵr Cymru yn seiliedig ar eu canlyniadau monitro).

Tabl 2 - Amserlen ddangosol ar gyfer cyfnodau allweddol y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig¹⁷

Camau yn y gwaith o baratoi'r cynllun	Rhif y rheoliad	Amserlen
Diffiniol		
Cam Allweddol 1 – Cytundeb Cyflawni	5-10	Cytundeb Cyflawni cychwynnol – Chwefror 2018 i Orffennaf 2018 Cytundeb Cyflawni diwygiedig cyntaf – cyhoeddiad yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2020 Ail Gytundeb Cyflawni diwygiedig – cyhoeddiad yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, Awst 2022
Cam Allweddol 2 – Cyn-adneuo – paratoi a chymryd rhan	14	Chwefror 2018 – Chwefror 2020
Cam Allweddol 3 – Cyn-adneuo – ymgynghoriad cyhoeddus	15,16, 16A	Mai 2018 – Mai 2019

¹⁴ Cynllun Gweithredu Interim (Chwefror 2023) [Heb ei gyhoeddi]

¹⁵ Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion Sir Gaerfyrddin (Ebrill 2024)

¹⁶ Cyngor Sir Caerfyrddin. (Chwefror 2023). [Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

¹⁷ Cytundeb Cyflawni Diwygiedig. (2022) [Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033](#)

Camau yn y gwaith o baratoi'r cynllun	Rhif y rheoliad	Amserlen
Diffiniol		
Cam Allweddol 4 – Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig adneuo cyntaf	17-21	Ionawr 2019 – Ionawr 2021
Cam Allweddol 4 – Ail Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig adneuo	17-21	Mawrth 2022 – Mawrth 2024
Dangosol		
Cam Allweddol 5 – Cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru i'w archwilio	22	Mawrth 2024
Cam Allweddol 6 – Archwiliad annibynnol	23	Mawrth 2024 – Ionawr 2025
Cam Allweddol 7 – Cyhoeddi adroddiad yr arolygydd	24	Mawrth 2025
Cam Allweddol 8 – Mabwysiadu	25, 25A	Mai – Mehefin 2025
Cam Allweddol 9 – Monitro ac adolygu	37	Yn parhau ar ôl mabwysiadu

2 Dull yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

2.1 Rhagarweiniad

Yn ogystal ag ailsgrinio pob ACA o ran effeithiau posibl ffosfforws (o'r CDLI gwreiddiol), mae'r Atodiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cynnwys sgrinio'r Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol nodweddiadol a gyflwynwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sy'n berthnasol i effeithiau ffosffadau ar ansawdd dŵr. Mae'r Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at newidiadau i eiriad polisiâu perthnasol sy'n cynnwys ffosffadau, yn ogystal â diweddariadau i'r broses sgrinio dyrannu safleoedd ar gyfer ardaloedd a allai gyfrannu at y cyfanswm ffosffadau ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr effeithir arnynt. Asesir y rhestr lawn o Gyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol yn Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033.

2.2 Y Camau mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

2.2.1 Camau yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'n ofynnol i bob cynllun a phrosiect haen is sydd â'r potensial i effeithio ar Safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol a/neu Safleoedd Ramsar, a elwid yn flaenorol yn safleoedd Natura 2000 a/neu Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd (waeth pa mor agos ydynt at y safleoedd hyn) gydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd¹⁸. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys pedwar cam gwahanol:

1. **Cam 1: Sgrinio** yw'r broses sy'n nodi i ddechrau effeithiau tebygol prosiect neu gynllun ar Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ac sy'n ystyried p'un a allai'r effeithiau hyn gael effaith arwyddocaol ar gyfanrwydd cynefinoedd a/neu rywogaethau cymwys y safle. Mae'n bwysig nodi mai baich y dystiolaeth yw dangos, ar sail gwybodaeth wrthrychol, na fydd unrhyw effaith arwyddocaol; os gallai'r effaith fod yn arwyddocaol, neu os nad yw'n hysbys, byddai hynny'n sbarduno'r angen am Asesiad Priodol. Mae cyfraith achos Llys Cyfiawnder Ewrop i'r perwyl bod yn rhaid gwneud Asesiad Priodol, gan fabwysiadu'r egwyddor ragofalus, oni bai y gellir diystyru'r tebygolrwydd o effaith arwyddocaol ar sail gwybodaeth wrthrychol. Penderfynodd dyfarniad Ebrill 2018 Llys Cyfiawnder yr Undeb

¹⁸ UK Gov (2017) [Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017](#) [Cyrchwyd 15/01/2024]

Ewropeaidd na ellir cymryd mesurau lliniaru i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol y cynllun neu brosiect ar Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol i ystyriaeth yn ystod y cam sgrinio (Cam 1). Lle bo angen mesurau o'r fath, bydd cynllun neu brosiect yn gofyn am gynnal Asesiad Priodol (Cam 2).

- Cam 2: Asesiad Priodol** yw'r ystyriaeth fanwl o'r effaith ar gyfanrwydd Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y prosiect neu'r cynllun, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, mewn perthynas ag amcanion cadwraeth y safle a'i adeiledd a'i swyddogaeth. Mae hyn er mwyn penderfynu p'un a fydd effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle ai peidio. Mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys y gwaith o ddatblygu mesurau lliniaru i osgoi neu leihau unrhyw effeithiau posibl.
- Cam 3: Asesiad o atebion amgen** yw'r broses sy'n archwilio ffyrdd amgen o gyflawni amcanion y prosiect neu gynllun a fyddai'n osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, pe na bai mesurau osgoi neu lliniaru yn gallu dileu effeithiau andwyol.
- Cam 4: Asesiad lle nad oes atebion amgen yn bodoli a lle mae effeithiau andwyol yn parhau.** Yng Ngham 4, gwneir asesiad i weld p'un a yw'r datblygiad yn angenrheidiol ai peidio am resymau hanfodol, sef er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI). Os felly, mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys asesiad manwl o'r mesurau cydadferol sydd eu hangen i ddiogelu a chynnal cydlynid cyffredinol y Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.

Dylid gwrthod datblygiad lle mae effeithiau andwyol ar y nodweddion y dynodwyd safle ar eu cyfer. Dylid cyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer cadwraeth yn llawn, ac, yn gyson ag amcanion y dynodiad, dylid gwarchod safleoedd a ddynodwyd yn statudol rhag difrod a dirywiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu cadw a'u gwella gan reolaeth briodol. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.¹⁹ Serch hynny, mae'n bwysig bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn nodi'r mathau o effeithiau posibl a allai ddeillio o weithredu polisi, a sut y gellid osgoi/lliniaru'r rhain yn ddiweddarach (h.y. tynnu sylw at faterion posibl yn gynnar yn y broses), yn ogystal â rhoi sicrwydd polisi lefel uchel y bydd Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Lleol a datblygwyr yn y dyfodol yn dilyn y broses angenrheidiol i nodi ac asesu goblygiadau posibl ar gyfer Safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol/Safleoedd Ramsar wrth ddyrannu tir ar gyfer datblygu. Bydd angen i lefel ddilynol y Cynllun Datblygu Lleol, neu hyd yn oed Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, ystyried yr effeithiau posibl a nodir yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn er mwyn llywio sut maent yn datblygu polisi ac i sicrhau y gellir cyflawni mesurau lliniaru lle nodir potensial ar gyfer effeithiau andwyol. Mae'n bwysig nodi mai dyma sut mae'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd iterus yn sicrhau na ellir caniatáu na gweithredu cynlluniau a phrosiectau heb sicrhau yn gyntaf na fyddent yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y rhwydwaith o Safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol a safleoedd Ramsar.

2.2.2 Effeithiau Cyfunol

Mae'n angenrheidiol i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ystyried effeithiau ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill.

Lle gallai agwedd ar brosiect gael rhywfaint o effaith ar nodwedd(ion) cymhwyso Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol ond na fyddai effeithiau'r agwedd honno ar y prosiect yn unig yn arwyddocaol, bydd angen gwirio'r effeithiau ar y cyd, yn gyntaf gydag effeithiau eraill yr un prosiect, ac yna gydag effeithiau unrhyw gynlluniau a phrosiectau eraill.

Os na ellir dileu'r rhagolygon o effeithiau cronol, mae angen ystyried sut y gallai ychwanegu effeithiau o brosiectau neu gynlluniau eraill greu effaith andwyol gyfunol ar Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol a fyddai'n arwyddocaol. Gan gymryd yr effeithiau na fyddent yn debygol o fod yn arwyddocaol yn unig, mae angen penderfynu p'un a fyddai'r effeithiau hyn yn fwy tebygol neu'n fwy arwyddocaol pe bai effeithiau prosiectau neu gynlluniau eraill yn cael eu hychwanegu atynt. Gellir nodi'r rhan fwyaf o'r effeithiau cronol

¹⁹ Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

drwy'r nodweddion canlynol. A allai effeithiau ychwanegol fod yn gronol oherwydd y byddent yn gwneud y canlynol:

- Cynyddu'r effeithiau ar y nodweddion cymhwyso mewn ffordd ychwanegol neu synergaid?
- Cynyddu sensitifrwydd neu fregusrwydd nodweddion cymhwyso'r safle yr effeithir arno gan gynigion y prosiect?
- Cael eu teimlo'n ddwysach gan yr un nodweddion cymhwyso dros yr un ardal (effaith haenu), neu gan yr un nodwedd gymhwyso dros ardal fwy (effaith ymledu), neu drwy effeithio ar ardaloedd newydd o'r un nodwedd gymhwyso (effaith gwasgariad)?

Yn unol â David Tyldesley Associates (DTA) Publications Limited, *The Habitats Regulations Assessment Handbook* (DTA Publications Limited, 2021)²⁰, bydd angen chwilio am brosiectau a chynlluniau ar y camau canlynol:

- a. Ceisiadau wedi'u cyflwyno ond heb eu penderfynu eto.
Prosiectau sy'n destun adolygiad cyfnodol, e.e. trwyddedau blynyddol, yn ystod yr amser y mae eu hadnewyddu dan ystyriaeth.
Gwrthodiadau yn amodol ar weithdrefnau apelio ac nad ydynt wedi'u penderfynu eto.
Prosiectau wedi'u hawdurdodi ond heb eu dechrau eto.
- b. Prosiectau wedi'u dechrau ond heb eu cwblhau eto.
- c. Prosiectau hysbys nad oes angen awdurdodiad allanol arnynt.
- d. Cynigion mewn cynlluniau mabwysiedig.
- e. Cynigion mewn cynlluniau drafft terfynol sydd wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol neu eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad, archwiliad neu fabwysiadu terfynol.

Gall cynlluniau sy'n cael eu hystyried amrywio o ddogfennau cynllunio awdurdodau cyfagos i gynlluniau strategol sector-benodol ar bynciau fel perygl llifogydd.

Cynhaliwyd adolygiad o brosiectau a chynlluniau a allai gael effaith ar y cyd â'r datblygiad arfaethedig.

2.2.3 Diffiniad o Effeithiau Arwyddocaol

Rhan hanfodol o broses sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw penderfynu p'un a yw'r cynigion yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar Safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol ac, felly, p'un a fydd angen Asesiad Priodol arnynt. Dylid gwneud dyfarniadau ynghylch arwyddocâd mewn perthynas â'r buddiannau cymhwyso y mae'r safle o bwysigrwydd Ewropeidd ar eu cyfer a hefyd ei amcanion cadwraeth. Mae diffiniad defnyddiol o effeithiau arwyddocaol 'tebygol' fel a ganlyn:

'...mae tebygol yn golygu hawdd ei ragweld nid dim ond posibilrwydd ffansiol; mae arwyddocaol yn golygu nid yn ddibwys nac yn amherthnasol ond effaith a allai fod yn berthnasol i amcanion cadwraeth y safle' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006).

Wrth ystyried p'un a yw'r prosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, rhaid mabwysiadu dull rhagofalus, yn enwedig lle yr asesir bod nodweddion mewn cyflwr anffafriol a lle eir y tu hwnt i lwythi critigol.

- Dylid ystyried bod y prosiect yn 'debygol' o gael effaith o'r fath os na all yr ymgeisydd (ar sail gwybodaeth wrthrychol) eithrio'r posibilrwydd y gallai'r prosiect gael effeithiau arwyddocaol ar unrhyw Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

²⁰ DTA Publications Limited, (2021) *The Habitats Regulations Assessment Handbook*, DTA Publications Limited.

- Byddai effaith yn 'arwyddocaol' yn y cyd-destun hwn pe gallai danseilio amcanion cadwraeth y safle. Rhaid asesu'r risg honno yng ngoleuni ffactorau megis nodweddion ac amodau amgylcheddol penodol y Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol dan sylw.

2.2.4 Agwedd at Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn ystyried gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd a'r canllawiau perthnasol a gynhyrchwyd gan DTA Publications Limited, 2021.

Mae'r adroddiad hwn yn atodiad i Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033, a oedd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o 17 Chwefror 2023 i 14 Ebrill 2023, a baratowyd i ystyried effeithiau Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 ar Safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 fel y'u diwygiwyd (a elwir yn Rheoliadau Cynefinoedd)¹⁸.

Diben yr asesiad hwn yw fel a ganlyn:

1. Sicrhau bod yr holl Gyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol sydd wedi digwydd ers y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig adneuo cyntaf yn cael eu hystyried o ran eu goblygiadau ar broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o ran effeithiau ffosffad ar ansawdd dŵr. Cafodd holl effeithiau posibl y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau eraill, eu sgrinio allan yn iteriad blaenorol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gyhoeddwyd yn 2019; ac
2. Ystyried safbwynt polisi CNC ar ffosffadau mewn afonydd (Mai 2021), a chyngor dilynol i awdurdodau cynllunio¹³. Mae hyn yn cynnwys effeithiau posibl o ddyraniadau safle Sir Gaerfyrddin ac unrhyw ddatblygiadau eraill o fewn y Parth Dylanwad.

Dylid darllen a dehongli'r atodiad hwn ochr yn ochr â dogfen yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gyflwynwyd, y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, ac Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033, sydd hefyd yn ystyried effeithiau'r Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol ar y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

Mae'r rhestr gyflawn o Gyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol o ran sgrinio polisi yn cael ei hasesu yn yr Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033, sy'n sgrinio pob polisi cynllun strategol a phenodol i mewn neu allan. Fodd bynnag, bydd yr adroddiad hwn yn ystyried y newidiadau sy'n ymwneud â ffosffad yn unig.

2.3 Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol

2.3.1 Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol

Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol yw'r prif newidiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Lle nodwyd goblygiadau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd posibl, cawsant eu sgrinio am eu potensial i effeithio ar ansawdd dŵr o ran ffosffadau. Maent yn cynnwys newidiadau o sylwedd amrywiol sy'n ymwneud â geiriad polisi, testun esboniadol a mapiau cynigion y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn angenrheidiol i ddangos cadernid y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r rhan fwyaf o'r Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol yn fân newidiadau golygu nad ydynt yn effeithio ar ystyr na gweithrediad polisi ac maent yn nodi diwygiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig i ystyried Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 11. Mae'r Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ffosffadau yn unig. Mae'r rhestr lawn o Gyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol ar gael yn Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033, sy'n ymwneud â newidiadau y tu hwnt i'r rhai sy'n effeithio ar ffosffadau. Nid yw Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol sydd wedi'u sgrinio allan o ran ffosffad wedi'u hystyried ymhellach yn yr adroddiad hwn.

2.3.2 Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol ar gyfer Polisi

Ar gyfer yr Atodiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn, yr unig bolisi a oedd yn berthnasol i effeithiau ffosffad posibl oedd CCH4: Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr. Rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith i sicrhau eglurder mewn perthynas â chanllawiau ffosffad CNC. Yn ogystal, roedd y diwygiadau polisi yn cynnwys newid rhif polisi o CCH3: Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr i'w enw presennol, sef CCH4: Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr.

2.3.3 Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol ar gyfer Dyrannu Safleoedd

Mae'r Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol ar gyfer dyrannu safleoedd fel y'u cyflwynir yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig wedi bod trwy sgrinio cychwynnol i ddileu'r dyraniadau hynny sydd â'r effaith bosibl fwyaf o ran ffosffad. Felly, mae sgrinio'r Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol wedi'i gynnal mewn dau gam:


1. Sgrinio dyraniadau safle o'r Cynllun Datblygu Lleol i gael gwared ar y rhai sydd â'r potensial am yr effaith fwyaf o ran ffosffad i ddileu'r rhain o'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig; a
2. Sgrinio gweddill y dyraniadau safle, gyda pharmedrau mewnbyn ffosffad posibl gwahanol, i gadarnhau'r angen i baratoi gwybodaeth ar gyfer Asesiad Priodol.

3 Ansawdd Dŵr o ran Ffosforws

3.1 Methu â Chydymffurfio â Thargedau Ffosffad Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

Yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol y mae eu dalgylchoedd yn ymestyn i barth dylanwad Sir Gaerfyrddin yw Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Cleddau, Afon Gwy, ac Afon Wysg. O'r pum corff dŵr hyn, dim ond Afon Teifi ac Afon Tywi sydd wedi cael eu nodi fel rhai sy'n cynnwys dyraniadau safle sydd â'r posibilrwydd o effeithio ar yr ACA.


O'r ddau gorff dŵr ACA hyn, dim ond Afon Teifi (Gweler Delwedd 1) sy'n methu â chyrraedd y targedau newydd ar hyn o bryd. Ar gyfer y cyrff dŵr yn Sir Gaerfyrddin, mae'r methiannau yn bennaf yn y categori "isel", sy'n llai na 10 ug/l yn fwy na'u targedau, sydd i raddau helaeth yn amrywio o 20 i 30 ug/l o ffosforws¹².



ollyngiadau o waith trin dŵr gwastraff. Mewn achosion o hyblygrwydd trwydded mae yna gapasiti i waith trin dŵr gwastraff gynyddu crynodiad ei ollyngiadau hyd at derfynau'r drwydded heb fod angen gwneud newid i'r drwydded amgylcheddol.

Yn seiliedig ar Asesiad Cydymffurfiaeth CNC o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn Erbyn Targedau Ffosforws, mae'r dalgylchoedd uchaf, canol ac isaf yn Afon Tywi i gyd yn cyrraedd eu targedau'n gyfforddus. Ym mhob achos mae'r crynodiad cymedrig o ffosforws (P) yn is na hanner ei darged ac felly nid yw mewn risg uchel o ffosforws.

Trafodir y modd y mae hyn yn effeithio ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn adran 3.3.5.



Delwedd 2 - Map o gydymffurfiaeth ffosforws ar gyfer ACA Afon Tywi.

Sylwer: Mae cyrff dŵr wedi'u harlliwio mewn gwyrdd yn cyrraedd eu targed. Mae lliwiau eraill yn methu â chyrraedd y targed, gyda lliwiau gwahanol yn cynrychioli maint y methiannau mewn µg l-1, a fynegir fel y cymedr blynyddol a'r cymedr tymor tyfu mwyaf.

Crëwyd Delwedd 2 gan ddefnyddio data a gyflwynwyd yn yr adroddiadau¹² asesu cydymffurfiaeth gwreiddiol a'r data dilynol a ddarparwyd gan CNC yn eu hymateb ymgynghori i Gyngor Sir Caerfyrddin ar y dull Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer ACA Tywi nad yw'n methu, gweler adran 3.3.5 am fanylion / cyfeirnod.

3.2 Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Allai Gael eu Heffeithio

3.2.1 Afon Teifi

Mae Afon Teifi yng ngorllewin Cymru yn afon fawr sy'n llifo dros graig galed, gyda rhai ceunentydd ysblennydd yn y rhan isaf. Mae'n fesotroffig yn bennaf ond mae ganddi hefyd rannau oligotroffig yn y rhannau uchaf ac mae'n enghraifft ragorol o afon is-fath 3 gyda llystyfiant craffanc y dŵr *Ranunculus* yng ngorllewin Prydain. Mae wedi'i dynodi'n ACA oherwydd y nodweddion canlynol:

- Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn 3260 Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitriche-Batrachion*
- Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn 3130 Dyfroedd llonydd oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant o'r *Littorelletea uniflorae* a/neu'r *Isoëto-Nanojuncetea*
- Cynefinoedd Atodiad I yn bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis y safle hwn 3130 Dyfroedd llonydd oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant o'r *Littorelletea uniflorae* a/neu'r *Isoëto-Nanojuncetea*
- Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
 - 1096 Llysywen bendoll y nant *Lampetra planeri* Mae Afon Teifi yn afon fesotroffig yn bennaf yng ngorllewin Cymru sy'n cynnal poblogaeth fawr o llyswod pendoll y nant *Lampetra planeri*. Mae cymysgedd o fathau o gynefinoedd ac is-haenau yn darparu'r cyfuniad o raeau silio gerllaw gwelyau

silt sy'n cael ei ffafrio gan llysywen bendoll y nant a rhywogaethau eraill o llysywod pendoll. Mae nifer fawr o lednentydd wedi'u cynnwys yn yr ACA; credir bod y rhain yn bwysig i llysywod pendoll yn Afon Teifi oherwydd bod y brif sianel yn dueddol o ddiodeff llifogydd difrifol, a allai arwain at olchi amocoetau llai allan.

- 1099 Llysywen bendoll yr afon Lampetra fluviatilis Mae Afon Teifi yn ddalgylch mawr o werth cadwraeth uchel yng ngorllewin Cymru. Mae'n cynnwys poblogaeth iach o llysywod pendoll yr afon *Lampetra fluviatilis*. Mae'r sianel led-naturiol sy'n cynnwys cymysgedd o is-haenau a nodweddion yn y nentydd yn gynefin ardderchog i llysywod pendoll ifanc.
- 1106 Eog *Salmo salar* Mae Afon Teifi yn system afon fesotroffig ganolig ei maint yng ngorllewin Cymru. Yn 1999, cyfradd dal eogiaid *Salmo salar* ar wialen yn Afon Teifi oedd y drydedd fwyaf yng Nghymru, ac nid yw'r system wedi profi'r gostyngiad serth yn niferoedd y stoc a welwyd mewn llawer o afonydd eraill yn yr ardal. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu ansawdd uchel y dalgylch, gyda sianel led-naturiol i raddau helaeth heb ei heffeithio gan ansawdd dŵr gwael neu rwystrau artiffisial i ymfudo. Fodd bynnag, yn gyffredin â llawer o afonydd eraill Cymru, mae asideiddio yn y rhannau uchaf yn destun pryder. Yn yr un modd â llawer o afonydd eraill yng ngorllewin Cymru, gleisiaid yw prif gydran y stoc. Mae pysgodfa gwrwgl draddodiadol fechan sy'n ecsbloetio'r eogiaid a brithyllodd y môr *Salmotrutta trutta*.
- 1163 Penlletwad *Cottus gobio* Mae Afon Teifi yn cynrychioli'r penlletwad *Cottus gobio* yng ngorllewin Cymru. Mae ansawdd y dŵr yn dda ar y cyfan, ac mae amrywiaeth y cynefinoedd lled-naturiol a'r oruchafiaeth o is-haenau caregog yn darparu cynefin ardderchog i bennau lletwad ar draws llawer o'r dalgylch. Mae data electrobysgota Asiantaeth yr Amgylchedd yn dangos bod y rhywogaeth hon yn gyffredin ledled y system. Mae pennau lletwad yn dangos gwahaniaethau amlwg mewn twf a hirhoedledd rhwng nentydd yr ucheldir a'r iseldir, ac mae Afon Teifi yn cynnwys darnau sy'n cynrychioli'r ddaau fath o gynefin.
- 1355 Dyfrgi *Lutra lutra* Mae Afon Teifi yng ngorllewin Cymru yn cynnwys y dyfrgi *Lutra lutra* ar draws llawer o'i dalgylch. Mae gan yr afon safleoedd gorffwys a bridio addas ar ei hyd. Mae tystiolaeth o arolygon a golygfeydd yn awgrymu bod ardal y llanw yn cael ei defnyddio fwyfwy gan ddyfrgwn.
- 1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol *Lurionium natans* Mae Afon Teifi yn gynefin cymysg sy'n cynnal llyriad-y-dŵr arnofiol *Lurionium natans* ar ymylon gorllewinol ei gwasgariad yn y DU. Mae'r rhywogaeth hon wedi'i chofnodi yn nyfroedd llonydd sy'n brin eu maethynnau yn Llynnoedd Teifi ym mlaenddyfroedd yr afon. Mae hefyd wedi'i chofnodi mewn darn cymharol faethol o'r afon yn union i lawr yr afon o Gors Caron.

- Rhywogaethau Atodiad II yn bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis safle
 - 1095 Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinu*

Mae atal llygredd gwasgaredig o un o'r prif ffynonellau, sef amaethyddiaeth (y cyntaf yw gwaith trin dŵr gwastraff ar Afon Teifi) yn un o amcanion cadwraeth yr ACA.⁵

3.2.2 Afon Tywi

Afon Tywi yw un o'r afonydd hiraf sy'n llifo'n gyfan gwbl yng Nghymru. Ei hyd cyfan yw 120 km. Mae'n gweu ei ffordd o'i tharddiad ym Mynyddoedd Cambria uwchben cronfa ddŵr Llyn Brianne i'r môr ym Mae Caerfyrddin. Mae wedi'i dynodi ar gyfer y nodweddion canlynol:

- Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn:
 - 1103 Gwangen *Alosa fallax* Poblogaeth silio fawr o'r wangen *Alosa fallax* yn Afon Tywi, de Cymru, ac fe'i hystyrir yn hunangynhaliol. Ceir safleoedd silio ar hyd rhannau isaf yr afon rhwng Caerfyrddin a Llangadog, gyda'r rhan fwyaf o silio yn digwydd i lawr yr afon o Landeilo. Ystyrir bod ansawdd a swm y dŵr yn ddigonol i gynnal y rhywogaeth hon, sydd dan fygythiad yn rhyngwladol, ac nid oes unrhyw rwystrau na ellir mo'u croesi ar hyd y llwybr ymfudo, er y gallai un gored ym Manorafon fod

yn rhwystr yn ystod amodau llif isel. Mae presenoldeb cronfa ddŵr Llyn Brianne yn y blaenddyfroedd yn rhoi'r potensial i drin llif yr afon i gynorthwyo mudo gwangod.

- 1355 Dyfrgi Lutra lutra Mae Afon Tywi yn un o afonydd gorau Cymru ar gyfer y dyfrgi *Lutra lutra*. Mae arwyddion toreithiog o ddyfrgwn ac maent i'w gweld yn rheolaidd ar yr afon. Mae ansawdd y dŵr yn gyffredinol dda ac mae cyflenwad digonol o fwyd. Mae mannau gorwedd addas ar hyd glannau'r afon, ond prin yw'r safleoedd bridio hysbys ar y brif afon, er bod cenawon wedi'u gweld.
- Rhywogaethau Atodiad II yn bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nid yn brif reswm dros ddewis safle:
 - 1095 Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus*
 - 1096 Llysywen bendoll y nant *Lampetra planeri*
 - 1099 Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis*
 - 1102 Herlyn *Alosa alosa*
 - 1163 Penlletwad *Cottus gobio*

3.3 Ymgynghori

Cysylltwyd â'r ymgynghoreion allweddol CNC a Dŵr Cymru mewn perthynas â'n dull cyllidebu maetholion ffosffad i'w ddefnyddio o fewn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r canlynol yn cyflwyno'r cyngor perthnasol sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer CDLIau o ran Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, yn ogystal â'r ymgynghoriad allweddol rhwng CNC, Dŵr Cymru ac Arcadis gyda golwg ar derfynau ffosfforws.

3.3.1 Cyngor CNC ar gyfer yr Adolygiad o CDLIau¹³

“Dylid sgrinio pob CDLI i benderfynu p'un a yw unrhyw bolisiau yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar afon mewn ACA.

Gellir sgrinio polisiau allan fel rhai nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol mewn perthynas â mwy o lwyth ffosfforws os nad yw'r datblygiadau neu weithgareddau cysylltiedig yn ffynhonnell ffosfforws neu os nad oes llwybrau i ffosfforws ychwanegol fynd i mewn i amgylchedd yr afon.

Dylai unrhyw bolisiau CDLI sy'n ymwneud â chynlluniau ar gyfer systemau trin carthion preifat sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar integreidd unrhyw afon mewn ACA lle mae'r canlynol yn wir:

- *mae gollyngiadau'n uniongyrchol i ddyfroedd wyneb; neu*
- *mae gollyngiadau i'r ddaear ac nid ydynt yn bodloni'r meini prawf sgrinio a nodir yn y ddogfen hon.*

Dylid asesu dyraniadau ar gyfer datblygiadau y bwriedir eu cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff prif gyflenwad, ac sydd â'r potensial i gynyddu'r llwyth ffosfforws, yn unol â'r cyngor a nodir yn gynharach yn y ddogfen hon.”

Dyraniadau lle nad oes capasiti ar gyfer dŵr gwastraff ychwanegol:

“Pan gynigir datblygiad gyda chysylltiad â charthffos gyhoeddus ond nad oes gan y gwaith trin dŵr gwastraff cysylltiedig ddigon o gapasiti i ymdopi â ffosfforws ychwanegol o gysylltiadau newydd neu nad oes unrhyw welliannau i gynyddu'r gallu i drin ffosfforws wedi'u cynllunio o fewn rhaglen y Cynllun Rheoli Asedau, dylai'r awdurdod cynllunio ymgymryd ag asesiad priodol o'r cynigion. Dylai'r asesiad priodol ystyried unrhyw fesurau lliniaru, niwtraliaeth o ran maethynnau neu fesurau osgoi eraill.”

3.3.2 Cyngor Penodol CNC ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Ffosfforws

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effaith ffosfforws o'r datblygiadau arfaethedig ar ansawdd dŵr o fewn ACAau. Ar gyfer dalgylchoedd nad ydynt yn cyrraedd y targedau ffosfforws:

“...mae'n bosibl y gellir awdurdodi datblygiadau newydd os gellir dangos na fyddant yn arwain at ddirywiad pellach yn ansawdd dŵr yn y gyrff dŵr ACA nad ydynt yn bodloni targedau ansawdd dŵr ac na fyddant yn tansellio'r gallu i'r ACA fodloni ei hamcanion cadwraeth.”

“Gellir cyflawni hyn os yw'r canlynol yn wir:

- nid yw datblygiadau yn ffynhonnell ffosfforws neu
- mae datblygiadau yn ffynhonnell ffosfforws ond nid oes ffordd iddo fynd i mewn i amgylchedd afon ACA neu
- mae mesurau sy'n gysylltiedig â datblygiad penodol yn cael eu rhoi ar waith fel y gellir cyflawni niwtraliaeth o ran maethynnau ac ni fydd y datblygiad yn arwain at gynydd net yn y ffosfforws sy'n mynd i mewn i amgylchedd afon ACA.”

“Mewn dalgylchoedd ACA sy'n bodloni targedau ffosfforws, mae'n bosibl y gellir awdurdodi datblygiadau newydd os gellir dangos na fyddant yn arwain at effaith andwyol ar integreidd y safle (h.y. ni fyddant yn tansellio gallu'r ACA i gyflawni ei hamcanion cadwraeth).”

3.3.3 Gofynion CNC ar gyfer terfyn wrth gefn ar Ffosffad

Mae cyngor CNC ynghylch gollyngiadau i gyrff dŵr ACA yn gofyn am derfyn wrth gefn o 5mg/l (h.y. uchafswm cyfanswm y ffosfforws y caniateir ei ollwng i ACA neu gorff dŵr sy'n draenio i ACA) ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff²¹:

"Bydd y rheoleiddwyr amgylcheddol yn mynnu bod terfyn o 5mg/l yn cael ei weithredu ar Gyfanswm y Ffosfforws a ganiateir mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff uwchben trothwy penodol o ran y boblogaeth, sy'n rhyddhau i Ardal Cadwraeth Arbennig. Caiff hyn ei weithredu yng Nghyfnod Rheoli Asedau 8 (2025-2030). Bydd y terfynau newydd a ganiateir yn cynnig mwy o sicrwydd i atal gwaethygiad, a'r gofyniad statudol i samplu ac adrodd ar lefel y ffosfforws sydd yn elfion terfynol Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff. Bydd y terfyn wrth gefn yn rhoi mwy o sicrwydd wrth foddelu ansawdd dŵr lle bo'r terfyn newydd yn cymryd lle'r amcangyfrifon o gyfanswm gwerthoedd ffosfforws a oedd yn arfer bod mewn fersiynau blaenorol."

3.3.4 Dŵr Cymru - Caniatáu Ffosffad

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Dŵr Cymru lythyr agored i'w randdeiliaid yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ar fater ffosfforws mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yng Nghymru²². Ochr yn ochr â'r llythyr hwn, cyhoeddwyd manylion yr Adolygiad o Drwyddedau (RoP). Er bod yr Adolygiad o Drwyddedau yn dal i fynd yn ei flaen, mae llawer o drwyddedau eisoes wedi'u cyhoeddi, gan gynnwys ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff yn nalgylch Tywi. Mae cofrestr gyhoeddus CNC ar gyfer caniatadau neu drwyddedau amgylcheddol yn cynnal y dogfennau penderfynu eithaf sy'n ategu'r Adolygiad o Drwyddedau. O bwysigrwydd arbennig y mae PAN-018673, dogfen benderfyniadau sy'n ategu'r prosiect Adolygiad o Drwyddedau, sy'n nodi:

“Rydym wedi penderfynu adolygu a lle bo'n briodol, rhoi amrywiadau ar waith ar gyfer trwyddedau gweithgarwch gollwng dŵr Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol o restr y cytunwyd arni o Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru...”

Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, rydym wedi ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol a gofynion cyfreithiol ac y bydd y drwydded yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei diogelu i'r graddau sy'n briodol”

Mewn geiriau eraill, lle mae trwydded wedi'i hadolygu a'i chyhoeddi, gan ystyried y dyddiad pryd y daw i rym (a all amrywio o fod ar unwaith i fis Mawrth 2030), gellir cymryd yn ganiataol bod effaith amgylcheddol y terfyn newydd hwn wedi'i hystyried yn unol â dyletswydd CNC o dan Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Fel y cyfryw, cyhyd â bod dyraniad safle yn gollwng i waith trin dŵr gwastraff gyda thrwydded wedi'i hadolygu sy'n

²¹ Dŵr Cymru [Ein gwaith ar gyrff dŵr mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

²²Dŵr Cymru (2023) [Llythyr Eglurhaol y Rhaglen Ffosfforws](#). [Cyrchwyd 19/01/2024]

effeithiol cyn y bwriad i'w defnyddio, gellir cymryd yn ganiataol na fyddai unrhyw effaith andwyol debygol ar yr ACA o ganlyniad i ryddhau mwy o ffosfforws.

Er mwyn deall cyfraniad Dŵr Cymru i'r llwyth ffosfforws i'r afonydd, ac i asesu unrhyw welliannau y byddai angen i Dŵr Cymru eu gwneud i'w gollyngiadau i waith trin dŵr gwastraff, mae Dŵr Cymru wedi diweddarau ac ail-raddnodi eu modelau ansawdd dŵr gan ddefnyddio'r rheoleiddiwr a'r offeryn o safon diwydiant o'r enw SAGIS (*Source Apportionment Geographical Information System*).

Defnyddiwyd SAGIS i nodi a mesur y prif ffynonellau ffosfforws ym mhob corff dŵr ym mhob un o'r dalgylchoedd ACA. Mae Dŵr Cymru wedi llunio eu Rhaglen Lleihau Ffosfforws ddangosol, sy'n nodi pa weithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n debygol o fod angen terfyn newydd ar gyfer eu trwydded ffosfforws, i fynd i'r afael ag anghenion cydymffurfio â rheoliadau Dŵr Cymru.

Defnyddiwyd modelau SAGIS i nodi lle mae rhaid i Dŵr Cymru gael gwared â ffosfforws ychwanegol er mwyn cyflawni eu 'cyfran deg' o'r gwelliannau sydd eu hangen. Mae rhaglen Dŵr Cymru yn nodi bod pob gwaith trin dŵr gwastraff yn gollwng dros 20m³ y dydd i ACA neu'n gollwng i gorff dŵr heb ei ddynodi sy'n draenio i ACA (h.y. lle nad oes terfyn ar gyfanswm ffosffadau ar waith ar hyn o bryd), bydd yn bodloni terfyn trwydded ffosfforws wrth gefn o 5 mg/l erbyn diwedd y rhaglen fuddsoddi (2032)²².

Dylid nodi bod pob gwaith trin dŵr gwastraff a aseswyd yn yr adroddiad hwn (h.y. y rheiny sy'n gysylltiedig â dyraniad safle yn y CDLI diwygiedig) yn gymwys o dan yr amodau hyn. Mae hyn yn golygu bod pob gwaith trin dŵr gwastraff yn yr asesiad hwn yn gollwng dros 20m³ y dydd heb (Trwydded amgylcheddol) terfyn ffosfforws a byddant yn ddarostyngedig i derfyn wrth gefn ar ffosfforws sydd o leiaf 5 mg/l erbyn diwedd rhaglen fuddsoddi arfaethedig Dŵr Cymru (2032). Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, bydd yna gytundebau ar waith i fodloni'r terfyn wrth gefn hwn neu ragori arno, ymhell cyn 2032; gwelir rhagor o fanylion yn Tabl 3 .

Mae Dŵr Cymru wedi rhyddhau dogfennau²³ allweddol yn ymwneud â'u modelau SAGIS a'u strategaeth arfaethedig ar gyfer buddsoddi mewn lleihau ffosfforws o dan y rhaglen newydd. Bydd hyn yn cefnogi ymdrechion ar y cyd gyda'u rhanddeiliaid allweddol i adfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i statws cadwraeth ffafriol a hynny gan gefnogi datblygiad economaidd Cymru. Disgwylir y bydd y rhaglen hon wedi'i chwblhau erbyn diwedd 2032, wedi'i chyflwyno dros nifer o gyfnodau buddsoddi 5 mlynedd y Cynllun Rheoli Asedau (AMP) a fydd yn gofyn am gytundeb ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (OFWAT).

Tabl 3 - Crynodeb o Gynllun Lleihau Ffosfforws Dŵr Cymru gan Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff ar gyfer CDLI diwygiedig Sir Gaerfyrddin

ACA	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	Statws Adolygiad o Drwyddedau	Terfyn Ffosfforws mg / l	Dyddiad gweithredu	Rhif y Drwydded
Afon Teifi	Capel Iwan	Derbyniwyd	1.8	2030	BN0054901
	Pencader	Arfaethedig	3.5	2032	BG0007801
	Llanybydder	Derbyniwyd	2.5	2025	BJ0091401
	Llanbedr Pont Steffan	Derbyniwyd	0.5	2025	BP0045001
	Tregaron	Derbyniwyd	2	2030	BH0057801
	Pontrhydfendigaid	Derbyniwyd	1.8	2032	BN0040202
	Dre-fach Felindre	Derbyniwyd	5	Effeithiol Rhag '23	BH0060601
	Adpar	Derbyniwyd	5	Effeithiol Rhag '23	BN0112801
	Llandysul	Derbyniwyd	5	Effeithiol Rhag '23	BG0010201
	Llanfihangel-ar-arth*	Arfaethedig	5	2032	BN0020802

²³ Dŵr Cymru (2023) [Deall ffynonellau ffosfforws yn ein hafonydd](#) [Cyrchwyd 19/01/2024]

ACA	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	Statws Adolygiad o Drwyddedau	Terfyn Ffosfforws mg / l	Dyddiad gweithredu	Rhif y Drwydded
Afon Tywi	Cwmifor	Arfaethedig	5	2030	BN0103601
	Ffair-fach	Arfaethedig	5	2030	BH0065401
	Llanymddyfri	Derbyniwyd	5	Effeithiol Awst '23	BN0202701
	Llangadog	Derbyniwyd	5	Effeithiol Gorff '23	BG0040001
	Pontargoethi a Nantgaredig	Derbyniwyd	5	Effeithiol Gorff '23	BN0002601

**Ar hyn o bryd nid oes gan waith trin dŵr gwastraff Llanfihangel-ar-arth ddyddiad arfaethedig ar gyfer ei drwydded newydd. Felly, rhagdybiwyd bod rhaglen fuddsoddi Dŵr Cymru yn dod i ben.*

3.3.5 Ymgynghoriad CNC ar y dull Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer ACA Tywi nad yw'n methu

Ar 8 Rhagfyr 2022 ymatebodd CNC i Gyngor Sir Caerfyrddin yn dilyn eu hymgyngoriad dyddiedig 21 Hydref 2022, a oedd yn ceisio sefydlu dealltwriaeth gyffredin o'r gofynion cydymffurfio ynghylch niwtraliaeth maetholion mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig nad ydynt yn methu²⁴. Roedd ymgynghoriad Cyngor Sir Caerfyrddin ac ymateb CNC yn eang eu cwmpas, ond gan gyfeirio'n benodol at gymhwyso dull hyblygrwydd amgylcheddol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig nad ydynt yn methu, tynnir sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

1. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin a CNC yn gytûn bod y crynodiadau ffosfforws yn nalgylch Afon Tywi yn sylweddol is na'u targedau, gan ddynodi "*nad yw ffosfforws yn debygol o fod yn bryder sylweddol yn y darnau hyn*".
2. Ailadroddodd CNC eu cyngor "*ar gyfer datblygiadau sy'n arwain at gynnydd mewn gollyngiadau ffosfforws i ddalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol nad ydynt yn methu. Fel y nodir yn ein cyngor cynllunio, mae'n bosibl y gellir awdurdodi datblygiadau newydd os gellir dangos na fyddant yn arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle (h.y. ni fyddant yn tanseilio gallu'r ACA i gyflawni ei hamcanion cadwraeth trwy beri iddi fethu â chyrraedd targed ffosfforws, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill)*. **Nid oes unrhyw ofyniad am niwtraliaeth maetholion...**"
3. Cydnabyddai CNC bod datblygiadau nad oes niwtraliaeth maetholion yn ofynnol ar eu cyfer yn debygol o leihau "*hyblygrwydd afonydd*", a heb roi ystyriaeth i'r mater gallai hyn arwain at fod cyrff dŵr yn Afon Tywi yn methu â chyrraedd eu targedau ffosfforws.
4. Tynnodd CNC sylw at sawl ystyriaeth a allai helpu'r awdurdod cynllunio lleol i ystyried y gofyniad i gymhwyso dull niwtraliaeth maetholion, gan gynnwys cyfradd a chyflymder y datblygiad sy'n dod yn ei flaen a chymhwyso trothwyon penderfyniadau yn seiliedig ar botensial allforio ffosfforws.
5. Nododd CNC eu gwaith gyda Dŵr Cymru i adolygu effeithiau ffosfforws gollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff mewn dalgylchoedd ACA. Bydd y gwaith yn llywio Adolygiad o Drwyddedau ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff a bydd yn rhoi eglurder ar gapasiti gweithfeydd trin dŵr gwastraff i dderbyn cysylltiadau o ddatblygiad newydd, gan gynorthwyo'r cwmni dŵr a'r awdurdodau cynllunio fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau cynllunio.

²⁴ CNC (2022) "Gofynion cydymffurfio Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol nad ydynt yn methu" (2022) Llythyr at Gyngor Sir Caerfyrddin, 8 Rhagfyr.

4 Sgrinio Ffosffadau ar gyfer Ansawdd Dŵr

Mae polisïau a dyraniadau a gafodd eu sgrinio allan yn flaenorol oherwydd eu diffyg llwybr adeiladu, neu oherwydd eu maint a'u pellter tebygol o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Teifi ac Afon Tywi, wedi'u sgrinio i mewn i'w hystyried ymhellach lle mae hyn yn cynnwys meddiannaeth a allai gyfrannu at ffosffadau'n mynd i mewn i'r system garthion. Darparodd CNC gyngor manwl ar natur y broses sgrinio honno, y manylir arni yn yr adrannau isod.

4.1 Sgrinio Polisïau

O ran polisïau, dywedodd CNC, *"Gellir sgrinio polisïau allan fel rhai nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol mewn perthynas â mwy o lwyth ffosfforws os nad oes llwybrau ar gyfer mwy o effeithiau ffosfforws."* Arweiniodd hyn at sgrinio un polisi yn unig a oedd, yn gyntaf, yn berthnasol i ffosffadau ac, yn ail, wedi bod yn destun Cyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol.

Nodwyd Polisi CCH4 y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig fel yr unig bolisi a oedd yn uniongyrchol berthnasol i ffosffadau a'u heffaith ar ansawdd dŵr, felly archwilir unrhyw newidiadau a wnaed i'r polisi yn Adran 5.2. Cyflwynir newidiadau i eiriad y polisi yn Tabl 9. Rhoddir sylw i unrhyw ddiwygiadau a wneir i bolisïau eraill yn Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033.

Newidiwyd enw Polisi CCH4 o CCH3: Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr oherwydd y cafodd yr hyn a arferai fod yn bolisi CCH1 ei rannu'n ddau bolisi unigol. Mae geiriad ei bolisi hefyd wedi'i ddiwygio er mwyn gwella ei eglurder a'i ymateb o ran canllawiau ffosffad CNC. O ganlyniad, mae testun ategol CCH4 hefyd wedi'i ddiwygio i roi cyfrif am y diweddariad diweddar mewn perthynas â ffosffadau a chaiff ei drafod ymhellach yn Adran 5.2.

4.2 Sgrinio Dyraniadau Safle

4.2.1 Cyllidebu Maetholion

Er mwyn pennu faint o ffosffad a gaiff ei ryddhau i'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig oherwydd y CDLI diwygiedig, cyfrifwyd cyllideb faetholion. Dilynydwyd pedwar cam y Gyfrifiannell Cyllidebu Maetholion, fel y dangosir yn Delwedd 3, er mwyn cyfrifo cyfanswm y ffosfforws y byddai angen ei liniaru o bob un o'r safleoedd y nodwyd eu bod yn effeithio ar ACA.

The nutrient budget calculations are completed as per the following four key stages:

- **Stage 1** - Calculate the increase in TP loading that comes from a development's wastewater.
- **Stage 2** - Calculate the pre-existing TP load from current land use at the development site.
- **Stage 3** - Calculate the future TP load from land use at the site post-development.
- **Stage 4** - Calculate the net change in TP loading from the development to the SAC with the addition of a 20% precautionary buffer; this is hereby referred to as the TP budget.



O'r pedwar cam a amlinellir uchod, gwelwyd mai Cam 1 oedd yn cyflwyno'r cyfraniad mwyaf o gyfanswm ffosffadau. Mae'r cam hwn yn dibynnu ar ddealltwriaeth o derfyn y drwydded yn y gwaith trin dŵr gwastraff y disgwylir i ddatblygiad penodol gysylltu iddo. Wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Interim, roedd y broses Adolygiad o Drwyddedau yn dal yn ei dyddiau cynnar, ac fel y cyfryw roedd ansicrwydd ynghylch dewis gwerth terfyn ffosfforws rhesymol ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff lle nad oedd terfyn ffosfforws o'r fath yn bodoli. Arweiniodd hyn at lunio amcangyfrif ceidwadol o gyllidebau maetholion, a oedd yn tybio terfyn ffosfforws o 8mg/l mewn unrhyw waith trin dŵr gwastraff heb drwydded.

Fel y nodwyd yn Adran 3.3.4, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers hynny gyda'r broses Adolygiad o Drwyddedau, a bellach ceir ymrwymiad i gyflawni terfyn wrth gefn o 5mg/l ym mhob gwaith trin dŵr gwastraff sy'n draenio i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n uwch na llif tywydd sych (DWF) o 20m³/dydd (mae hyn yn cwmpasu pob gwaith trin dŵr gwastraff sydd o bwys i'r asesiad hwn).

Fodd bynnag, ceir amgylchiadau lle bydd y gwerth gwirioneddol a ganiateir yn is na 5mg/l oherwydd gwelliannau presennol ac arfaethedig i weithfeydd trin dŵr gwastraff. Ar gyfer chwe lleoliad gwaith trin dŵr gwastraff o fewn ACA Afon Teifi, mae terfyn tynnach ar gyfanswm ffosffadau eisoes wedi'i gadarnhau, ac mewn dau achos (Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder) bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn 2025 (wedi'i gyflwyno yn Tabl 3). Pan fydd gwelliannau yn cael eu cadarnhau o fewn AMP7 (erbyn 2025) mae'r gwerthoedd terfyn ffosfforws sy'n dderbyniol wedi'u cymhwyso i gyfrifiadau. Ym mhob achos arall, cymhwysir y terfyn wrth gefn o 5mg/l, ac eithrio yn achos Cyfleusterau Parod i Drin Carthion lle defnyddir gwerthoedd diodyn yn unol â'r canllawiau cyfrifo.

Darparwyd y rhestr derfynol o Ddyraniadau Safle y bwriedir eu cyflwyno fel rhan o'r CDLI diwygiedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym mis Hydref 2023. Roedd y rhestr hon yn wahanol i'r dyraniadau blaenorol a ddarparwyd gan y Cyngor yng Ngham 1, felly mae'r gyllideb faetholion a'r cyfrifiadau dilynol wedi'u diwygio yn unol â hynny. Caiff y rhestr gyflawn o'r Dyraniadau Safle derfynol ar gyfer y CDLI diwygiedig eu hamlinellu yn Tabl 6.

4.2.2 Cam 1 - Canlyniadau Sgrinio Dyraniadau Safle y CDLI diwygiedig

Canfu Arcadis, o fewn dalgylchoedd draenio Afon Teifi ac Afon Tywi, fod 42 o Ddyraniadau Safle wedi'u nodi fel rhai a allai gael effaith ar yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hyn:

- 28 yn Afon Teifi; a
- 14 yn Afon Tywi

Nid oedd unrhyw Ddyraniadau Safle wedi'u nodi fel rhai sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Cleddau, Afon Wysg neu Afon Gwy. ¹⁴

Yn dilyn yr asesiad hwn ac ystyriaethau strategol eraill, adolygodd swyddogion cynllunio'r cyngor bob safle unigol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig gyda'r bwriad o "sgrinio allan" y safleoedd hynny yr ystyrir nad oeddent yn debygol o gael eu datblygu o dan y CDLI diwygiedig. Rhoddodd y Cyngor nifer dethol o safleoedd sydd i'w datblygu i Arcadis:

- Ar gyfer Afon Teifi, gostyngodd nifer y Dyraniadau Safle o 28 safle (417 uned) i lawr i 15 (189 uned). Caiff y Dyraniadau Safle a gaiff eu sgrinio i mewn eu cyflwyno yn Tabl – Dyraniadau Safle4
- Ar gyfer Afon Tywi, gostyngodd nifer y Dyraniadau Safle o 14 safle (175 uned) i lawr i 6 (104 uned). Mae'r safleoedd a gaiff eu sgrinio i mewn yn cael eu cyflwyno yn Tabl 5

Mae effaith y lleihad cyntaf yn nifer y Dyraniadau Safle o fewn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig wedi lleihau'r gyllideb fel a ganlyn:

- 49% (486.11 kg y flwyddyn o gyfanswm ffosffad i 236.28 kg y flwyddyn o gyfanswm ffosffad) ar gyfer Afon Teifi
- 43% (191.17 kg y flwyddyn o gyfanswm ffosffad i 109.77 kg y flwyddyn o gyfanswm ffosffad) ar gyfer Afon Tywi

Tabl – *Dyraniadau Safle4 Cam 1 y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sydd wedi eu tynnu / eu hychwanegu ar gyfer ACA Afon Teifi, fel y darperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin*

Dyraniadau	Disgrifiad (Nifer yr unedau)	Llwybr effaith bosibl	Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (mewn/allan)
SeC12/h1	17	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SeC12/h2	14	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SeC12/h3	20	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SeC13/h1	10	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SeC13/h2	30	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SeC13/h3	23	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SeC13/h4 (Safle Newydd W39176)	9	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SeC14/h1	20	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SeC14/h2	24	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SeC14/h3	28	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SeC14/h4	7	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SuV31/h1	12	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SuV31/h2	10	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SuV32/h1	6	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SuV33/h1	5	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SuV34/h1	14	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SuV35/h1	6	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SuV36/h1	6	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SuV36/h2	16	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SuV37/h1	20	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SuV37/h2	20	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SuV37/h3	10	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SuV38/h1	6	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SuV38/h2	5	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SuV39/h1	7	Yn draenio i ddalgylch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn

Dyraniadau	Disgrifiad (Nifer yr unedau)	Llwybr effaith bosibl	Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (mewn/allan)
SuV41/h1	19	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Teifi	Allan
SuV41/h2 (Safle Newydd W40639)	14	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn
SuV43/h1	8	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Teifi	Mewn

Tabl 5- Dyraniadau Safle Cam 1 y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sydd wedi eu dileu / eu hychwanegu ar gyfer ACA Afon Tywi, fel y darperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Dyraniadau	Disgrifiad (Nifer yr unedau)	Llwybr effaith bosibl	CDLI diwygiedig - mewn/allan
SuV15/h1	10	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Allan
SuV16/h1	8	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Allan
SuV17/h1	35	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Mewn
SuV18/h1	15	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Allan
SeC15/h1	12	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Allan
SeC15/h2	8	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Mewn
SeC16/h1	27	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Mewn
SeC16/h2	5	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Allan
Adran 16/h3	5	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Allan
SeC17/h1	16	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Mewn
SeC17/h2	8	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Mewn
SuV47/h1	7	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Allan
SuV48/h1	18	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Allan
SuV51/h1	8	Yn draenio i ddalgyrch sensitif i ffosforws – Tywi	Mewn

4.2.3 Cam 2 - Canlyniadau Sgrinio Dyraniadau Safle y CDLI diwygiedig

Fis Hydref 2023, roedd y Cyngor wedi ymateb i'r fersiwn flaenorol o'r Atodiad i'r Adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn trwy ddarparu rhestr derfynol o Ddyraniadau Safle, a fydd yn cael eu datblygu fel rhan o'r CDLI diwygiedig. O gymharu â'r rhestr o Ddyraniadau Safle yn y fersiwn flaenorol o'r adroddiad

hwn, tynnwyd un dyraniad safle (SuV43/h2) o ACA Afon Teifi a chafodd un dyraniad safle newydd (SuV16/h1) ar gyfer ACA Afon Tywi ei gynnwys ar ôl cael ei sgrinio allan i ddechrau. Gwnaed adolygiad o'r unedau Dyraniadau Safle hefyd, er enghraifft cafodd SuV43/h1, a oedd yn cynnwys 8 uned yn flaenorol, ei ostwng i 5 uned gan fod tri chartref eisoes wedi'u hadeiladu ac nid oedd yn ofynnol iddynt gael eu cynnwys yn y gyllideb faetholion. Ar gyfer Afon Tywi, ceir 7 Dyraniad Safle ar hyn o bryd gyda chyfanswm o 104 o unedau. Ar gyfer Afon Teifi, ceir 14 Dyraniad Safle ar hyn o bryd gyda chyfanswm o 172 o unedau.

Arweiniodd hyn at restr derfynol o ddyraniadau safle ar gyfer y CDLI diwygiedig (Tabl 6) fel a ganlyn:

Tabl 6 - Safleoedd sydd wedi'u sgrinio i mewn ar gyfer y Dyraniadau Safle terfynol fel y'u darperir gan Gyngor Sir Gaerfyrddin

ACA	Cyfeirnod y safle	Enw	Nifer yr Unedau
Afon Teifi	SuV38/h1	Maes y Bryn	6
Afon Teifi	SuV37/h3	Tir gerllaw Lleinau	10
Afon Teifi	SuV37/h2	Tir i'r de o Cae Coedmor	20
Afon Teifi	SuV39/h1	Gerllaw Yr Hendre	7
Afon Teifi	SuV33/h1	Tir gyferbyn â Brogeler	5
Afon Teifi	SuV36/h2	Tir ym Mryndulais	16
Afon Teifi	SuV36/h1	Cae Pensarn Helen	6
Afon Teifi	SeC13/h1	Ger Y Neuadd	10
Afon Teifi	SuV43/h1*	Blossom Inn	5*
Afon Teifi	SeC12/h1	Trem y Ddôl	17
Afon Teifi	SeC12/h3	Tir tu cefn i Dolcoed	20
Afon Teifi	SeC14/h2	Tir ger Maescader	24
Afon Teifi	SeC14/h1	Garej Blossom	20
Afon Teifi	SuV35/h1	Tir ger Arwynfa	6
Afon Tywi	SuV16/h1*	Heol Llwynddewi	2*
Afon Tywi	SuV17/h1	Cefn yr Hen Waith Saer, Heol yr Orsaf	35
Afon Tywi	SuV51/h1	Tir gyferbyn â Neuadd y Pentref	8
Afon Tywi	SeC16/h1	Chwarter Gogleddol Llandeilo	27
Afon Tywi	SeC15/h2	Tir ger Bryndeilog, Rhodfa Tywi	8
Afon Tywi	SeC17/h1	Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog	16
Afon Tywi	SeC17/h2	Tir oddi ar Heol Pendref	8
CYFANSWM			276

4.2.4 Cyfrifiadau cyllideb faetholion CDLI diwygiedig Sir Gaerfyrddin

Yn seiliedig ar y fethodoleg a nodir yn adran 4.2.1 a'r safleoedd a gaiff eu sgrinio i mewn ar gyfer y CDLI diwygiedig terfynol (yn unol â Tabl 6), y gyllideb cyfanswm ffosffadau (TP) derfynol ar gyfer Afon Tywi yw **75.69 TP Kg y flwyddyn**, ac ar gyfer Afon Teifi **126.45 TP Kg/blwyddyn** fel y dangosir yn Tabl 7. Gellir dod o

hyd i ddadansoddiad llawn o gyfrifiadau'r gyllideb faetholion yn y Cynllun Gweithredu. Cyflwynir cyllidebau maetholion fesul dyraniad yn y ddogfen hon hefyd wrth archwilio opsiynau lliniaru posibl, gweler Adran 5.4. *Tabl 7 - Crynodeb o'r gostyngiad mewn unedau a chyllidebau maetholion yn seiliedig ar y rhestr ddiwygiedig o Ddyraniadau Safle ar gyfer terfyn wrth gefn ar gyfanswm ffosffadau (TP) o 5mg/l*

ACA	Nifer blaenorol yr Unedau	Nifer cyfredol yr Unedau	Cyllideb Faetholion flaenorol - cyfanswm ffosffadau (Kg/blwyddyn)	Cyllideb Faetholion gyfredol - cyfanswm ffosffadau (Kg/blwyddyn)	Y gostyngiad mewn cyfanswm ffosffadau sydd ei angen i liniaru
Tywi	175	104	191.17	75.69	60.41%
Teifi	417	172	486.11	126.45	73.99%
Cyfanswm	592	276	677.28	202.14	70.15%

4.3 Sgrinio effeithiau cyfunol

4.3.1 Ffynonellau ffosfforws

4.3.1.1 Ffynonellau ffosfforws ar gyfer ACA Afon Teifi


Er mwyn deall y posibilrwydd o effeithiau cyfunol mae'n bwysig deall ble mae'r ffynonellau ffosffad mwyaf yn y ddwy ACA. Ar gyfer Afon Teifi, sy'n methu ar hyn o bryd o ran targedau ffosfforws CNC, mae canlyniadau'r model diweddaraf o Grynoded Dosraniad Ffynonellau Ffosfforws yn awgrymu bod 45 kg o ffosfforws yn cael ei ollwng o'r dalgylch yn ddyddiol²⁵. Gwelwyd mai'r brif ffynhonnell o ffosfforws yn Afon Teifi yw gweithfeydd trin dŵr gwastraff; sy'n cyfrif am 66% o'r llwyth dyddiol cyfartalog (kg/d). Mae defnydd tir gwledig yn cyfrannu 30% o'r llwyth ffosfforws dyddiol, mae gorlifiadau storm (ysbeidiol) yn cyfrannu 3%, ac mae 1% arall yn dod o ffynonellau eraill megis tanciau septig a dŵr ffo trefol.

Mae hyn yn cadarnhau bod y llwyth ffosfforws yn Afon Teifi yn cael ei yrru i raddau helaeth gan ollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff. Mae

Delwedd 4 yn rhoi trosolwg o'r llwythi dosraniad ffynonellau ar gyfer dalgylch ACA afonol Afon Teifi. Mae Dŵr Cymru wedi cyhoeddi Trosolwg Llwyth Ffosfforws Afon Teifi, sy'n dangos dadansoddiad o'r llwyth ffosfforws a dadansoddiad o'r ffynonellau llygredd ym mhob corff dŵr²⁶.

²⁵ Crynodeb o Ddosraniad Ffynonellau Ffosfforws: Diweddarau Model SAGIS Afon Teifi (Rhag 2022) [Cyrchwyd 19/01/2024]

²⁶ Trosolwg o Lwyth Ffosfforws Afon Teifi. [Cyrchwyd 19/01/2024]



Delwedd 4 - Dosraniad ffosfforws yn ôl ffynhonnell ar gyfer Afon Teifi²⁶


Nodyn: Mae'r dosraniad ffynhonnell yn cynrychioli ffin y corff dŵr Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr sydd bellaf i lawr yr afon yn nalgylch Afon Teifi (GB110062043563). Mae pwyntiau rhagfynegi llwyth yn cael eu plotio yng nghanol pob corff dŵr Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

4.3.1.2 Ffynonellau ffosfforws ar gyfer ACA Afon Tywi

Ar gyfer Afon Tywi, nad yw'n methu ei thargedau ffosffad ar hyn o bryd, mae canlyniadau'r model Crynodeb Dosraniad Ffynonellau Ffosfforws yn dangos bod tua 60Kg o ffosfforws yn cael ei ollwng o'r dalgylch yn ddyddiol²⁷. Gwelwyd mai'r brif ffynhonnell o ffosfforws yn Afon Tywi yw defnydd tir gwledig; sy'n cyfrif am 86% o'r llwyth ffosfforws dyddiol cyfartalog (kg/d). Mae gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn cyfrannu 11% ac mae 3% arall yn dod o ffynonellau eraill megis tanciau septig a dŵr ffo trefol. Mae hyn yn cadarnhau bod y llwyth ffosfforws yn Afon Tywi yn cael ei yrru'n bennaf gan ddefnydd tir gwledig. Mae Delwedd 4 yn rhoi trosolwg o'r llwythi dosraniad ffynonellau ar gyfer dalgylch ACA afonol Afon Tywi. Mae'r Trosolwg o Lwyth Ffosfforws Afon Tywi wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar gan Dŵr Cymru²⁸.

²⁷ Crynodeb Drafft o Ddosraniad Ffynonellau Ffosfforws: Afon Tywi (Mai 2023) [Cyrchwyd 19/01/2024]

²⁸ Trosolwg o Lwyth Ffosfforws Afon Tywi. [Cyrchwyd 19/01/2024]



Delwedd - Dosraniad ffosfforws yn ôl ffynhonnell yn y man pellaf i lawr yr afon ar Afon Tywi.

4.3.2 Dyraniadau Safle a Statws CDLIau cyfagos

Cynhaliwyd adolygiad o Gynlluniau Datblygu Lleol cynghorau cyfagos i weld p'un a allai eu dyraniadau safle effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Teifi ac Afon Tywi. Yr unig ddyraniadau safle gan Gynlluniau Datblygu Lleol a allai effeithio ar unrhyw un o'r dalgylchoedd ACA hyn oedd y rheiny yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro ac mewn perthynas ag ACA Afon Teifi.

Mae rhannau gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'u lleoli o fewn ffiniau Sir Gaerfyrddin, er nad yw'r CDLI diwygiedig a aseswyd yn berthnasol i'r ardal hon (~230 km²) gan ei fod o dan gyfrifoldeb Awdurdod Cynllunio Lleol arall. Er i'r gwaith paratoi ddechrau yn 2017, bu'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oedi cyn llunio ei CDLI diwygiedig o ganlyniad i'r cyfyngiad ar ffosffadau²⁹.

²⁹Cynllun Datblygu Lleol 2 **Bannau Brycheiniog** [Cyrchwyd 19/01/2024]

Adeg cyhoeddi hwn, nid oes cytundeb cyflawni wedi'i ddiweddarau ar gael ac mae'r CDLI presennol yn parhau mewn grym. O'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein (Cynllun Lleol mabwysiedig, cynigion, mapiau mewnosod a dogfennau ategol), nid oes dyraniadau arfaethedig a fyddai o fewn ffin y Sir nac o fewn dalgylch cyffredin ACA Tywi sy'n sensitif i ffosforws ac, felly, nid oes angen asesiad cyfunol.

4.3.3 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion

Mae Afon Teifi yn llifo trwy ardaloedd mawr o Geredigion (mae ei dalgylch afon yn cynnwys 44.6% o Geredigion) a byddai'r canllawiau cynllunio newydd a gyhoeddwyd gan CNC mewn perthynas ag ymddrin â lefelau ffosffad yn ACA Afon Teifi yn effeithio'n sylweddol ar sut byddai'r cymunedau hyn yn datblygu yn ystod cyfnod nesaf y CDLI sef 2018 i 2033 (h.y. CDLI2).

Yn seiliedig ar ganllawiau cynllunio diweddaraf CNC a'r sylfaen dystiolaeth, mae risg sylweddol y bydd Cynllun Datblygu Lleol 2 yn cael ei ystyried yn 'ddiffygiol' drwy'r broses archwilio cyhoeddus a heb fod yn addas i'r diben, oherwydd na roddwyd sylw i'r broblem o ran ffosffadau. Felly, mewn cyfarfod o'r cyngor llawn a gynhaliwyd yn rhithwir ar 21 Hydref 2021, cytunodd cynghorwyr sir Ceredigion fod angen gwneud penderfyniad pragmatig a chytunwyd i seibiant dros dro ond amhenodol hyd yma ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd er mwyn caniatáu i dystiolaeth a data hanfodol gael eu casglu ac opsiynau lliniaru gael eu dyfeisio. Yn y cyfamser, mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio gyda CNC, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol cyfagos i ddod o hyd i atebion cenedlaethol a lleol i'r mater.

Er bod cyfnod y Cynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig presennol yn dod i ben yn 2022, bydd yn parhau i fod yn gynllun datblygu ar gyfer Ceredigion hyd nes y caiff cynllun amnewid ei fabwysiadu. Felly, mae'r safleoedd hynny yn y Cynllun Datblygu Lleol a ddyrannwyd ar hyn o bryd ac sydd eto i'w datblygu'n llawn wedi'u cynnwys yn y broses cloriannu maethynnau a ymgwymerwyd gan Arcadis yn yr Atodiad Asesiad Ffosffad hwn i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin i feintio'r effeithiau cyfunol ar ACA Afon Teifi.

4.3.4 Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro

Mae Afon Teifi yn llifo trwy ran o Sir Benfro ac felly byddai canllawiau cynllunio newydd CNC ar gyfer delio â lefelau ffosffad yn effeithio arni, fel yn achos Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Mae gan hyn oblygiadau ar y lleoliadau a'r safleoedd y gellir eu cynnwys fel dyraniadau yn yr Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro (CDLI 2). Ni fydd Cyngor Sir Penfro mewn sefyllfa i wybod pa safleoedd y gellir eu cadw yng Nghynllun Datblygu Lleol 2 hyd nes y derbynnir rhagor o wybodaeth ac ymchwil ychwanegol. Mae angen mwy o amser felly i ganiatáu i dystiolaeth a data hanfodol gael eu casglu a dyfeisio opsiynau lliniaru ar y mater ffosffadau.

Yn ogystal ag unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r mater ffosffadau, mae Cyngor Sir Penfro yn debygol o ddymuno gwneud ystod o newidiadau eraill i Gynllun Adneuo 2020 (yn cwmpasu'r cyfnod 2017-33) mewn ymateb i adborth ymgynghori ac o ganlyniad i dystiolaeth wedi'i diweddarau / newidiadau i bolisi a chyddestun cenedlaethol, gan gynnwys y rhai sy'n ofynnol o ganlyniad i Covid-19.

Felly, mewn cyfarfod rhithiol o'r cyngor llawn a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021, cytunodd cynghorwyr Cyngor Sir Penfro i nodi oedi i amserlen CDLI 2, gan gymeradwyo argymhelliad i ganiatáu paratoi Cytundeb Cyflawni diwygiedig sy'n cynnwys dychwelyd i gam y Cynllun Adneuo. Mae hyn yn golygu y bydd ail gynllun adneuo yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'r amserlen ar gyfer hyn yn dal yn ansicr gan ei bod yn dibynnu ar ryddhau gwybodaeth a chanlyniadau ymchwil. Felly, nid yw dyddiadau penodol ar gyfer hyn wedi'u nodi eto. Bydd Cytundeb Cyflawni newydd a'r gwaith o baratoi ail Gynllun Adneuo yn caniatáu i dystiolaeth a data hanfodol gael eu casglu a dyfeisio opsiynau lliniaru. Yn y cyfamser, mae Cyngor Sir Penfro yn gweithio gyda CNC, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol cyfagos a sefydliadau eraill fel Fforwm Arfordir Sir Benfro i ddod o hyd i atebion cenedlaethol a lleol i'r mater.

	H0702	38	26.67					
	H2001	44	27.64					
	H2002	19	13.35					
	M0701	20	43.47					
<i>Is-gyfanswm</i>		157	137.41			<i>Wrth gefn</i>	126.36	484
6	H1101	7	4.25	Gwlyptiroedd Adeiledig (Cenarth)	Gwlyptir yng Nghenarth (cynllun Cyngor Sir Ceredigion o dan PRAM)	0.70	149.56	226
	H1102	17	11.59					
	H1103	14	9.53					
	HSG/001/CDLI2/01	11	7.68					

<i>Is-gyfanswm</i>		49	33.06			<i>Wrth gefn</i>	116.50	177
7	HSG/020/CDLI2/1	50	32.45	Gwlyptiroedd Adeiledig (Cilgerran)	Gwlyptir yng Nghilgerran (cynllun Cyngor Sir Ceredigion o dan PRAM)	0.60	88.7	137
<i>Is-gyfanswm</i>		50	32.45			<i>Wrth gefn</i>	56.25	87
Cyfanswm		603	356.75			Cyfanswm Wrth Gefn	338.90	799

5.5.3 Datganiad o Dir Cyffredin

Mae angen cydweithio rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol gyda Dyraniadau Safle posibl yn gysylltiedig ag Afon Teifi.

Er mwyn cefnogi'r cydweithrediad hwn, crëwyd Datganiad o Dir Cyffredin i gytuno ar y dull cydweithredol sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin ar draws gwahanol randdeiliaid ac awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Penfro, a Chyngor Sir Powys. Mae'r Datganiad o Dir Cyffredin yn hysbysu'r arolygwyr am y sefyllfa y cytunwyd arni rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am ddalgyllchoedd ACA sy'n draenio drwy Sir Gaerfyrddin gyfan, sef ACA Afon Tywi, Afon Teifi ac Afonydd Cleddau.

Y partneriaid yw:

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP)
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Powys
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB)
- CNC
- Dŵr Cymru

Er nad yw'n ddogfen gyfreithiol, mae'r Datganiad o Dir Cyffredin yn nodi'n glir y dull cyfunol o fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr sy'n cael eu cymryd gan y partïon ar gyfer yr arolygwyr. Mae hyn yn cynnwys amlinellu cyfrifoldebau ac ymrwymadau'r sefydliadau partner o ran lliniaru niwtraliaeth maetholion a chydymffurfio â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r Datganiad o Dir Cyffredin yn rhoi mwy o hyder wrth gyflawni'r gwlyptiroedd adeiledig arfaethedig yn llwyddiannus ac y byddant yn cael yr effaith angenrheidiol ar gyfer cyflawni niwtraliaeth maetholion yn ACA Afon Teifi. Yn y pen draw, mae'r Datganiad o Dir Cyffredin yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin a dyheadau twf yn y dyfodol.

5.6 Mesurau Lliniaru ar ffurf Osgoi ar gyfer Ffosffadau o Ffynonellau Eraill – Mesurau Categori 2

5.6.1 Mesurau Lliniaru ar ffurf Osgoi – Mesurau Categori 2

Ni ellir dal y broses ddatblygu newydd yn atebol am gyflawni'r targedau ffosffad ehangach y mae llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth a gorlifoedd o waith trin dŵr gwastraff yn cyfrannu atynt. Fodd bynnag, mae angen sicrhau nad yw darparu mesurau lliniaru sy'n creu capasiti ar gyfer datblygiadau newydd yn atal nac yn rhwystro rhag cyflawni mesurau ehangach i gyrraedd y targedau ffosffad ar gyfer yr ACA.

Mae dull niwtraliaeth maetholion wedi bod yn destun craffu yn yr Uchel Lys yn achos Wyatt v Cyngor Bwrdeistref Fareham³⁵. Derbyniodd y llys egwyddorion dull niwtraliaeth maetholion i lywio'r broses o wneud penderfyniadau o dan Erthygl 6(3). Daw paragraff 42 i'r casgliad canlynol:

'Nid yw awdurdodi prosiect unigol nad yw'n fwy na niwtral yn amgylcheddol yn niweidiol i iaith a bwriad y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a/neu'r Rheoliadau Cynefinoedd.'

Fodd bynnag, wrth fynd i'r afael â chwyn y gallai hyn lesteirio'r gwaith o gyflawni dyletswyddau ehangach o dan Erthygl 6(2), roedd y llys yn cymeradwyo dull niwtraliaeth gan ragdybio bod camau eraill yn cael eu

cymryd gan gyrrff statudol perthnasol i osgoi dirywiad. Daethpwyd i'r gefnogaeth ymhlyg i ddull niwtraliaeth ym mharagraff 42 ar y sail bod Mr Ustus Jay o'r farn ganlynol⁴⁴;

'Yn ddiamau, mae Natural England a chyrrff statudol eraill yn cymryd camau eraill i osgoi dirywiad pellach at ddibenion Erthygl 6(2), sydd i gyd y tu allan i gwmpas y cais hwn am adolygiad barnwrol.'

Ystyrir felly, er mwyn dibynnu ar ddull niwtraliaeth maetholion (trwy gyflawni mesurau Categori 1), bydd angen i'r cyngor fod yn fodlon bod camau eraill yn cael eu cymryd i osgoi dirywiad at ddibenion Erthygl 6(2). Felly'r argymhelliad y dylid rhoi sicrwydd drwy ystyried cynnwys mesurau Categori 1 a Chategori 2 yn y Cynllun Gweithredu, gan sicrhau gwarged o fesurau lliniaru, a thrwy hynny ddarparu'r lefel o 'sicrwydd' sydd ei hangen i ddod i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle.

Bydd mesurau Categori 1 yn ddigonol i gyflawni niwtraliaeth maetholion ac osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd yn sgil y CDLI diwygiedig. Y cyngor felly sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff mesurau Categori 1 eu cyflawni. Bydd cyflwyno mesurau Categori 2 ehangach yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol na fydd cyflawni'r datblygiad y darperir ar ei gyfer yn y CDLI diwygiedig yn tanseilio nac yn rhwystro cyflawni amcanion cadwraeth yr ACA. Mae cyflawni mesurau Categori 2 ehangach yn gyfrifoldeb a rennir ar draws cyrrff statudol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn y pen draw ond mae gan CNC bwerau penodol sy'n gysylltiedig â gwella ansawdd dŵr a bydd ei rôl yn ganolog.

Yn y Cynllun Gweithredu, mae lefel y lliniaru sydd ei hangen wedi'i nodi, ynghyd â'r ystod o gyfleoedd presennol a chyfleoedd newydd posibl a allai gyflawni gostyngiadau ffosfforws. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o grantiau ac opsiynau ariannu presennol a strategaethau presennol ac arfaethedig sefydliadau fel y rhai a restrir ym Mluch 4.2. Ceir rhagor o fanylion am ffynonellau ariannu posibl yn y Cynllun Gweithredu¹⁵.

Mae amaethyddiaeth yn cyfrannu'n fawr at ffosffad i Afon Teifi ac Afon Tywi. Bydd mesurau Categori 2 yn darparu cymorth ychwanegol i roi'r hyder y bydd mesurau Categori 1 yn effeithiol mewn amgylchedd â gormodedd o ffosfforws ac na fydd yn tanseilio cyflawniad yr amcanion cadwraeth a'r dyletswyddau cyfatebol o dan Erthygl 6(1) a 6(2). Maent hefyd yn darparu cyfleoedd i ddatblygwyr weithredu ymlaen llaw i fesurau Categori 1 os yw eu hamserlenni ar gyfer deiliadaeth yn gofyn am fesurau lliniaru ychwanegol.

Disgrifir mesurau categori 2 a allai fod ar gael i gefnogi lleihad ffosffad yn nalgylchoedd Teifi a Tywi isod.

5.6.1.1 Plannu Coed a Choetir

Mae Gwybodaeth Cymru ar gyfer Atebion Seiliedig ar Natur (WINS) CNC⁴⁵ wedi cynhyrchu set ddata sy'n dangos cyfleoedd i blannu coetiroedd ledled Cymru. Mae hyn yn llywio trafodaeth ar y ffordd orau o wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru o greu 2,000 hectar o goetir newydd y flwyddyn o 2020, gan godi i 4,000 hectar y flwyddyn cyn gynted â phosibl. Dangosodd y set ddata y gallai De-orllewin Cymru ddarparu ~6000 ha o goetir, gyda thros hanner ohonynt wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin.

5.6.1.2 Clustogfeydd Integredig

Canfuwyd bod Clustogfeydd Integredig neu Stribedi Hidlo Llystyfiant yn effeithiol wrth waredu ffosfforws o ddŵr ffo amaethyddol. Canfu astudiaeth gan Zreig et al 2003⁴⁶ mai hyd/lled hidlydd a gafodd yr effaith uchaf a mwyaf arwyddocaol ar waredu ffosffadau tra bod cyfradd mewnlif, y math o llystyfiant, a dwysedd gorchudd llystyfiant wedi cael dylanwadau eilaidd. Effeithlonrwydd trapio ffosfforws yr hidlyddion 2-, 5-, 10-, a 15-m-o hyd oedd 32, 54, 67, a 79%, yn y drefn honno. Er bod hidlyddion byr (5 m) yn eithaf effeithiol ar gyfer gwaredu gwaddodion, nid ydynt yn effeithiol iawn ar gyfer gwaredu ffosffadau. Ar gyfer trapio gwaddodion, nid yw cynyddu hyd hidlydd y tu hwnt i 15 m yn effeithiol o gwbl wrth gynyddu faint o waddodion a waredir, ond

⁴⁴ Ar gael yn: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2021/1434.html> [Cyrchwyd 19/01/2024]

⁴⁵ CNC. [Gwybodaeth Cymru ar gyfer Atebion Seiliedig ar Natur \(WINS\)](#)

⁴⁶ Abu-Zreig, M., Rudra, R.P., Whiteley, H.R., Lalonde, M.N. and Kaushik, N.K., 2003. Phosphorus removal in vegetated filter strips. *Journal of environmental quality*, 32(2), pp.613-619.

disgwylir i hyn gynyddu ymhellach faint o ffosffadau a waredir. Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn i raddau helaeth gan sylfaen dystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer sribedi⁴⁷ clustogi 3D mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r Dewislen Liniaru hefyd yn dod i'r casgliad bod y gyfradd gwaredu maetholion cyfanswm ffosffadau ar gyfer clustogfeydd afonol rhwng 31-99% yn dibynnu ar y lled. Wrth gwrs, ceir manteision amgylcheddol eraill megis mwy o oeri goddefol a dal a storio carbon yn gysylltiedig â chlustogfeydd integredig coetir.

Mae'r modelau a'r mapiau o'r risg o golli maetholion yn Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin⁴⁸ yn darparu gwybodaeth ofodol ynghylch camau ataliol a lliniaru ar golli maetholion a chyfoethogi maetholion ledled y siroedd. Yn Sir Gaerfyrddin, mae cyfleoedd ar gyfer sribedi clustogi wedi'u nodi i lawr yr afon o ardaloedd sydd â chyfraddau uchel o golli maetholion. Ar hyd Afon Tywi, mae dros 23,000ha o sribedi clustogi wedi'u nodi, gyda 5000ha ar hyd Afon Teifi.

Mae blwch 5.1 yn dangos enghraifft o gyfleoedd sribed clustogi ar ffermydd sy'n eiddo i'r cyngor ar hyd Afon Tywi a gellid gweithredu gwaith tebyg yn nalgylchoedd Afon Teifi.

5.6.1.3 SuDS

Mae Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 Cymru⁴⁹, a ddaeth i rym 7 Ionawr 2019, yn amlinellu'r safonau a'r gofynion SuDS gorfodol y mae angen i ddatblygwyr eu bodloni cyn cael cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo SuDS (SAB). Bydd rhoi ystyriaeth gynnar i'r manteision a'r cyfleoedd⁵⁰ lluosog posibl yn helpu i gyflawni cynlluniau SuDS cost effeithiol gyda'r canlyniadau gorau. Felly, ochr yn ochr â dewislen liniaru CNC, gallai cynlluniau SuDS trefol ddarparu modd ychwanegol o waredu maetholion.

Mae nifer o bolisïau, cynlluniau a phartneriaid a allai gefnogi'r mesurau hyn. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r atebion posibl hyn – er enghraifft, prosiect Taclo'r Tywi,⁵¹ sy'n cael ei gynnal gan CNC gyda llu o bartneriaid cyflawni. Nod y prosiect yw gwneud gwelliannau i ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Gan weithio gyda phartneriaid, y nod yw rheoli pob agwedd ar yr amgylchedd mewn ffordd fwy cynaliadwy, fel y gall Afon Tywi barhau i gefnogi amaethyddiaeth, coedwigaeth, bioamrywiaeth, twristiaeth a hamdden nawr ac yn y dyfodol.

⁴⁷ Environment Agency (2020) [3D buffer strips: designed to deliver more for the environment](#).

⁴⁸ Environment Systems Ltd (April 2022) Modelling and Mapping Nutrient Loss Risk in Pembrokeshire, Ceredigion and Carmarthenshire.

⁴⁹ [Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010](#).

⁵⁰ [Manteision SuDS \(susdrain.org\)](#)

⁵¹ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Taclo'r Tywi – Ynglŷn â'r prosiect](#)


Blwch 5.1: Mesurau Categori 2 ar Ffermydd sy'n eiddo i'r Cyngor – Stribedi Clustogi Afonol.

Amaethyddiaeth yw'r brif ffynhonnell o gyfoethogi maetholion yn nalgylch Afon Tywi. Unwaith y maent wedi'u symud o darddle penodol, gall maetholion gael eu cludo ymhell i lawr y dalgylch, gan arwain at effeithiau pellgyrhaeddol i lawr yr afon. Mae Fforwm Arfordirol Sir Benfro (PCF) wedi gwneud gwaith modelu i ddadansoddi'r risg o ddŵr ffo/colli maetholion o dir ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn ogystal â chynhyrchu ardaloedd posibl ar gyfer stribedi clustogi afonol i liniaru colli maetholion a chyfoethogi maetholion.


Roedd y modelu'n archwilio'r cydadwaith rhwng y math o bridd a llethr wrth benderfynu ar y risg o erydiad, y gellir ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer colli maetholion. Tynnwyd y rhwydwaith sianeli hydrolegol o'r DTM a'i glustogi gan 10m i nodi ardaloedd lle gellid lleoli stribedi clustogi ochr yn ochr â sianeli, er mwyn lliniaru yn effeithiol yn erbyn colli maetholion. Yna cafodd ardaloedd coediog presennol, yn ogystal ag ardaloedd trefol a chyrff dŵr, eu cuddio o'r clustogfeydd i gynhyrchu maint terfynol y cyfleoedd clustogi.

Mae'r ffigurau isod yn dangos y cyfleoedd stribedi clustogi afonol posibl o fewn ffermydd sy'n eiddo i'r cyngor ar hyd Afon Tywi.

Fferm Bryngwyn a Fferm Devanah, Llangadog = 21 hecтар o gyfleoedd stribed clustogi afonol.



Fferm Bremenda Isaf, Fferm Penybanc Uchaf a Fferm Pistyllcelyn, Llanarthne = 15 hecтар o gyfleoedd stribed clustogi afonol.



5.6.2 Strategaeth Rheoli Maetholion Sir Gaerfyrddin

I gefnogi'r gwaith o waredu ffosffadau yn ehangach ac i gyflawni buddion amgylcheddol eraill comisiynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin Arcadis i gynhyrchu Strategaeth Rheoli Maetholion Sir Gaerfyrddin ym mis Medi 2023⁵². Roedd hyn yn cynnwys asesiad ychwanegol o ran y cyfleoedd lliniaru Categori 2 sydd ar gael ar gyfer rheoli maetholion a'r buddion cyfannol y gellid eu cyflawni trwy gymhwyso atebion seiliedig ar natur ar gyfer hyn. Dangos sut y gellir defnyddio atebion seiliedig ar natur i fynd i'r afael â thargedau lluosog ar gyfer strategaethau gwahanol o ganlyniad i'w buddion amlochrog. Roedd partneriaid cyflawni, partneriaid cyllido a rhanddeiliaid posibl hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r strategaeth hon. Cyflwynir enghraifft o'r cyllid sydd ar gael ym Mluch 5.2, mae gwybodaeth ychwanegol ar gael yn y Strategaeth.

Bydd y Strategaeth yn bwydo i mewn i'r ffordd y mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ymdrin â'u rheolaeth ar faetholion a bydd yn ganllaw pwysig ar gyfer ymateb integredig i'r heriau o gyflawni niwtraliaeth maetholion. Mae'r Matrics Mesurau Ymyrraeth a luniwyd fel rhan o'r strategaeth wedi'i atodi i'r Adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn (0).

Blwch 5.2: Enghreifftiau o sefydliadau a ariennir sy'n gweithio i wella ansawdd dŵr

Cyfoeth Naturiol Cymru:

- **Cymorth Grant Llywodraeth Cymru;** mae'r cyllid hwn ar gael i gyflwyno mesurau mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) er mwyn symud y rhywogaethau a chynefinoedd dynodedig yn nes at statws 'ffafriol'. Yn 2021, roedd y cyllid hwn yn Gronfa Bioamrywiaeth ac Ecosystemau flynyddol ac o 2022 bydd yn dod yn gronfa 'aml-flwyddyn'.
- **Cyllid Strategol a Ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru;** yn darparu cyllid ar gyfer cynllun pum mlynedd ar gyfer gwella cynefinoedd pysgod a physgod yng Nghymru. Mae'n hysbys bod y gronfa hon yn cael ei defnyddio mewn dalgylchoedd eraill yng Nghymru i gynnal mesurau dalgylch sy'n lleihau mewnbwn maethynnau i gyrsiau dŵr.
- **Cyllid Pysgodfeydd Cynaliadwy Ewropeaidd;** mae hwn ar gael ar gyfer bidiau ad-hoc blynyddol ar gyfer prosiectau penodol ac mae'n cynnwys mesurau dalgylch i leihau mewnbwn maethynnau i gyrsiau dŵr.
- **Cronfa Cyfalaf Ansawdd Dŵr Llywodraeth Cymru;** defnyddir hwn i ariannu gwelliannau mewn ansawdd dŵr megis lleihau maethynnau ar gyfer targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac, yn 2021, roedd £1.8 miliwn ar gael ar gyfer gwaith o'r fath.

Dŵr Cymru:

- Mae Dŵr Cymru yn derbyn cyllid trwy ei filiau cwsmeriaid trwy raglen pum mlynedd o'r enw Cynllun Rheoli Asedau. Mae'r cyllid hwn, sy'n werth miliynau o bunnoedd, yn cynnwys gwelliannau i weithfeydd trin carthion a gorlifiadau stormydd, gan arwain at lai o ffosfforws yn mynd i mewn i'r cyrsiau dŵr. Gall y sbardunau ar gyfer hyn gynnwys targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (ACA).
- Mae Dŵr Cymru wedi sicrhau bod Cronfa'r Amgylchedd ar gael, sy'n anelu at ddarparu cymorth ariannol i brosiectau a fydd o fudd i fioamrywiaeth yn safleoedd Dŵr Cymru, neu'n

⁵²Strategaeth Rheoli Maetholion Sir Gaerfyrddin (Ebrill 2024)

6 Gweithredu a Chyflawni

Mae'r adran hon yn nodi'r camau sydd eu hangen i weithredu a chyflawni'r mesurau lliniaru a amlinellir yn y ddogfen hon fel y gall datblygiad o fewn y CDLI diwygiedig ddechrau ochr yn ochr â'r gostyngiadau angenrheidiol mewn ffosfforws. Mae'r manylion llawn i'w cael yn y Cynllun Gweithredu.

6.1 Rôl Byrddau Rheoli Maetholion a Chynlluniau Rheoli Maetholion

Mae CNC a Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddyd clir ar rôl a swyddogaeth y Bwrdd Rheoli Maetholion, yn ogystal â chydweithio i ddarparu lefelau digonol o gyllid ar gyfer 2023-24 a 2024-25 ac yna archwilio opsiynau cyllido yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd Rheoli Maetholion yn gyfrifol am nodi a gweithredu camau sy'n cyrraedd targed cadwraeth afon, a ystyrir yn ACA, sy'n ffafriol o ran ffosfforws, yn ogystal â diwallu anghenion economaidd-gymdeithasol ei chymunedau cyfagos. Mae tri Bwrdd Rheoli Maetholion wedi cael eu ffurfio yng ngorllewin Cymru; Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Tywi, Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Cleddau a Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Teifi.

Nhw yw'r cyrff sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr Amcanion Cadwraeth yn cael eu chyflawni ar gyfer y Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a byddant yn darparu goruchwyliaeth a chyfeiriad i bawb sy'n ymwneud â chyflawni'r Cynllun Rheoli Maetholion.

Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu bron i £1.5 miliwn o gyllid i alluogi'r Byrddau Rheoli Maetholion i gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Maetholion. Y cynlluniau hyn, o'u rhoi ar waith, yw'r dull a ddefnyddir gan Fyrddau Rheoli Maetholion i wella ansawdd dŵr er mwyn adfer a gwarchod statws cyflwr ffafriol ar afonydd ACA, gan hefyd ganiatáu i ddatblygiad barhau o fewn y dalgyloedd hyn heb gynyddu'r llwyth ffosfforws. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r angen dybryd i alluogi mwy o dai fforddiadwy i gael eu hadeiladu nawr, a hynny ar yr un pryd â gwneud cynnydd ar wella iechyd afonydd a chyflawni statws cadwraeth ffafriol.

Mae'r Cynllun Rheoli Maetholion yn nodi ffynonellau maetholion sy'n mynd i mewn i'r afon a'r camau y gellir eu cymryd i'w rheoli.

Mae'r Cynllun Rheoli Maetholion yn cynnwys tair rhan:

- sylfaen dystiolaeth (derfynol)
- arfarniad opsiynau (terfynol)
- cynllun gweithredu (fersiwn gyntaf)

Bydd y Cynlluniau Rheoli Maetholion hyn hefyd yn cadarnhau'r ymdrechion a wneir o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gan fod gwaith sylweddol eisoes yn mynd rhagddo ledled dalgyloch afon Teifi i wella ansawdd dŵr. Er enghraifft, fis Tachwedd 2023 lansiodd CNC fenter aml-flwyddyn newydd, sef prosiect 'Dalgyloch Arddangos Teifi'⁵³. Mae hwn yn brosiect cydweithio ar draws sectorau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o wella'r gwaith o reoli dŵr yn dalgyloch afon Teifi. Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid i nodi lansiad y prosiect, wedi'i gynnull gan Gadeirydd CNC, Syr David Henshaw. Roedd partneriaid allweddol yn bresennol gan gynnwys Ymddiriedolaethau Afonydd, Dŵr Cymru, yr Undebau Ffermio a'r Awdurdodau Lleol.

⁵³ Cyfoeth Naturiol Cymru / Mynd i'r afael â'r Afon Teifi – tîrffeddiannwyr, diwydiannau a rheoleiddwyr yn ymuno ar gyfer prosiect peilot 'dalgyloch arddangos'

Bydd yn ategu ac yn cefnogi'r gwaith da sydd eisoes yn digwydd yn y dalgylch, gan adeiladu ar brosiectau adfer afonydd uchelgeisiol presennol fel ein Prosiect Pedair Afon LIFE⁵⁴ a gwaith Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Teifi.

Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â meddwl yn wahanol a defnyddio atebion arloesol i wneud i bethau ddigwydd, gan ganolbwyntio ar sut y gellir dangos gwerth ac ychwanegedd. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn nalgylch afon Teifi yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu model 'arfer gorau' y gellir ei ailadrodd ar draws dalgylchoedd Cymru gyfan. Bydd y prosiect hwn yn rhan o'r dull cyfannol ehangach i wella ansawdd dŵr ac ecoleg afonol.

Mae Cynlluniau Rheoli Maetholion wedi'u comisiynu ar gyfer pob un o'r tair ACA yn Sir Gaerfyrddin a byddant yn cael eu cyflwyno yn 2024.

6.2 Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr

6.2.1 Beth yw Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr?

Un dull posibl a allai helpu i wireddu'r mesurau lliniaru sydd eu hangen i hwyluso'r CDLI diwygiedig yw Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr. Byddai Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr yn berthnasol i'r holl ddatblygiadau preswyl y rhagwelir y byddant yn arwain at gynydd net mewn llwyth ffosforws a ollyngir naill ai i ACA Afon Teifi neu i ACA Afon Tywi lle mae angen niwtraliaeth maetholion.

Gwneir cyfraniad datblygwr gan dirfeddiannwr neu ddatblygwr i sicrhau, pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd, fod unrhyw effaith ar yr amgylchedd yn unol â rhwymedigaeth reoleiddio briodol a bod y seilwaith sy'n angenrheidiol i gefnogi'r datblygiad yn cael ei ddarparu. Drwy sicrhau'r cyfraniadau hyn, gall awdurdodau cynllunio helpu i wella ansawdd a chynaliadwyedd cynlluniau datblygu unigol a'u derbynioldeb i gymunedau lleol.

Byddai Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr yn darparu dull strategol o liniaru sy'n hwyluso'r gwaith o gyflawni datblygiad newydd o fewn y dalgylchoedd. O dan Gynllun Cyfraniadau Datblygwyr, mae costau lliniaru ffosforws yn cael eu cyfateb yn gyfrannol i bob datblygiad yn seiliedig ar y ffosforws ychwanegol a gynhrychir. Byddai angen datblygu Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr ochr yn ochr â mabwysiadu CDLI diwygiedig gyda chanllawiau atodol os yn briodol.

Argymhellir bod Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr yn cael ei baratoi gyda rhanddeiliaid allweddol, fel un o'r mesurau o fewn ACA Afon Teifi, gyda'r dull hwn i'w gadarnhau ar Afon Tywi pe bai angen niwtraliaeth maetholion.

Dylid ei gyflawni ochr yn ochr â mesurau ehangach eraill o fewn cylch gwaith y Bwrdd Rheoli Maetholion a benodwyd yn ddiweddar. Argymhellir bod unrhyw Gynllun Cyfraniadau Datblygwyr yn cael ei baratoi fel dogfen "fyw" h.y. un sy'n datblygu'n iteratid wrth i'r sylfaen dystiolaeth newid neu os yw'r costau sy'n gysylltiedig â mesurau lliniaru yn newid.

Ymhellach i'r uchod, mae'n bwysig cydnabod nad Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr yw'r unig ffordd o sicrhau cyllid ar gyfer lliniaru. Fel y nodir yn y Matrics Mesurau Ymyrryd yn 0, mae sawl ffordd ariannu ar gael ar gyfer lliniaru ffosforws yn y dalgylchoedd, yn enwedig wrth ystyried y manteision niferus sydd gan rai atebion sy'n seiliedig ar natur, megis gwlyptiroedd adeiledig. Yma, rhaid i'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr fod yn hyblyg eto i sicrhau, wrth i gyllid gael ei sicrhau trwy ddulliau eraill, bod y costau a ddosrennir i ddatblygiad yn cael eu haddasu'n briodol.

Yn olaf, ni ddylid ystyried y Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr fel yr unig opsiwn sydd ar gael i ddatblygwyr wrth ddod â safleoedd ymlaen trwy'r CDLI diwygiedig. Wrth wneud cais, gallai datblygwr ofyn i'r awdurdod asesu

⁵⁴ Prosiect Pedair Afon LIFE

eu cais ar wahân i'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr. Felly, byddai'r cyngor yn parhau i fod yn agored i ystyried unrhyw gynigion lliniaru pwrpasol a gyflwynwyd fesul achos. O ganlyniad, ni fyddai'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr yn destun ymgynghoriad cyhoeddus; yn hytrach, byddai'n cynrychioli ffordd ymlaen y cytunwyd arni, ond nid yr unig opsiwn sydd ar gael i ddatblygwyr wrth sicrhau'r gwaith lliniaru ffosforws sy'n ofynnol ar gyfer eu datblygiad.

Opsiwn arall i alluogi datblygwyr i wneud cyfraniad ariannol tuag at ostwng ffosffadau yw drwy sefydlu cynllun credydau ffosffad. Lle caiff cynllun lliniaru ffosffadau ar wahân ei adeiladu oddi ar y safle dan arweiniad y cyngor, gall datblygwyr wneud cyfraniad ariannol trwy brynu credydau o gynllun cysylltiedig y cyngor i wrthbwysu unrhyw lwyth ffosffadau ychwanegol o'u datblygiad. Defnyddiwyd cynlluniau credydau ffosffad o'r fath yng Ngwlad yr Haf a hefyd yn Swydd Henffordd lle prisiodd y Cyngor gredydau ar gyfradd o £14,000 (+TAW) fesul cilogram o wrthbwysu sy'n ofynnol bob blwyddyn i fodloni niwtraliaeth yn ACA Afon Lugg⁵⁵.

Caiff manylion y cyfrifiadau i lywio'r cyfraniadau ar gyfer pob datblygiad eu cyflwyno yn y Cynllun Gweithredu.

6.2.2 Rolau a Chyfrifoldebau'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr

Yr Awdurdod Cynllunio Lleol fyddai'n gyfrifol am y Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr. Byddai CNC yn rhan o ymgynghoriad wrth baratoi'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr yn rhinwedd eu rôl fel corff cadwraeth natur priodol sy'n rhoi cyngor ar Reoliadau Cynefinoedd. Dylid gofyn am gyngor gan CNC ar agweddau technegol penodol ar y Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr e.e. datblygu canllawiau ynghylch cyfrifo arbedion ffosforws o fesurau lliniaru.

6.2.3 Sbardunau Polisi'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr

Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr 2^{il} CDLI diwygiedig Adneuo (2018-2033) ym mis Chwefror 2023. Bydd polisi strategol "SP9: Seilwaith" yn sbardun polisi allweddol. Mae'r polisi strategol cyffredinol hwn yn cefnogi egwyddorion rhwymedigaethau cynllunio wrth ystyried yr angen i gynigion datblygu ddangos bod digon o gapasiti yn y seilwaith presennol i gyflawni a chefnogi'r datblygiad arfaethedig. Pan na ellir cyflawni hyn, bydd angen i'r cynigion ddangos bod trefniadau addas ar waith i ddarparu'r capasiti isadeiledd angenrheidiol i gyflawni a chefnogi'r datblygiad.

O fewn y polisi hwn, cyfeirir yn benodol at wasanaethau cyfleustodau, yn ogystal â bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd. O dan yr elfennau hyn, gellid ystyried lliniaru ffosforws a gallai Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr ddarparu'r dull i ddatblygwyr asesu lefel eu cyfraniad sydd ei angen tuag at fesurau lliniaru penodol.

Mae Polisi Strategol "SP12: Creu Lleoedd, Lleoedd Cynaliadwyedd" hefyd yn cynnig dull defnyddiol i sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu'n gadarnhaol at reoli maetholion o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Teifi a Tywi. O fewn y polisi hwn mae angen amddiffyn neu wella bioamrywiaeth. Byddai hyn yn golygu bod angen i ddatblygiadau ystyried y ffosforws ychwanegol a gynhyrchir gan eu datblygiad a darparu mesurau i liniaru yn unol â hynny. Ymhellach, byddai hyn yn sicrhau bod datblygwyr yn ystyried mesurau lliniaru ar y safle megis SuDS fel mater o safon.

O ran SuDS, mae angen cael dealltwriaeth well o'u cyfraniad tebygol tuag at leihau ffosforws. Dylid ystyried hyn yn unol â chanllawiau newydd (gweler Adran 7.1 y Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion¹⁵) ac os rhoddir mwy o sicrwydd ar y potensial i SuDS gael gwared â ffosforws ac os derbynnir hyn gan CNC, gallai datblygwyr gyflwyno cynlluniau ar gyfer mesurau lliniaru ar y safle sy'n lleihau'r hyn sy'n ofynnol iddo ei wneud i liniaru oddi ar y safle. Fel y trafodwyd yn flaenorol, rhaid i unrhyw Gynllun Cyfraniadau Datblygwyr a gyflwynwyd fod yn hyblyg i'r cynigion hyn fel bod costau'n gyfrannol ac yn cynnig opsiynau i ddatblygwyr gyflwyno eu mesurau lliniaru eu hunain i ddiogelu'r amgylchedd naturiol.

⁵⁵ Herefordshire Council (2023) [Phosphate Credit FAQs \(herefordshire.gov.uk\)](https://www.herefordshire.gov.uk) [Cyrchwyd 19/01/2024]

Mae Polisi Strategol "CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr" hefyd yn gosod gofyniad ar ddatblygiadau sy'n unol â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer lliniaru ffosforws.

Yn hyn o beth, mae'r dulliau polisi i sicrhau bod y mesurau lliniaru ffosforws priodol sydd eu hangen yn cael eu cyflawni eisoes yn bodoli, ac maent yn glir yn eu cylch gwaith. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cadarnhau hyn a bydd rhwymedigaethau cynllunio yn cael eu gweithredu wedyn. Yna byddai Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr yn galluogi datblygwyr i gyflwyno eu safleoedd a hynny wrth gyfrannu tuag at y mesurau lliniaru angenrheidiol.

6.2.4 Rhwymedigaethau Cynllunio Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr

Fel arfer rheol caiff cyfraniadau datblygwyr eu sicrhau trwy "rwymedigaeth gynllunio". Mae hyn yn ymrwymiad cyfreithiol gan y datblygwr i sicrhau cyfraniad (ar ffurf arian parod neu mewn da) at fynd i'r afael â'r anghenion cymunedol, seilwaith neu amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. Gall fod yn gytundeb dwyochrog rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r datblygwr, neu'n ymgymeriad unochrog gan y datblygwr i ddarparu'r un peth. Mae'r rhain yn rhan briodol a chydabyddedig o'r system gynllunio ac fel arfer cânt eu gwneud o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Gellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau buddion ar y safle datblygu ei hun neu ar safleoedd addas eraill sy'n agos at y datblygiad arfaethedig (cyn belled â'u bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad). Efallai y gofynnir i ddatblygwyr wneud taliad arian i'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol, i'w wario ar fuddion y cytunwyd arnynt neu i'w cynnal.

Yn hanesyddol, mae rhwymedigaethau cynllunio wedi tueddu i gael eu defnyddio i sicrhau gwelliannau seilwaith o nifer cyfyngedig o safleoedd yn unig. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r effeithiau ar Afon Tywi ac Afon Teifi, mae'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr yn darparu dull strategol o wrthbwysio effeithiau negyddol datblygiad ac mae'n cynnwys dull o ennill cyfraniadau gan bob datblygiad newydd sy'n cysylltu â'r prif ddraenau, a datblygiad nad yw'n cysylltu â'r prif ddraenau lle ystyrir bod hynny'n briodol.

Gellir sicrhau cyfraniadau'r datblygwr yn rhesymol mewn perthynas â:

- Gweithredu mesurau'n wirioneddol (h.y. costau i wneud y gwaith mewn gwirionedd);
- Adnoddau staff i oruchwylio a chydlynu'r gwaith;
- lawndal i dirfeddianwyr lle mae mesurau'n cynnwys newid defnydd;
- Cynnal a rheoli mesurau lliniaru yn y tymor hir (am byth); a
- Monitro effeithiolrwydd mesurau lliniaru.

Mewn egwyddor, gellid defnyddio rhwymedigaethau cynllunio i ariannu gwelliannau i weithfeydd trin dŵr gwastraff, yn enwedig pe bai datblygiad yn dod ymlaen cyn gwaith uwchraddio arfaethedig i weithfeydd trin dŵr gwastraff. Mae angen trafodaethau pellach gyda'r ymgymerwr dŵr statudol, Dŵr Cymru a CNC fel rheoleiddiwr cyn gwneud unrhyw ymrwymiad i'r perwyl hwn.

Mae rheoliad 123 o'r Rheoliad Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) yn atal rhwymedigaethau cynllunio rhag cael eu gosod ar gyfer "seilwaith", os ymrwymwyd i bump neu fwy o rwymedigaethau cynllunio ar wahân sy'n darparu ar gyfer y cyllid neu os darparwyd y math hwnnw o seilwaith ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010. Fodd bynnag, y mesurau i'w hariannu drwy'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr yw "mesurau diogelu'r amgylchedd" ac maent y tu allan i'r diffiniad o seilwaith (S 216 (1) Deddf Cynllunio 2008) felly nid ydynt yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cyfuno.

6.2.5 Monitro'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr a'i Gyflwyno'n Raddol

Bydd angen rheoli a monitro cyllidebau ffosforws yn ystod y CDLI mabwysiedig i gadarnhau bod digon o fesurau lliniaru. Am nifer o resymau gallai fod angen cyllidebu ffosforws ychwanegol e.e. dyrennir cyllideb ar gyfer caniatadau, ond ni chaiff caniatadau eu dechrau/eu cwblhau, neu mae'r tai a gyflenwir yn fwy nag amserlen gyflenwi'r CDLI. Bydd y gwaith monitro yn rhoi rhybudd ymlaen llaw os oes angen rhyddhau

mesurau lliniaru ychwanegol. Efallai y byddai'n briodol rheoli lliniaru wrth ddatblygu 'fffenestri' sy'n cyfateb i amserlen gyflenwi'r CDLI, mae hyn yn fater i'w bennu wrth baratoi Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr.

Ni roddir caniatâd i unrhyw ddatblygiadau newydd oni bai bod y mesurau lliniaru gofynnol wedi'u dangos drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect a gyflawnir i'r lefel briodol.

Ceir ystod o opsiynau yn ogystal â atebion seiliedig ar natur a allai ddarparu mesurau lliniaru tymor byr ymlaen llaw i atebion tymor hwy, os oes angen gweler y Matrics Mesurau Ymyrryd 0.

Bydd cyllid rhwymedigaeth gynllunio yn cael ei gyfuno i gyflawni unrhyw un o'r mesurau lliniaru o fewn ystod o fesurau'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dyrannu cyllid i'r mesurau er mwyn sicrhau bod modd cyflawni safleoedd yn raddol gyda meddiannaeth y cynigion.

6.1 Amodau Grampian

Mae Amodau Grampian yn darparu modd o sicrhau mesurau lliniaru. Mae Amod Grampian yn gwahardd datblygiad a awdurdodir gan y caniatâd cynllunio neu agweddau eraill sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio (yn achos defnydd preswyl, meddiannu'r datblygiad) hyd nes y cymerir camau penodol (yn yr achos hwn darparu pecyn osgoi a lliniaru). Ni ddylid defnyddio amodau o'r fath lle nad oes unrhyw ragolygon o gwbl bod y camau dan sylw yn mynd i gael eu cyflawni o fewn y terfyn amser a osodir gan y caniatâd, nad yw'n cael ei ragweld yn yr achos hwn.

6.2 Ffynonellau Ariannu Ychwanegol

Wrth ddelio â mewnbynnau ffoffad gwasgaredig ehangach, mae nifer o ddulliau cyllido eraill ar gael. Mae'r Matrics Mesurau Ymyrryd yn 0 yn nodi ffynonellau cyllid posibl sydd ar gael ar gyfer pob ymyrraeth. Mae'r ffrydiau ariannu allweddol y dylid eu hystyried wedi'u nodi isod:

6.2.1 Llywodraeth Cymru

- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i gefnogi gwaith byrddau rheoli maetholion, gyda hyd at £415k ar gael yn 2022-23 a darpariaeth ychwanegol yn 2023-24 a 2024-25; yn ogystal â £40m o gyllid dros y tair blynedd nesaf i fynd i'r afael â phroblemau ansawdd dŵr ledled Cymru.
- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau bach ar gyfer tirwedd a phryfed peillio sy'n cefnogi'r economi wledig a'r broes o bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu gwerth miliynau o bunnoedd o gyllid i ffermwyr yng Nghymru i gyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol, gan gynnwys lleihau maetholion sy'n mynd i mewn i gyrsgiau dŵr. Darperir cyllid hefyd i Cyswllt Ffermio sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i ffermwyr ar leihau dŵr ffo maetholion.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Prosiect Llaeth CNC ledled Cymru sy'n cyflogi swyddogion i ymweld â ffermydd llaeth i roi cyngor ac arweiniad ar ffyrdd o leihau llygredd amaethyddol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Cronfa Rhwydwaith Natur ac mae hyn wedi darparu adnoddau CNC mewn dalgyloedd ACA eraill i gynnal ymchwiliadau ac ymweliadau i leihau mewnbynnau maetholion i'r cyrsiau dŵr

6.2.2 Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru

- Cymorth Grant Llywodraeth Cymru; mae'r cyllid hwn ar gael i gyflwyno mesurau mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig er mwyn symud y rhywogaethau a chynefinoedd dynodedig yn nes at statws 'ffafriol'. Yn 2021, roedd y cyllid hwn yn Gronfa Bioamrywiaeth ac Ecosystemau flynyddol ac o 2022 bydd yn dod yn gronfa 'aml-flwyddyn'.

- Mae CNC yn cynnig grantiau ar gyfer plannu coed a choetir⁵⁶
- Cyllid Strategol a Ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru; yn darparu cyllid ar gyfer cynllun pum mlynedd ar gyfer gwella cynefinoedd pysgod a physgod yng Nghymru. Mae'n hysbys bod y gronfa hon yn cael ei defnyddio mewn dalgylchoedd eraill yng Nghymru i gynnal mesurau dalgylch sy'n lleihau mewnbwn maethynnau i gyrsiau dŵr.
- Cyllid Pysgodfeydd Cynaliadwy Ewropeaidd; mae hwn ar gael ar gyfer bidiau ad-hoc blynyddol ar gyfer prosiectau penodol ac mae'n cynnwys mesurau dalgylch i leihau mewnbwn maethynnau i gyrsiau dŵr.
- Cronfa Cyfalaf Ansawdd Dŵr Llywodraeth Cymru; defnyddir hon i ariannu gwelliannau mewn ansawdd dŵr megis lleihau maethynnau ar gyfer targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac, yn 2021, roedd £1.8 miliwn ar gael ar gyfer gwaith o'r fath.

6.2.3 Dŵr Cymru

- Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Dŵr Cymru gynlluniau i wella eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff ledled Cymru yn unol â'u Rhaglenni Trwyddedu Ffosfforws, gan ddatgan gwariant o £100m ar wella ansawdd dŵr afonydd, a bydd £60m ohono ar gyfer tynnu ffosfforws o waith trin dŵr gwastraff ar afonydd ACA megis Afon Teifi (Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder).
- Mae Dŵr Cymru yn derbyn cyllid trwy ei filiau cwsmeriaid trwy raglen pum mlynedd o'r enw Cynllun Rheoli Asedau. Mae'r cyllid hwn, sy'n werth miliynau o bunnoedd, yn cynnwys gwelliannau i weithfeydd trin carthion a gorlifiadau stormydd, gan arwain at lai o ffosfforws yn mynd i mewn i'r cyrsiau dŵr. Gall y sbardunau ar gyfer hyn gynnwys targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (ACA).
- Mae Dŵr Cymru wedi sicrhau bod Cronfa'r Amgylchedd ar gael, sy'n anelu at ddarparu cymorth ariannol i brosiectau a fydd o fudd i fioamrywiaeth yn safleoedd Dŵr Cymru, neu'n agos atynt, ac yn eu gwella. Mae Dŵr Cymru hefyd yn galluogi gwlyptiroedd a ariennir gan drydydd partïon lle mae elifiant yng ngwaith trin carthion Dŵr Cymru yn cael ei gyfeirio at wlyptir at ddibenion caboli ychwanegol ar gyfer tynnu ffosfforws. Sylwch – dim ond yn Lloegr y mae hwn ar hyn o bryd.

6.2.4 Ofwat PR24

- Mae Adolygiad Pris 2024 (PR24) yn y broses o gael ei greu gan Ofwat, gyda'u penderfyniadau terfynol i gael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024⁵⁷. Bydd hyn yn pennu lefelau gwasanaeth a biliau cwmnïau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer 2025 i 2030.
- Mae rhai o'r themâu allweddol y mae Ofwat yn anelu at fynd i'r afael â nhw yn y PR24 yn cynnwys ffocws cynyddol ar yr effeithiau hirdymor a chyflwyno mwy o werth amgylcheddol a chymdeithasol. Pwysleisiodd Ofwat y defnydd o atebion seiliedig ar natur wrth wneud cyfrif am y nodau hyn yn ogystal â sut y gallant helpu llywodraethau Cymru a'r DU i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050.
- Er enghraifft, maent yn tynnu sylw at wasanaethau cyllido sef yr ateb 'bywyd cyfan gorau' sy'n ystyried y tymor hir y tu hwnt i gyfnod 2020-2025, yn hytrach nag ariannu'r opsiwn rhataf.
- Tynnodd Ofwat sylw hefyd at y cyfle i ennill cyllid y tu allan i'r Adolygiad Pris lle mae pwysau o ran cynnal enw da yn gryf a lle nad oes angen cyllid y tu hwnt i welliannau a ddarperir gan lwfans cost sylfaenol Dŵr Cymru.
- Mae Ofwat yn awyddus i ddatblygu'r dull PR19 blaenorol ar gyfer ariannu gwaith cynnal a chadw cyfalaf a chynnal iechyd asedau yn PR24. Ar gyfer y PR19, roedd Gwytnwch yn thema allweddol a ddarparodd Ofwat £13 biliwn o gyllid yn y maes hwn er mwyn i gwmnïau gynnal gwasanaethau sylfaenol ac i wneud gwelliannau lle roedd tystiolaeth dda drostynt. O ystyried yr atebion seiliedig ar natur a gynigiwyd yn y Cynllun Gweithredu a'u manteision hirdymor posibl, mae'r PR24 yn gyfle i gael cyllid ychwanegol

⁵⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru / Grantiau ar gyfer plannu coed a chreu coetiroedd

⁵⁷ Ofwat (2021) PR24 and beyond: Creating tomorrow, Together (Mai 2021)

sylweddol ar gyfer y mesurau Categori 2 i gefnogi gostyngiad pellach mewn ffosffadau yn y dalgylch ehangach.

Argymhellir bod y Bwrdd Rheoli Maetholion yn archwilio'r ffynonellau cyllid ychwanegol hyn yn gynnar ac yn dechrau gwneud ceisiadau am gyllid wrth i gynlluniau manylach ddod i'r amlwg ar gyfer y cyfleoedd lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

6.3 Rheoli a Monitro

Gall y Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiol yn cael eu cymryd ynghyd â chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cynefinoedd trwy'r ffyrdd canlynol:

- Arbenigwyr a swyddogion perthnasol sy'n sicrhau bod camau lliniaru digonol yn cael eu rhoi ar waith i gyflawni'r gostyngiadau sy'n ofynnol ar gyfer y CDLI;
- Monitro mesurau yn barhaus er mwyn asesu'r gostyngiadau gwirioneddol a gyflawnwyd ar ôl eu rhoi ar waith; a
- Monitro'r ACA i sicrhau nad yw effeithiau cyfunol CDLIau eraill a/neu ffynonellau llygredd gwasgaredig yn fwy na'r targedau.

Gall hyn gael ei yrru gan y Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr a'r Cynlluniau Rheoli Maetholion a ddatblygwyd rhwng y rhanddeiliaid perthnasol gan y Bwrdd Rheoli Maetholion i sicrhau iechyd hirdymor Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yn Sir Gaerfyrddin.

6.4 Llwybr i gyrraedd targedau

Ceir gwahanol ddulliau o weithredu'r cyfleoedd lleihau gostwng a nodwyd sy'n amrywio o:

- Sicrhau cyllid drwy'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr a chyfleoedd eraill fel y trafodwyd yn yr adroddiad hwn a'r Cynllun Gweithredu;
- Darparu cyngor ar ffynonellau cyllido, arfer gorau, ac atebion effeithiol a ddarperir yn Strategaeth Rheoli Maetholion Sir Gaerfyrddin⁵²;
- Hyrwyddo dulliau cyd-gyflawni i sicrhau'r cyfleoedd a'r buddion ehangach mwyaf posibl drwy gydweithio a meithrin ymddiriedaeth a hyder rhanddeiliaid, a gyflawnir drwy'r Byrddau Rheoli Maetholion;
- Ymarfer offer rheoleiddio sydd o fewn pŵer OFWAT, CNC, yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru; a
- Rheoli a monitro'r camau a'r llwyddiant

Mae Tabl 15 isod yn amlinellu cerrig milltir dangosol yn unol â dealltwriaeth gyfredol Arcadis. Argymhellir bod hyn yn cael ei adolygu gyda'r cyngor mewn gweithdy i boblogi a chadarnhau'r cerrig milltir hyn ac amlinellu'r ffyrdd o sicrhau y cedwir atynt.

Tabl 15 - Cerrig Milltir Dangosol

Carreg Filltir	Sylwadau	Dyddiad Cwblhau
Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu	Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu i ganiatáu i rhanddeiliaid ddeall y mesurau lliniaru strategol a gynlluniwyd yn unol â'r CDLI diwygiedig. Bydd y Cynllun Gweithredu yn darparu gwybodaeth fanwl ynghylch cyflawni, costau, monitro a chynnal a chadw gan alluogi'r cyngor i ddatblygu mesurau strategol.	Mawrth 2024
Adolygu'r taflwybr tai	Amcangyfrifir bod yr adolygiad nesaf o'r taflwybr tai ar gyfer CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin yn digwydd ym mis Mehefin 2024. Gall hyn symud y gwaith o gyflawni datblygiadau ymhellach i'r dyfodol, a allai newid y dyddiadau gofynnol ar gyfer mesurau lliniaru. Dylid adolygu hyn a rhoi cyfrif	Tua Mehefin 2024

Carreg Filltir	Sylwadau	Dyddiad Cwblhau
	amdano yn y Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau bod mesurau lliniaru yn canolbwyntio ar ryddhau'r datblygiadau sydd i fod i gael eu cyflawni gynharaf.	
Ystyried effeithiau'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr	Ar ôl cadarnhau'r taflwybr tai, bydd yn bosibl neilltuo cost i bob mesur lliniaru fesul Kg / blwyddyn o gyfanswm ffosffadau a waredir, gan ganiatáu i Gyngor Sir Caerfyrddin amcangyfrif gwerth credydau maetholion pe bai hyn yn ddull ariannu dewisol.	Gorffennaf 2024
Gwaith uwchraddio Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder	Bydd gwaith uwchraddio i weithfeydd trin dŵr gwastraff Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder yn effeithiol o 31 Rhagfyr 2025, gan ganiatáu datblygu Dyranïadau Safle sy'n cysylltu â'r gweithfeydd hyn.	Rhagfyr 2025
Ffenestr Ddatblygu 1 ^{af}	Bydd gwaith uwchraddio yn Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder yn caniatáu datblygu/meddiannu 40 uned sy'n gysylltiedig â 3 Dyranïad Safle o fewn y CDLI diwygiedig.	Ionawr 2026 - 2030
Cyflwyno gwlyptiroedd strategol	Yn seiliedig ar y taflwybr tai presennol (i'w gadarnhau ym mis Mehefin 2024), bydd angen darparu gwlyptiroedd strategol mewn tri lleoliad erbyn diwedd 2026 er mwyn caniatáu ar gyfer y datblygiadau sy'n weddill yn CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin.	Rhagfyr 2026
2 ^{il} Ffenestr Ddatblygu	Gellir datblygu/meddiannu'r 132 uned sy'n weddill sy'n gysylltiedig ag 11 ACA yn y CDLI diwygiedig.	Rhagfyr 2026 - 2031

7 Casgliad Cyffredinol

Mae'r adroddiad Adendwm hwn yn mynd i'r afael â pholisïau newydd CNC o ran safonau ffosfforws a chyngor cynllunio cysylltiedig.

Archwiliwyd unrhyw Gyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol sy'n ymwneud ag effeithiau ffosffadau ar ansawdd dŵr gyda golwg ar ffosfforws yn yr asesiad hwn. Cafodd yr holl Gyfeirnodau Diwygiadau Sylweddol eraill nad oeddent yn ymwneud ag ansawdd dŵr o ran lefelau ffosffadau yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig eu sgrinio allan. Trafodir y rhain yn Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033. Mae'r adroddiad hwn i'w ddefnyddio ar y cyd ag Adroddiad Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo 2018–2033.

Archwiliwyd y newidiadau i'r broses sgrinio Dyrannu Safleoedd a'r newidiadau a wnaed i bolisi CCH4, er mwyn dangos bod yr holl ddiwygiadau sydd wedi digwydd ers y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig adneuo cyntaf yn cael eu hystyried yn nhermau eu goblygiadau ar broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Amlygodd sgrinio'r naw ACA o fewn y dalgylch fod y Dyraniadau Safle arfaethedig yn cael llwybr effaith negyddol posibl ar Afon Teifi ac Afon Tywi yn unig. Mae cyfanswm y Dyraniadau Safle sydd â'r potensial i ryddhau ffosffadau i'r dalgylchoedd wedi cael ei leihau i 21 o safleoedd. Bellach, mae gan Afon Tywi 7 o Ddyraniadau Safle ac mae gan Afon Teifi bellach 14 o Ddyraniadau Safle.

Mae'r newidiadau a wnaed i bolisi CCH4, a elwid gynt yn bolisi CCH3, wedi cryfhau geiriad y polisi yn ddigonol o ran yr angen i ddangos dim effaith andwyol ar ACAau o ran ffosfforws a'r angen i gytuno ar fesurau lliniaru fesul achos rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a CNC.

Daeth cyllidebau maetholion y Dyraniadau Safle diwygiedig (gan ddefnyddio'r terfyn ffosffadau diwygiedig o 5 mg/l, neu is, lle bo hynny'n briodol) o fewn CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin i'r casgliad nad oedd potensial i'r CDLI gael effaith andwyol ar gyfanrwydd Afon Tywi naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill (gan nad yw'r un o'r CDLlau cyfagos, Cyngor Sir Ceredigion a Sir Benfro, yn draenio i mewn i Afon Tywi).

Mae hyn oherwydd nad yw'r ACA ar hyn o bryd yn methu yn erbyn ei thargedau cydymffurfiaeth ffosffadau ac nid yw'r swm ychwanegol o gyfanswm ffosffadau sy'n mynd i mewn i'r ACA o'r datblygiadau ychwanegol yn uwch na'r targed cyffredol. Mewn gwirionedd, amcangyfrifir mai cynnydd o 0.35% yn unig mewn cyfanswm ffosffadau a gyfrannir gan ddatblygiadau newydd y CDLI diwygiedig. Felly, gellir cymryd ymagwedd hyblyg amgylcheddol tuag at ddatblygu. Fodd bynnag, gan fod y ffynhonnell fwyaf o ffosfforws yn Afon Tywi yn dod o ffynonellau amaethyddol, mae argymhellion wedi'u darparu i fonitro'r hyblygrwydd amgylcheddol a chymhwyso dull niwtraliaeth maetholion lle bo angen. Dangoswyd hefyd bod digon o dir addas ar gael i roi mesurau lliniaru ar waith a fyddai'n cyflawni niwtraliaeth maetholion yn Afon Tywi pe bai angen.

Asesodd y cyllidebau maetholion y posibilrwydd y gallai CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin gael effaith negyddol ar Afon Teifi ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau eraill (sef CDLlau Cyngor Sir Ceredigion a Sir Benfro).

Cafodd y posibilrwydd o greu gwlyptiroedd fel mesur Categori 1 ei archwilio fel mesur osgoi dichonadwy i wneud iawn am y potensial o lefelau ffosffadau a ychwanegir at y dalgylch gan ddatblygiadau arfaethedig CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin. Wrth ystyried y tir addas posibl sydd ar gael yn Sir Gaerfyrddin, mae mwy na digon o dir wedi'i nodi i'w ddefnyddio ar gyfer lliniaru maetholion gan ddefnyddio gwlyptiroedd adeiledig i wrthbwyso'r ffosffadau ychwanegol a ollyngir o'r datblygiadau.

Tabl 16 Mae Tabl 13 yn crynhoi'r wybodaeth sy'n dangos bod digonedd o gyfleoedd lliniaru ar gael mewn lleoliadau addas a chan weithredu fesul cam i gyflawni niwtraliaeth maetholion yn Afon Teifi.

Tabl 16 - Crynodeb o Fesurau Categori 1 i gefnogi CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin

Grŵp	# Dyraniau Safle a gwmpesir	Nifer yr Unedau	Cyfanswm Ffosffadau'r Gyllideb Faetholion (Kg/blwyddyn)	Mesur Lliniaru Arfaethedig	Cyfanswm y ffosffadau a liniarwyd (Kg/blwyddyn a waredwyd)	Cyfanswm ffosffadau wrth gefn (Kg/blwyddyn dros ben a waredwyd)
1	2	30	3.45	Gwell gwaith trin dŵr gwastraff (Llanbedr Pont Steffan)	Dd/B	Dd/B
2	1	10	4.58	Gwell gwaith trin dŵr gwastraff (Llanybydder)	Dd/B	Dd/B
3	5	60	51.28	Gwlyptir Adeiledig (Llandysul)	124.54	73.26
4	3	43	33.18	Gwlyptir Adeiledig (Adpar)	114.81	81.63
5	3	29	33.95	Gwlyptir Adeiledig (Tregaron)	297.69	263.74
Cyfanswm	14	172	126.45	-	537.04	410.59

Mae cyflwyno datblygiadau fesul cam yn fwy aml yn cynyddu'r hyder wrth gyflawni'r mesurau hyn, ynghyd â datblygiad Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion Sir Gaerfyrddin.

Ceir potensial ar gyfer effeithiau cyfunol ehangach, ar gyfer Afon Teifi yn unig, o CDLlau eraill yn y dalgylch. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r CDLlau hyn ddangos nad ydynt yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd Afon Teifi trwy eu Hasesiadau Rheoliadau Cynefinoedd eu hunain cyn cael eu mabwysiadu. I'r perwyl hwnnw, gwnaed gwaith gan Arcadis i ddangos bod tir posibl ar gael ar draws y siroedd hyn, ynghyd â chyfluoedd Cyngor Sir Caerfyrddin i waredu ffosffadau sy'n fwy na digon, i sicrhau pe bai eu safleoedd yn dod ymlaen na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar gyfanrwydd ACA Afon Teifi (a ddangosir yn Tabl 14).

Crëwyd Datganiad o Dir Cyffredin ar gyfer rhanddeiliaid mewn perthynas ag ansawdd y dŵr o ran ffosfforws yn ACA Afon Teifi, sy'n amlinellu dull clir o ymdrin â sut y bydd y rhanddeiliaid hyn yn mynd i'r afael ag ansawdd dŵr trwy liniaru maetholion a'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol.

Ceir hefyd ystod o fesurau Categori 2 y gellir eu defnyddio i ategu mesurau Categori 1, darparu mesurau lliniaru ymlaen llaw cyn gweithredu Categori 1, os oes angen, gwaredu ffosfforws ehangach o ffynonellau gwsgaredig i gynyddu'r hyblygrwydd amgylcheddol, ac i ddarparu buddion amlswyddogaethol i iechyd cyffredinol yr ACA. Mae Tabl 17 yn cyflwyno math a swm y mesurau Categori 2 sydd ar gael i gefnogi'r CDLI diwygiedig.

Tabl 17 - Crynodeb o fesurau Categori 2 sydd ar gael i gefnogi CDLI diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin

Mesur Categori 2	Tywi	Teifi	Cyfraddau Gwaredu Posibl (%)	Sylw
Plannu Coed a Choetir	Tua 30,000ha yng Nghyngor Sir Caerfyrddin		11-95%	Gall gynnwys clustogfeydd coedwigaeth neu goetir gwlyb, y naill a'r llall yn dibynnu ar ddyluniad sydd â gallu rhagorol i waredu maetholion.
Clustogfeydd Integredig	23,000ha	5,000ha	31-99%	Gall gynnwys clustogfeydd afonol sydd â photensial ardderchog ar gyfer gwaredu maetholion, mae sawl ardal o dir sy'n eiddo i'r

				cyngor yn nalgylch Afon Tywi yn cyflwyno cyfleoedd
SuDS	14 o Ddyraniadau Safle	7 o Ddyraniadau Safle	20-99%	Dylid ei weithredu ym mhob Dyraniad Safle sy'n golygu y bydd pob cais fesul achos yn cyflwyno SuDS gyda rhywfaint o botensial i waredu Ffosfforws.

Bydd y broses o weithredu'r mesurau Categori 1 hyn yn cael ei hariannu drwy'r Cynllun Cyfraniadau Datblygwyr a bydd camau eraill i waredu ffosffadau yn cael eu cefnogi gan gyllid a rolau'r awdurdodau rheoleiddio. Bydd mesurau lliniaru yn cael eu datblygu'n raddol a'u monitro o ran eu gweithrediad a'u heffeithlonrwydd trwy Fyrddau Rheoli Maetholion Teifi a Thywi a thrwy Gynlluniau Rheoli Maetholion i'w cynhyrchu yn 2024. Mae'r Cynllun Gweithredu yn darparu tystiolaeth bellach ynghylch ymarferoldeb y mesurau lliniaru hyn.

O ran yr effeithiau posibl o ollwng dŵr gwastraff ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Tywi ac Afon Teifi, yn dilyn cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer Asesiad Priodol, a chan ystyried y newidiadau i bolisi CCH4, newidiadau i Ddyraniadau Safle, a chyfanswm y tir sydd ar gael ar gyfer adeiladu gwlyptiroedd yn y dalgylch ehangach, gellir dod i'r casgliad na fydd CDLI Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd naill ai ACA Afon Teifi neu Afon Tywi naill ai ar ben ei hun neu mewn cyfuniad ag unrhyw brosiectau a/neu gynlluniau. Yn wir, mae potensial i wella'r statws ffosffadau presennol.

Atodiad A

Trosolwg o gyfleoedd ACA Afon Teifi ac ACA Afon Tywi





Bae Ceredigion /
Cardigan Bay

Afon Teifi / River Teifi

Afon Tywi / River Tywi

Carmarthen Bay and
Estuaries / Bae
Caerfyrddin ac Aberoedd



- Allwedd
- Dyraniadau Safle Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig CSC
 - Prif Afonydd
 - Gwaith trin dŵr gwastraff (Categori A)
 - Gwaith trin dŵr gwastraff (Categori B)
 - Ardalodd Cadwraeth Arbennig Afonydd (ACA)
 - Triniaeth Adeiledig Cyfleoedd Gwlyptiroedd

- Afon Teifi
- Afon Tywi

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Benfro
- GTDG Categori A
- GTDG Categori B
- Cyfle Gwlyptir

Nodiadau
Mae'r map hwn ond yn dangos yr haenau perthnasol o fewn dalgy/choedd ACA Afonol Teifi a Tywi. Mae nifer o ACAau afonol Sensitif i Frosfforws, gan gynnwys Afon Gwy ac Afonydd Cleddau, y tu allan i ffin y Cnyngor.

Nid yw dyraniadau safle Ceredigion a Sir Benfro wedi'u cynnwys yn y ffigur hwn.

Adolygu	Dyddiad	Statws	Awdur	Gwiriwr	Cymeradwy
01	18/01/24	Terfynol	EBP	JL	RG



Cyngor Sir Gaerfyrddin




Cyngor Sir Gaerfyrddin
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i lywio'r asesiad o
Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Atodiad A Ffigur A1 – Trosolwg o Ddyraniadau Safle Cynllun
Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin a Chyfleoedd Gwlyptiroedd

Graddfa	Maint Gwreiddiol	Datwm	Grid
1:255,000	A3	mAOD	OSGB 27700

Yn cynnwys data OpenStreetMap a gwybodaeth am y sector cyhoeddus sydd wedi'i thrwyddedu dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.



Allwedd

- Dyraniadau Safle Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig CSC
- Prif Afonydd
- Gwaith trin dŵr gwastraff (Categori A)
- Gwaith trin dŵr gwastraff (Categori B)
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd (ACA)
- Triniaeth Adeiledig Cyfleoedd Gwlyptiroedd

Afon Teifi
Afon Tywi

Sir Gaerfyrddin
Ceredigion
Sir Benfro

GTDG Categori A
GTDG Categori B
Cyfle Gwlyptir

Nodiadau
Mae'r map hwn ond yn dangos yr haenau perthnasol o fewn dalgyloedd ACA Afonol Teifi a Tywi. Mae nifer o ACAau afonol Sensitif i Ffosforws, gan gynnwys Afon Gwy ac Afonydd Cleddau, y tu allan i ffin y Cyngor.

Nid yw dyraniadau safle Ceredigion a Sir Benfro wedi'u cynnwys yn y ffigur hwn.

Adolygu	Dyddiad	Statws	Awdur	Gwiriwr	Cymeradwy
01	18/01/24	Terfynol	EBP	JL	RG

ARCADIS
Arcadis
80 Fenchurch Street
London

Cyngor Sir Gaerfyrddin


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Gaerfyrddin
Asesiad Rheoliadau Cynfinoedd i lywio'r asesiad o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Atodiad A Ffigur A2 – Afon Teifi Trosolwg Dyraniadau Safle CDLI a Chyfleoedd Gwlyptiroedd Sir Gaerfyrddin

Graddfa	Maint Gwreiddiol	Datwm	Grid
1:160,000	A3	mAOD	OSGB 27700

Yn cynnwys data OpenStreetMap a gwybodaeth am y sector cyhoeddus sydd wedi'i thrwyddedu dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.



Allwedd

- ◆ Dyraniadau Safle Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig CSC
- Prif Afonydd
- Gwaith trin dŵr gwastraff (Categori A)
- Gwaith trin dŵr gwastraff (Categori B)
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd (ACA)
- Triniaeth Adeiledig Cyfleoedd Gwlyptiroedd

- Afon Teifi
- Afon Tywi

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Benfro
- GTDG Categori A
- GTDG Categori B
- Cyfle Gwlyptir

Nodiadau
 Mae'r map hwn ond yn dangos yr haenau perthnasol o fewn dalgylchoedd ACA Afonol Teifi a Tywi. Mae nifer o ACAau afonol Sensitif i Ffosforws, gan gynnwys Afon Gwy ac Afonydd Cleddau, y tu allan i ffin y Cyngor.

Nid yw dyraniadau safle Ceredigion a Sir Benfro wedi'u cynnwys yn y ffigur hwn.

Adolygu	Dyddiad	Statws	Awdur	Gwiriwr	Gymmeradwy
01	18/01/24	Terfynol	EBP	JL	RG



Cyngor Sir Gaerfyrddin



Cyngor Sir Caerfyrddin
 Asesiad Rheoliadau Cynfinoedd i lywio'r asesiad o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Atodiad A Ffigur A3 – Afon Tywi Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin Trosolwg o Dyraniadau Safle a Chyfleoedd Gwlyptiroedd

Graddfa	Maint Gweiddiol	Datwm	Grid
1:100,000	A3	mAOD	OSGB 27700

Yn cynnwys data OpenStreetMap a gwybodaeth am y sector cyhoeddus sydd wedi'i thrwyddedu dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.


























Atodiad B





Matrics Ymyriadau










Tabl B 18 - Matrics Mesurau Ymyrryd











Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos
Lleihau Ffosforws Amaethyddol yn llygad y ffynnon	Categori 2	<p>Mae'r ateb hwn yn canolbwyntio ar newid arferion ffermio.</p> <p>Manteision: Cael gwared ar ffosffadau yn llygad y ffynnon, a thrwy hynny leihau'r pwysau ar weithfeydd trin dŵr gwastraff traddodiadol ac atebion seiliedig ar natur. Mae'n cynyddu cynaliadwyedd y pridd. Gwasgaru slwtsh biosolid cysylltiedig wedi'i drin ymlaen llaw gan Dŵr Cymru fel un rhanddeiliad achrededig.</p> <p>Anfanteision: Mae'n ofynnol i nifer o randdeiliaid newid arferion hirsefydlog. Mae'n anodd ei reoli / ei fonitro. Mae angen ystyried etifeddiaeth ffosffadau h.y. mae angen ystyried 20 mlynedd o ryddhau ffosffadau'n barhaus yn y newid defnydd tir.</p> <p>Partneriaid Darparu: Tirfeddianwyr, Llywodraeth Cymru, Y Cyngor, CNC, NFU Cymru, Dŵr Cymru, Cyrrff Anllywodraethol Amgylcheddol</p>	<p>Mwy o fioamrywiaeth o ostyngiad mewn cyfoethogi maetholion ac mewn pridd</p> <p>Gwerth esthetig</p> <p>Dal a storio carbon</p>	Isel	Canolig	Uchel	<p>Prosiect Llaeth</p> <p>Fforwm Rheoli Tir Cymru</p> <p>Fforwm Rheoli Dŵr Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru</p> <p>Menter Taclo'r Tywi</p>
Rheoli Ffynhonnell Ffermio	Categori 2	<p>Gwaith gwella ffermydd i atal ffosforws rhag mynd i mewn i gyrsiau dŵr, a all gynnwys ffensio.</p> <p>Manteision: Cynllun syml sy'n cynyddu gwerth y fferm ac mae cynllun grantiau eisoes yn bodoli, a all bara am amser hir (50+ mlynedd)</p> <p>Anfanteision: Nifer o randdeiliaid a allai greu anawsterau rheoli yn y tymor hir ac sy'n gofyn am reoli llystyfiant tymhorol.</p> <p>Partneriaid Darparu: Dŵr Cymru, CNC, NFU CYMRU, Tirfeddianwyr/Rheolwyr Tir, Y Cyngor, Llywodraeth Cymru: Ymrwymadau Gwariant Llywodraeth Cymru, Cynllun Taliad Sylfaenol, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Glastir Uwch, Cynllun Contractau Tir Comin ac Organig, Coedwig Genedlaethol Cymru, Cynllun achredu bwyd, Cynllun Grant Busnes Fferm ar ôl 2024</p>	<p>Mwy o fioamrywiaeth mewn cynefinoedd cysiau dŵr o ostyngiad mewn cyfoethogi maetholion ac mewn pridd</p> <p>Gwerth esthetig</p>	Uchel	Canolig	Uchel	<p>Prosiect Llaeth</p> <p>Fforwm Rheoli Tir Cymru</p> <p>Fforwm Rheoli Dŵr Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru</p> <p>Menter Taclo'r Tywi</p>
Gwahanu Dŵr Arwyneb	Categori 1 a Chategori 2	<p>Mae'r ateb hwn yn canolbwyntio ar wahanu llif dŵr gwastraff o ddatblygiadau newydd a phresennol i ddal dŵr storm.</p> <p>Manteision: Mae hyn eisoes yn arferol ar gyfer datblygiadau newydd, gan arwain at lai o ollyngiadau gorlif carthffosydd cyfun (CSO) i'r cwrs dŵr a lleihau costau trin carthion. Mae dull gwaredu dŵr wyneb cydadferol tebyg eisoes ar waith ar gyfer Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.</p> <p>Anfanteision: Costus i ôl-osod mewn ardaloedd trefol, gostyngiad cyfyngedig mewn Ffosforws oni bai bod systemau SuDS effeithiol yn cael eu hymgorffori, mae effeithiolrwydd yn y tymor hir yn dibynnu ar arferion gweithredu mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff.</p> <p>Partneriaid Darparu: Datblygwyr, Y Cyngor, Dŵr Cymru, Fforwm Seilwaith Gwyrdd Cymru</p>	<p>Mwy o gapasiti ac effeithlonrwydd mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff</p>	Uchel	Isel	Isel	<p>Fforwm Rheoli Tir Cymru</p> <p>Fforwm Rheoli Dŵr Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru</p> <p>Menter Taclo'r Tywi</p>
Gwell Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff	Categori 1	<p>Cynyddu gallu gweithfeydd trin dŵr gwastraff i gael gwared ar ffosffad.</p> <p>Manteision: Cynyddu hyblygrwydd ar gyfer datblygiadau newydd, dulliau cyflenwi clir o fewn Dŵr Cymru. Cyfle i archwilio cyfraniadau datblygwyr.</p> <p>Anfanteision: Mae'n gofyn am fuddsoddiad hirdymor ac amseroedd aros hir. Gall drosglwyddo materion i wasgaru biosolid a fyddai'n gofyn am reolaethau ychwanegol.</p> <p>Partneriaid Darparu: Dŵr Cymru: Cyllid presennol a newydd ar gyfer Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, ymrwymadau gwario. Datblygwyr, CNC, Ofwat, NFU Cymru, Ymrwymadau Gwariant Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Gwella effeithlonrwydd dŵr ac ansawdd dŵr</p>	Canolig	Uchel	Uchel	<p>Fforwm Rheoli Tir Cymru</p> <p>Fforwm Rheoli Dŵr Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru</p> <p>Menter Taclo'r Tywi</p>











Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos
Rheoli Ffynhonnell SuDS	Categori 1	Palmentydd hydraid Manteision: Maent yn lleihau llif brig ac yn gwella triniaeth ansawdd dŵr. Gwneud defnydd deul o'r dirwedd, maent yn atal pyllau rhag ffurfio, gellir eu defnyddio mewn datblygiadau dwys iawn Anfanteision: Nid ydynt yn gydnaws â llwythi gwaddodion mawr, maent ond yn addas ar gyfer ardaloedd â thraffig isel, angen eu cynnal a'u cadw i leihau'r silt rhag eu tagu. Partneriaid Darparu: Datblygwyr, y Cyngor.	 Mesurau lliniaru Llifogydd Naturiol  Rheoleiddio Tymheredd	Canolig	Ise	Uchel	Glawlif Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffad Dalgylch ACA Teifi Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgylch Tregatwg Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi
	Categori 1	Toeau gwyrdd Manteision: Llai o lifoedd dŵr gwastraff brig a thrin ansawdd dŵr yn well, ynghyd â llai o orlwytho dŵr storm a gollyngiadau CSO, mae'n dynwared cyflwr llifau dŵr cyn datblygu, gallant gael eu hôl-osod (yn dibynnu ar y safle), dim tir ychwanegol, gallant ddarparu enillion ar fuddsoddiad o arbedion ynni. Anfanteision: Cost uchel o gymharu â tho confensiynol, nid ydynt yn briodol ar gyfer pob safle ac mae'r gallu i'w hôl-osod yn gyfyngedig, maent yn gofyn am lawer o waith cynnal a chadw gan fod unrhyw ddifrod i bilen y to yn fwy difrifol gan fod dŵr yn cael ei annog i aros ar y to, effaith gyfyngedig o ran gwaredu ffosffad. Partneriaid Darparu: Datblygwyr, Y Cyngor, Dŵr Cymru, Ardaloedd Gwella Busnes ar gyfer ôl-osodiadau.	 Mwy o Fioamrywiaeth  Gwerth esthetig  Gwanhau thermol  Gallu gwrthsefyll yr hinsawdd  Effeithlonrwydd dŵr  Gwanhau Sŵn  Gwelliannau Ansawdd Aer  Iechyd a llesiant os ydynt yn hygyrch Cynyddu hyd oes toeau	Canolig	Canolig	Canolig	Glawlif Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffad Dalgylch ACA Teifi Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi











Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos
Pantiau	Categori 1	<p>Sianeli bas llydan gyda llystyfiant wedi'u dylunio i storio a chludo dŵr ffo i gael gwared ar lygryddion.</p> <p>Manteision: Hawdd i'w hymgorffori yn y dirwedd, maent yn cael gwared ar lygryddion trefol yn dda, maent yn lleihau cyfraddau a chyfeintiau dŵr ffo ac mae ganddynt gost cyfalaf isel. Gellir ymgorffori gwaith cynnal a chadw o fewn y gwaith o reoli'r dirwedd yn gyffredinol, mae llygredd a rhwystrau yn weladwy ac yn hawdd eu trin.</p> <p>Anfanteision: Nid ydynt yn addas ar gyfer ardaloedd serth sydd â pharcio ar ochr y ffordd, maent yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddefnyddio coed ar gyfer tirlunio, risgiau o rwystrau mewn pibellau presennol.</p> <p>Partneriaid Darparu: Datblygwyr, Y Cyngor, Asiantaethau Priffyrdd Lleol, Llywodraeth Cymru, Grŵp Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol a SuDS, Ofwat, Cronfa Arloesi, Sialens Torri Tir Newydd ym maes Dŵr, Her Darganfod Dŵr, CNC, Prosiect Pedair Afon LIFE, Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy, Dŵr Cymru: Ymrwymadau Gwario, Buddsoddiad Amgylcheddol Afonydd yng Nghymru, Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru, Fforwm Seilwaith Gwyrdd Cymru, Living Streets Cymru, Cynlluniau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRIC), Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sefydliad Esmee Fairburn</p>	 Bioamrywiaeth  Amwynder  Gwerth esthetig  Oeri goddefol	Canolig	Isel	Canolig	<p>Glawlif Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffad Dalgyllch ACA Teifi Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi</p>
Sianeli Cludo	Categori 1	<p>Mae sianeli a chomentydd yn sianeli dŵr wyneb agored gydag ymylon caled y gellir plannu llystyfiant ynddynt.</p> <p>Manteision: Gall trin dŵr a llygredd yn effeithiol weithredu fel triniaeth ymlaen llaw i gael gwared â silt cyn i ddŵr gael ei gludo i nodweddion SuDS pellach, maent yn hawdd i'w hadeiladu.</p> <p>Anfanteision: Gall plannu mewn modd anghywir achosi i silt Gronni, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i groesfannau, gwaith cynnal a chadw rheolaidd i gael gwared ar sbwriel / malurion, mae angen gwaith cynnal a chadw mawr bob 5 mlynedd.</p> <p>Partneriaid Darparu: Yr un fath ag ar gyfer pantiau</p>	 Cynnydd mewn bioamrywiaeth  Amwynder  Gwerth esthetig  Oeri goddefol	Canolig	Canolig	Canolig	<p>Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi</p>
Stribedi Hidlo	Categori 1	<p>Stribedi hidlo o laswellt ar lethr graddol a choed stryd</p> <p>Manteision: Maent yn addas iawn i'w rhoi ar waith mewn ardaloedd â thraffig trwm, maent yn annog anweddiad, ymdreiddiad a rhyng-gipiad. Hawdd i'w hadeiladu a chost adeiladu isel, opsiwn effeithiol fel triniaeth ymlaen llaw</p> <p>Anfanteision: Nid ydynt yn addas ar gyfer pob lleoliad. Nid ydynt yn gwanhau nac yn lleihau llifoedd eithafol yn sylweddol.</p> <p>Partneriaid Darparu: Yr un fath ag ar gyfer pantiau</p>	 Bioamrywiaeth  Amwynder  Gwerth esthetig  Iechyd a Llesiant  Gallant annog teithio llesol	Canolig	Canolig	Canolig	<p>Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi</p>












Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos
	Categori 1	<p>Ffesydd llawn cerrig yw draeniau hidlo gyda thanddraeniau oddi tanynt ochr yn ochr â ffyrdd, llwybrau neu reilffyrdd.</p> <p>Manteision: Gallant ddal llygryddion penodol os oes haen o gyfryngau trin wedi'u cynnwys (bydd y swm sy'n cael ei waredu yn dibynnu ar y cyfryngau trin a ddefnyddir). Mae eu gallu i drin yn fawr gan eu bod yn aml yn cael eu creu i fod ochr yn ochr â ffyrdd a llwybrau.</p> <p>Anfanteision: Nid ydynt yn dal llygryddion yn uniongyrchol os na ychwanegir cyfryngau trin, dim llystyfiant, yn dibynnu ar amodau'r pridd a/neu lwythi llygryddion, mae perygl i ddraeniau hidlo alluogi llygredd ffosffad i fudo i'r dŵr daear gwaelodol, gallai llif gormodol arwain at lifogydd dros dro.</p> <p>Partneriaid Darparu: Yr un fath ag ar gyfer pantiau</p>	 <p>Bioamrywiaeth (micro-organebau, pryfed ac amffibiaid)</p> <p>Amwynder</p>  <p>Gallant hidlo gwaddodion mân, metelau a hydrocarbonau (yn dibynnu ar y cyfryngau hidlo a ddefnyddir)</p> <p>Annog proses arsugno a biogdiraddio</p>	Canolig	Isel	Canolig	Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi
	Categori 1	<p>Ardaloedd bas wedi'u tirlunio gyda phriddoedd peirianegol, gwell llystyfiant a chyfrwng hidlo, a all hefyd gynnwys coed.</p> <p>Manteision: Maent yn effeithiol iawn am gael gwared ar lygryddion trefol a gallant hefyd leihau cyfaint a chyfraddau dŵr ffo. Cynllun hyblyg i weddu i'r dirwedd. Maent yn addas iawn i'w gosod mewn ardaloedd hynod anhydraidd, gellir eu hól-osod yn hwylus a phan fyddant wedi'u leinio, gellir eu defnyddio i reoli dŵr ffo wyneb o ardaloedd â risgiau uchel o lygredd dŵr daear.</p> <p>Anfanteision: Maent yn gofyn am dirlunio a rheoli. Maent yn dueddol o gael eu tagu os nad yw'r dirwedd o amgylch yn cael ei rheoli. Nid ydynt yn addas ar gyfer ardaloedd â llethr serth. Dylid eu defnyddio ar y cyd â chydrannau SuDS eraill</p> <p>Partneriaid Darparu: Yr un fath ag ar gyfer pantiau</p>	 <p>Bioamrywiaeth</p> <p>Amwynder / Gwerth esthetig</p> 	Canolig	Isel	Uchel	Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi






Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos	
Basnau Ymdreiddio	Categori 1	<p>Ateb sy'n seiliedig ar erddi glaw, ffosydd a basnau ymdreiddio, ffosydd cerrig, tyllau coed.</p> <p>Manteision:</p> <p>Gerddi glaw – Bach a hawdd eu hôl-osod, maent yn cymryd ychydig o dir yn unig, maent yn hawdd i'w cynnal a'u cadw, cynllun hyblyg i weddu i'r dirwedd a gellir eu gosod mewn ardaloedd anhydraidd os cânt eu dylunio'n gywir.</p> <p>Ffosydd cerrig – Gwaredu gronynnau ffosffadau trwy waddodi solidau i fyny'r afon o'r ffos gerrig ac ymdreiddio yn y ffos gerrig. Gallant leihau cyfradd dŵr ffo a gostwng rhywfaint o'r cyfaint</p> <p>Tyllau coed – Gallant wella perfformiad technolegau seilwaith gwyrdd eraill.</p> <p>Anfanteision:</p> <p>Gerddi glaw – Gan eu bod yn aml yn fach, gall eu heffaith fod yn gyfyngedig, mae angen eu tirlunio a'u rheoli, maent yn dueddol o gael eu tagu os nad yw'r dirwedd o amgylch yn cael ei rheoli. Nid ydynt yn addas ar gyfer ardaloedd â llethrau serth neu briddoedd anhydraidd.</p> <p>Ffosydd cerrig – Mae gwaredu ffosforws yn ddibynnol iawn ar gyfradd ymdreiddiad ac os oes gorlif.</p> <p>Tyllau coed – Gall maetholion gael eu rhaedru i lawr yr afon mewn digwyddiadau eithafol.</p> <p>Partneriaid Darparu: Yr un fath ag ar gyfer pantiau</p>	   	<p>Bioamrywiaeth</p> <p>Amwynder / Gwerth esthetig</p> <p>Dull naturiol o liniaru llifogydd</p> <p>Gallant leihau'r risg o glefydau a gludir gan ddŵr</p>	Canolig	Canolig	Canolig	<p>Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgylch Tregatwg</p> <p>Prosiect Pedair Afon LIFE</p> <p>Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru</p> <p>Menter Taclo'r Tywi</p>
Pyllau Cadw Dŵr	Categori 1	<p>Adeiladu pyllau i gadw dŵr (pyllau cadw dŵr)</p> <p>Manteision: Gallant ddarparu ar gyfer pob storm ac maent yn dda am waredu llygryddion trefol. Gellir eu defnyddio lle mae dŵr daear yn agored i lygredd, os ydynt wedi'u leinio.</p> <p>Anfanteision: Dim gostyngiad yng nghyffwrdd dŵr ffo. Gall amodau anaerobig ddigwydd heb fewnlif rheolaidd. Gall y tir a gymerir gyfyngu ar ddefnydd mewn safleoedd dwys iawn. Efallai na fyddant yn addas ar gyfer safleoedd serth, oherwydd y gofyniad am argloddiau uchel. Os yw rhywogaethau goresgynnol yn eu cymryd drosodd gall hyn greu mwy o waith cynnal a chadw. Gall risgiau iechyd a diogelwch tybiedig arwain at ffensio'r pwll a'i gau i fwrdd.</p> <p>Partneriaid Darparu: Yr un fath ag ar gyfer pantiau</p>	    	<p>Bioamrywiaeth</p> <p>Gwanhau thermol</p> <p>Gallu gwrthsefyll yr hinsawdd</p> <p>Amwynder</p> <p>Gwerth esthetig</p> <p>Hamdden</p> <p>Dull naturiol o liniaru llifogydd</p>	Canolig	Canolig	Uchel	<p>Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgylch Tregatwg</p> <p>Prosiect Pedair Afon LIFE</p> <p>Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru</p> <p>Menter Taclo'r Tywi</p>








Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos
Basnau Cadw Dŵr	Categori 1	<p>Ardaloedd bas gyda llystyfiant sy'n cadw dŵr ar adegau yw basnau cadw dŵr.</p> <p>Manteision: Gallant ddarparu ar gyfer ystod eang o ddigwyddiadau glawiad a gellir eu defnyddio lle mae dŵr daear yn agored i lygredd, os ydynt wedi'u leinio. Syml i'w dylunio a'u hadeiladu gyda photensial ar gyfer defnydd tir deuol. Hawdd i'w cynnal a'u cadw. Maent yn dal gollyngiadau damweiniol mewn modd diogel a gweladwy.</p> <p>Anfanteision: Ychydig iawn o ostyngiad yng nghyfaint dŵr ffo. Gellir defnyddio mewnfeydd ac allfeydd system i gyfyngu ar lefelau dyfnder basnau cadw</p> <p>Partneriaid Darparu: Yr un fath ag ar gyfer pantiau</p>	 Bioamrywiaeth  Amwynder  Gwerth esthetig  Gall iechyd a llesiant ddyblu fel ardaloedd chwarae a hamdden  Dull naturiol o liniaru llifogydd	Uchel	Isel	Canolig	<p>Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgylch Tregatwg Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi</p>
Pyllau	Categori 1	<p>Cyrff mwy o ddŵr llonydd. Caiff dŵr ei symud i'r pwll o'r tu allan trwy ddŵr ffo a llif. Gellir eu hamgylchynu â llystyfiant, glaswellt, tirweddau caled, ac amgylchoedd eraill</p> <p>Manteision: Ffosffad yn cael ei gymryd i mewn gan blanhigion dyfrol. Gall ffosffad hefyd waddodi ar waelod y pwll</p> <p>Anfanteision: Rhaid dilyn arfer da ar gyfer adeiladu oherwydd gall pyllau sydd wedi'u cynllunio'n wael ryddhau ffosffad toddedig. Ymdreiddiad uniongyrchol lleiaf posibl. Ni allant reoli mewnbynau mawr o ddŵr neu lif gormodol</p> <p>Partneriaid Datblygu: Datblygwyr, Y Cyngor, Asiantaethau Priffyrdd Lleol, Llywodraeth Cymru, Ymrwymadau Gwariant Llywodraeth Cymru, Cynllun Taliad Sylfaenol, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Grŵp Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol a SuDS, Ymrwymadau Gwariant Dŵr Cymru, Buddsoddiad Amgylcheddol Afonydd yng Nghymru, Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru, CNC, Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy, Pedair Afon LIFE, Fforwm Seilwaith Gwyrdd Cymru</p>	 Bioamrywiaeth  Amwynder  Gwerth esthetig  Hamdden  Gwanhau thermol	Canolig	Canolig	Canolig	<p>Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi</p>

Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos		
Gwlyptiroedd Adeiledig	Categori 1	<p>Creu gwlyptir wedi'i ddylunio a'i gynnal yn benodol ar gyfer gwneud y mwyaf o ostyngiad ffosffadau o ollyngiadau dŵr storm a dŵr budr. Gall gwreiddiau planhigion amsugno maetholion a'u hymgorffori yn strwythur y planhigyn. Gallant ddarparu triniaeth drydyddol ar ôl prosesau trin dŵr budr cynradd ac eilaidd effeithiol.</p> <p>Manteision: Maent yn dda am waredu llygryddion a gallant ddal llawer o waddodion. Os ydynt wedi'u leinio, gellir eu defnyddio lle mae dŵr daear yn agored i lygredd. Llawer o fanteision amgylcheddol ehangach ac oes hir i weithredu'n effeithiol (50+ mlynedd), gellir ymgorffori systemau gwelyau cyrs mewn gwlyptiroedd a all wella bioamrywiaeth ymhellach.</p> <p>Anfanteision: Maent yn cymryd llawer o dir. Mae angen cynnal llifoedd sylfaen digonol mewn cyfnodau sych ac ystod gyfyngedig o ddyfnder sydd ganddynt ar gyfer gwanhau llif. Gallant ryddhau maetholion y tu allan i'r tymor tyfu, sy'n rhywbeth y mae'n rhaid ei lliniaru trwy ddyluniad da a gwaith cynnal a chadw. Ychydig iawn o ostyngiad mewn cyfaint dŵr ffo ac maent yn llai effeithiol ar gyfer safleoedd serth a bydd angen gwrthgloddiau sylweddol. Os yw rhywogaethau goresgynnol yn eu cymryd drosodd gall hyn greu mwy o waith cynnal a chadw. Mae eu perfformiad yn agored i mewnlifiadau gwaddodion uchel. Bydd ffosffadau yn rhwym mewn slwtsh y gallai fod angen ei waredu, a bydd angen triniaeth ychwanegol ymlaen llaw gyda sychu solar a phroses gwasgaru biosolid wedi'i rheoli'n dda i ddiwallu angen y cnwd. Gallai y gwaith o waredu slwtsh ddigwydd bob 10 mlynedd ond mae'n dibynnu ar ddyluniad y gwlyptir. Efallai y bydd angen newid deunydd y gwely os yw'n orlawn o faetholion os defnyddir deunydd gwely artiffisial. Gwaredu a rheoli llystyfiant tymhorol. Cynefin posibl i fosgitos.</p> <p>Partneriaid Datblygu: Datblygwyr, Y Cyngor, Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru, Ymrwymadau Gwariant Dŵr Cymru, Buddsoddiad Amgylcheddol Afonydd yng Nghymru, Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru, CNC, Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy, Pedair Afon LIFE, NFU Cymru, Partneriaeth Natur Leol Gogledd-ddwyrain Cymru, United Utilities, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, Ymrwymadau Gwariant Llywodraeth Cymru, Cynllun Taliad Sylfaenol, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Arloesi Ofwat, Sefydliad Esmee Fairburn, Sialens Torri Tir Newydd ym maes Dŵr, Her Darganfod Dŵr.</p>	 Bioamrywiaeth  Amwynder  Gwerth esthetig  Hamdden  Gwanhau thermol/rheoleiddio tymheredd  Gallu gwrthsefyll yr hinsawdd  Dal a storio carbon  Dull naturiol o liniaru llifogydd  Potensial i aildefnyddio dŵr 			Canolig	Canolig	Uchel	<p>Prosiect Adfer Dalgylch Tywi Uchaf Prosiect Gwlyptiroedd Prosiect Pontbren Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Fforwm Rheoli Dŵr Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffad Dalgylch ACA Teifi</p>

Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos
Clustogfeydd Integredig	Categori 2	<p>Ateb sy'n cynnwys cynyddu glaswelltir, glaswelltir ar orlifdir, cloddiau chwilod, coetir a gwrychoedd.</p> <p>Manteision: Maent yn dda am ddal llygryddion ac mae ganddynt fuddion amgylcheddol ehangach.</p> <p>Anfanteision: Gall llai o ardal gynhyrchiol o dan amaethyddiaeth ryddhau maetholion y tu allan i'r tymor tyfu. Perygl o gynyddu allyriadau ocsid nitraidd a methan (nwyon tŷ gwyr)</p> <p>Partneriaid Datblygu: Datblygwyr, Y Cyngor, Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru, Dŵr Cymru, Buddsoddiad Amgylcheddol Afonydd yng Nghymru, Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru, CNC, Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy, Pedair Afon LIFE, NFU Cymru, Cities for Trees, Partneriaeth Natur Leol Sir Gaerfyrddin, United Utilities, Salmon and Trout Conservation, Llywodraeth Cymru, Ymrwymadau Gwariant Llywodraeth Cymru, Cynllun Taliad Sylfaenol, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Cynllun Grantiau Bach Glastir, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Coetiroedd i Gymru</p>	 Bioamrywiaeth  Gallu gwrthsefyll yr hinsawdd  Ansawdd aer  Iechyd a Llesiant  Addysgol  Rheoli Plâu  Gwanhau sŵn  Amwynder  Gwerth esthetig	Canolig	Canolig	Uchel	<p>Prosiect Pontbren Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Fforwm Rheoli Dŵr Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffad Dalgylch ACA Teifi</p>
Caeau Draenio Carthffosiaeth Preifat	Categori 2	<p>Rhwydwaith o bibellau gollwng o danc septig neu Gyfleuster Parod i Drin Carthion a osodwyd mewn ffosydd o dan wyneb y ddaear fel y gellir rhyddhau elifion i'r ddaear. Mae elifiant yn trylifo drwy'r pridd. Caiff ffosffad sy'n rhwym mewn gwaddodion ei atal rhag symud ac mae ffosffad hydawdd yn rhwym mewn priddoedd a gwaddodion.</p> <p>Manteision: Mae'n debygol o fod yn llai costus na system gwlyptir gyda llai o waith cynnal a chadw ar gyfer yr un perfformiad gwaredu ffosffadau. Gellir ei gyflwyno hyd at raddfa ofodol canolig (<100 uned / <2.0 ha)</p> <p>Anfanteision: Rhagwelir y bydd hyd oes y cynllun yn fyr (10-20 mlynedd). Gall defnydd cynyddol o'r cae draenio gydag amser arwain at gyrraedd y pwynt lle mae'r priddoedd neu'r deunyddiau hidlo wedi amsugno cymaint ag y gallant. Mae caeau lle mae'r risg o lifogydd dŵr daear yn uchel neu lle mae'r lefel trwythiad o fewn 2.0 m i wyneb y ddaear yn anaddas. Nid ydynt yn darparu unrhyw fuddion amgylcheddol ychwanegol.</p> <p>Partneriaid Datblygu: Datblygwyr, Ymrwymadau Gwario Dŵr Cymru, NFU Cymru, Y Cyngor.</p>	 Effeithlonrwydd a mwy o gapasiti mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff	Canolig	Isef	Uchel	<p>Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Fforwm Rheoli Dŵr Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi</p>

Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos	
Adfer sianeli afonydd i'w cyflwr naturiol	Categori 2	<p>Gweithio i adfer afonydd i 'gyflwr mwy naturiol' gan gynnwys: adfer ystumiau afon, creu ysgafellau, systemau pyllau a beisleoedd, plannu planhigion afonol ac ailgysylltu sianeli â'r gorlifdir.</p> <p>Manteision: Mae'n dda am ddal llygryddion a buddion amgylcheddol ehangach. Gall fod ag oes hir i weithredu'n effeithiol (50+ mlynedd). Ychydig iawn o waith cynnal a chadw sydd ei angen yn ystod cyfnod sefydlu'r sianel afon.</p> <p>Anfanteision: Ar hyn o bryd nid oes yna safon diwydiant o ran dylunio cynlluniau ar raddfa fwy i adfer afonydd a gorlifdiroedd i'w cyflwr naturiol i gefnogi'r broses o waredu maetholion. Bydd angen monitro sylfaenol a monitro tymor hwy cyn ac ar ôl gweithredu cynllun er mwyn penderfynu faint o ffosffad y mae'r cynllun yn cael ei waredu. Amsugno ffosffadau i waddodion yw'r broses sylfaenol o waredu maetholion; fodd bynnag, mae modd i'r broses ddigwydd o chwith gyda datsugno yn digwydd os yw crynodiad ffosffadau dŵr yn gostwng o dan drothwy. Mae'r trothwy'n ddynamig, gan fod gallu gwaddodion i amsugno yn newid dros amser. Gall y drefn reoli ddibynnu ar y cyd-destun lleol a graddfa'r gwaith o adfer i gyflwr naturiol. Gall bara dros flwyddyn hyd nes y bydd buddion ychwanegol yn cael eu gwireddu.</p> <p>Partneriaid Datblygu: Y Cyngor, Ymrwymadau Gwariant Dŵr Cymru, Buddsoddiad Amgylcheddol Afonydd yng Nghymru, Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru, Salmon and Trout Conservation, Tirfeddianwyr / rheolwyr tir, CNC, Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy, Pedair Afon LIFE, Llywodraeth Cymru, Ymrwymadau Gwariant Llywodraeth Cymru, Cynllun Taliad Sylfaenol, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Arloesi Ofwat, Sialens Torri Tir Newydd ym maes Dŵr, Her Darganfod Dŵr</p>	      	<p>Dull naturiol o liniaru llifogydd</p> <p>Bioamrywiaeth</p> <p>Amwynder</p> <p>Gwerth esthetig</p> <p>Dal a storio carbon</p> <p>Gwaredu llygryddion ychwanegol</p> <p>Iechyd a llesiant</p> <p>Ansawdd aer</p> <p>Gallu gwrthsefyll yr hinsawdd</p>	Uchel	Isel	Canolig	<p>Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgylch Tregatwg</p> <p>Prosiect Pedair Afon LIFE</p> <p>Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS</p> <p>Fforwm Rheoli Dŵr Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru</p> <p>Menter Taclo'r Tywi</p>
Blocio Ffosydd Draenio	Categori 2	<p>Gosod rhwystrau ar draws ffosydd i arafu'r llif, cynyddu amserau arhosiad ac atal gwaddodion rhag cael eu cludo i lawr yr afon.</p> <p>Manteision: Hawdd i'w hadeiladu, cost adeiladu isel a dim llawer o gynnal a chadw (angen archwiliadau gweledol yn bennaf).</p> <p>Anfanteision: Rhagweladwyedd / sicrwydd llwyddiant isel, a pherfformiad gwaredu isel. Diffyg tystiolaeth yn y DU o'u heffeithiolrwydd; argymhellir monitro sylfaenol a hirdymor cyn ac ar ôl eu gweithredu a gallant arwain at lifogydd lleol yn ystod digwyddiadau glaw trwm. Pe bai argae yn methu byddai gan hyn oblygiadau ar gyfer effeithlonrwydd gwaredu ffosffad. Ar hyn o bryd mae'r ymchwil sydd ar gael ynghylch effeithiolrwydd y dull hwn o waredu maetholion yn gyfyngedig.</p> <p>Partneriaid Datblygu: Tirfeddianwyr / rheolwyr tir, Dŵr Cymru, Ymrwymadau Gwariant Dŵr Cymru, Buddsoddiad Amgylcheddol Afonydd yng Nghymru, Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru, Y Cyngor, NFU Cymru, Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol, CNC, Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru.</p>	   	<p>Dull naturiol o liniaru llifogydd</p> <p>Bioamrywiaeth</p> <p>Gwaredu llygryddion ychwanegol</p> <p>Dal a storio carbon</p>	Canolig	Isel	Isel	<p>Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgylch Tregatwg</p> <p>Prosiect Pedair Afon LIFE</p> <p>Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru</p> <p>Menter Taclo'r Tywi</p>

Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos
Tagfeydd coed bwriadol	Categori 2	<p>Argaeau sy'n gollwng wedi'u gwneud o falurion coediog, wedi'u hadeiladu i ddynwared argaeau afancod a llofoedd araf ac adfer afonydd i'w cyflwr naturiol.</p> <p>Manteision: Gwaredu ffosffad trwy waddodi, amsugno cemegau a chymathu biomas. Ychydig o waith cynnal a chadw fydd ei angen ar gynlluniau sydd wedi'u cynllunio'n dda, a gallent wasanaethu hyd at 100 o unedau.</p> <p>Anfanteision: Perygl o gael eu golchi i ffwrdd mewn digwyddiadau llifogydd – maent fwyaf addas ar gyfer cyrsiau dŵr bach < 2m o led. Diffyg ymchwil ar gyfer tagfeydd coed bwriadol / argaeau afancod i gadarnhau amcangyfrifon posibl o waredu maetholion; bydd angen monitro cyn/ar ôl cyflwyno'r cynllun i bennu ei effeithiolrwydd. Gallent greu mwy o lifogydd lleol. Mae angen rheolaeth addasol rhag ofn y bydd angen atgyweiriadau. Posibilrwydd y gallai'r ffosffad a waredir fod yn fyrdymor ac y gallai maetholion symud yn ôl yn ystod llifogydd.</p> <p>Partneriaid Datblygu: Y Cyngor, CNC, Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy, Pedair Afon LIFE, Dŵr Cymru, Ymrwymadau Gwariant Dŵr Cymru, Buddsoddiad Amgylcheddol Afonydd yng Nghymru, Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru, Salmon and Trout Conservation, Tirfeddianwyr / rheolwyr tir, Llywodraeth Cymru, Ymrwymadau Gwariant Llywodraeth Cymru, Cynllun Taliad Sylfaenol, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sefydliad Esmee Fairburn, Cronfa Arloesi Ofwat, Sialens Torri Tir Newydd ym maes Dŵr, Her Darganfod Dŵr</p>	 <p>Dull naturiol o liniaru llifogydd</p>  <p>Bioamrywiaeth</p> <p>Dal a storio carbon</p>  <p>Gwaredu llygryddion ychwanegol</p>	Canolig	Isel	Isel	Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgylch Tregatwg Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Fforwm Rheoli Dŵr Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi
Cyfryngau Trin Gronynnog	Categori 2	<p>Cyfryngau trin gronynnog sydd wedi'u cynllunio i drin amrywiol lygryddion. Ceir cyfryngau trin gronynnog sy'n benodol ar gyfer ffosfforws.</p> <p>Manteision: Gwaredu hyd at 100% o gyfanswm y ffosffadau (os yw ymdreiddiad yn bosibl ac yn dibynnu ar y gwneuthurwr)</p> <p>Anfanteision: Mae gwaredu ffosffad yn ddibynnol iawn ar y gwneuthurwr a pha mor dda y caiff asedau eu cynnal a'u cadw. Bydd angen newid y cyfryngau hidlo o bryd i'w gilydd.</p> <p>Partneriaid Datblygu: Tirfeddianwyr / rheolwyr tir, Y Cyngor, CNC, Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy, Datblygwyr, Asiantaethau Priffyrdd Lleol, Grŵp Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol a SuDS, Living Streets Cymru.</p>	 <p>Potensial ar gyfer ailgylchu dŵr llwyd</p>  <p>Gallant leihau arogleuon annymunol</p>	Canolig	Canolig	Canolig	Fforwm Rheoli Dŵr Cymru Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi.

Ymyriad	Categori Lliniaru	Trafodaeth	Manteision	Dichonoldeb	Cynnal a Chadw	Effeithiolrwydd	Astudiaethau Achos
Gwelyau Helyg	Categori 2	<p>Gellir cynllunio gwelyau helyg i drin dŵr storm o arwynebau risg isel/risg ganolig mewn dalgyloedd bach. Maent yn caniatáu i lifoedd gael eu cipio, eu gwanhau a'u hanwedd-drydarthu.</p> <p>Manteision: Cipio, gwanhau ac anwedd-drydarthu'r holl lifoedd felly nad oes dim yn cael ei ollwng. Ffosffad yn cael ei gymryd i mewn gan yr helyg. Gall cynaeafu helyg fod yn adnodd gwerthfawr. Os caiff ei adeiladu fel rhan o systemau caeedig, mae'n effeithiol ar unwaith.</p> <p>Anfanteision: Nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyffredin yn y DU, a lle mae hynny'n digwydd, maent yn tueddu i fod ar gyfer gosodiadau trin carthion preifat. Er mwyn cael gwaredu'r mwyaf o ffosffadau bydd rhaid cynaeafu'r helyg. Mae cynaeafu helyg yn adnodd gwerthfawr ond mae'r broses o'u cynaeafu yn feichus. Mae angen gwaredu rhywfaint o waddodion yn y fewnfa ac efallai y bydd rhaid gwaredu unrhyw waddodion crog o bryd i'w gilydd. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch rheoliadau ar eu modd o drin dŵr. Maent yn effeithiol yn ystod y tymor tyfu helyg yn unig.</p> <p>Partneriaid Datblygu: Tirfeddianwyr / rheolwyr tir, Y Cyngor, CNC, Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy, Pedair Afon LIFE, Dŵr Cymru, Ymrwymadau Gwariant Dŵr Cymru, Buddsoddiad Amgylcheddol Afonydd yng Nghymru, Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru, Datblygwyr: Gallai helpu i ddarparu Budd Net i Fioamrywiaeth, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, Ymrwymadau Gwariant Llywodraeth Cymru, Cynllun Taliad Sylfaenol, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Arloesi Ofwat, Sialens Torri Tir Newydd ym maes Dŵr, Her Darganfod Dŵr.</p>	 Bioamrywiaeth  Dull naturiol o liniaru llifogydd  Gwerth esthetig  Gwerth amwynder  Dal a storio carbon  Gellir cynaeafu'r helyg ac wedyn eu gwerthu (sy'n gwrthbwysu rhai o'r costau cynnal a chadw)	Canolig	Isel	Uchel	<p>Prosiect Pontbren Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgyloch Tregatwg Prosiect Pedair Afon LIFE Rheoli Dŵr Arwyneb Cenedlaethol ac Aelodau Grŵp SuDS Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi</p>
Tanciau storio gwanhau (wedi'i leinio)	Categori 2	<p>Tanciau cellog/mewn cawell wedi'i leinio neu storfa arall o dan y ddaear (dim ymdreiddiad).</p> <p>Manteision: Gwaredu gronynnau ffosffadau trwy waddodi solidau i fyny'r afon o'r tanc gwanhau.</p> <p>Anfanteision: Nid yw tanc gwanhau wedi'i gynllunio i waredu unrhyw ffosffad ar ei ben ei hun. Mae gwaredu ffosffad yn ddibynnol iawn ar nodweddion i fyny'r afon a pha mor dda y caiff asedau eu cynnal a'u cadw. Mae angen newid hidlwyr bob ychydig flynyddoedd.</p> <p>Partneriaid Datblygu: Tirfeddianwyr / rheolwyr tir, Y Cyngor, CNC, Dŵr Cymru, Ymrwymadau Gwario Dŵr Cymru, Datblygwyr: Gallai helpu i ddarparu Budd Net i Fioamrywiaeth, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, Ymrwymadau Gwariant Llywodraeth Cymru, Cynllun Taliadau Sylfaenol</p>	 Dull naturiol o liniaru llifogydd	Canolig	Uchel	Uchel	<p>Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgyloch Tregatwg Fforwm Rheoli Dŵr Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Menter Taclo'r Tywi</p>



Arcadis Consulting (UK) Limited

Arcadis

80 Fenchurch Street

Llundain

EC3M 4BY

[arcadis.com](https://www.arcadis.com)